Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

# PENDERFYNIADAU FFERMWYR

Rhagfyr 2011

Prifysgol Aberystwyth University
Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Tabl Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cynnwys | | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | | 2 |
| ADRAN 1 | RHAGYMADRODD | 5 |
| | Nodau'r Prosiect | 5 |
| | Y Cyd-destun Polisi | 5 |
| ADRAN 2 | AROLWG LLENYDDIAETH | 7 |
| ADRAN 3 | METHODOLEG | 9 |
| ADRAN 4 | TROSOLWG O'R SAMPL | 11 |
| | Nodweddion yr Ymatebwyr | 11 |
| | Teipolegau Ffermwyr | 13 |
| ADRAN 5 | PENDERFYNIADAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL | 17 |
| | Derbyniad Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol | 17 |
| | Derbyniad y Cynllun Glastir | 19 |
| | Opsiynau Rheoli Glastir | 26 |
| | Amcanion y Cynllun Glastir | 28 |
| | Agweddau at Gadwraeth | 31 |
| | Ymgysylltu â Chadwraethwyr | 34 |
| | Taliadau am Wasanaethau Ecosystem | 39 |
| ADRAN 6 | PENDERFYNIADAU BUSNES | 45 |
| | Ymgysylltu â Busnes | 45 |
| | Agweddau at y Taliad Sengl | 49 |
| | Argraffiadau o Risg | 53 |
| ADRAN 7 | GWNEUD PENDERFYNIADAU | 55 |
| | Ffynonellau Gwybodaeth | 55 |
| | Dylanwadau Cymdeithasol | 60 |
| | Deinameg y Teulu | 64 |
| ADRAN 8 | CASGLIADAU | 67 |
| Llyfryddiaeth | | 71 |
| Atodiadau | | 73 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi trosolwg ar yr ymchwil a wnaed gan yr Arsyllfa rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2011 i ymchwilio i benderfyniadau gan ffermwyr yng Nghymru.

Tîm ym Mhrifysgol Aberystwyth a wnaeth y gwaith ymchwil.

Mae'r ymchwil yn trafod y cwestiynau hyn:

1. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr ynghylch eu busnesau fferm a chymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol?
2. Sut mae creu cymhellion mwy effeithiol i ddenu ffermwyr i gymryd rhan mewn mentrau amaeth-amgylcheddol ac i gyflwyno gwasanaethau ecosystem?
3. Sut mae helpu ffermwyr i redeg busnesau mwy cynaliadwy, a'r rheiny'n gallu gwrthsefyll heriadau'r dyfodol ar ffurf diwygio'r CAP, anwadalrwydd y farchnad, a chynnydd yng nghostau'r mewnbwn?

Bwriad y gwaith yw bwydo mecanweithiau amaeth-amgylcheddol a mecanweithiau eraill y polisi gwledig, sy'n targedu gwaith i gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem, a chyfrannu at wireddu Fframwaith Amgylchedd Naturiol a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru. Bwriedir i'r ymchwil gyfrannu at gynllunio diwygiadau'r CAP a mesurau polisi amaethyddol y dyfodol, i wella gwydnwch a chynaliadwyedd ffermio yng Nghymru.

Cafodd ymagwedd dulliau cymysg ei defnyddio, gan ddefnyddio data eilaidd o Arolwg Aelwydydd Fferm 2010 yr Arsyllfa ac Arolygon Busnesau Fferm IBERS, gan gasglu data sylfaenol drwy 51 o gyfweliadau lled-strwythuredig â ffermwyr ledled Cymru. Dewiswyd y sampl ar sail maint y fferm (ESU). Cyfwelwyd hefyd â grwpiau astudiaeth achos a oedd yn arloesi wrth gyflwyno gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys Menter Mynyddoedd Cambria a phrosiect 'Gorgors Fyw' o dan nawdd LIFE. Cyfwelwyd hefyd â swyddogion prosiect o'r astudiaethau achos, a chynrychiolwyr Undebau Ffermwyr a Chanolfan Organig Cymru.

## Y CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION ALLWEDDOL

**Cwestiwn 1: Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau busnes ac ar benderfyniadau amaeth-amgylcheddol:**

Mae'n fwy effeithiol rhannu ffermwyr fesul segment drwy wahaniaethu rhyngddynt ar sail eu hymwneud â busnes a'u gallu i ymaddasu, yn hytrach na'u rhannu yn ôl mathau penodedig o hunaniaeth, neu yn ôl lefelau eu hymgysylltiad â mentrau amaeth-amgylcheddol.

Erbyn hyn, mae'r mwyafrif llethol o ffermwyr yn fodlon ystyried cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel modd i gynyddu gwydnwch eu busnesau. Mae mesurau amgylcheddol yn cael eu mabwysiadu nid yn unig am resymau ideolegol, ond yn fwyfwy fel strategaeth fusnes hefyd.

Mae'r derbyniad i gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn dal i ddibynnu ar gydbwysedd addas rhwng cymhelliant ariannol a chyfatebiaeth â chynlluniau rheoli.

Roedd ychydig yn llai na thraean o'r ffermwyr y cyfwelwyd â nhw wrthi'n gwneud cais Glastir. Ond, gan fod llawer yn dal yng nghyfnod ymestyn Tir Gofal doedd y ffigurau terfynol ddim yn glir.

Testun gofid oedd nad oedd rhai o gyn-aelodau Tir Gofal yn dewis ymuno â Glastir. Ond, er gwaethaf y derbyniad gwael a gafodd Glastir, roedd gan y cynllun nifer uwch o aelodau yn y flwyddyn gyntaf nag unrhyw un o'r cynlluniau blaenorol.

Mae'r brif feirniadaeth ar gynllun Glastir yn cynnwys lefelau talu isel, argraff bod yna lefel uchel o gyfyngiadau, a diffyg ymroddiad i nodau'r cynllun.

**Cwestiwn 2: Cymhellion cynlluniau amaeth-amgylcheddol a gwasanaethau ecosystem:**

Ceir mesur o ansicrwydd a dealltwriaeth gyfyngedig o hyd ynglyn â nodau ac amcanion Glastir ymhlith ffermwyr, ac mae hyn yn ffactor arwyddocaol o ran peidio â chymryd rhan ynddo.

Roedd y mwyafrif o ffermwyr yn amau'r pwyslais tybiedig ar flaenoriaethau cadwraeth ar adeg pan fo'r pryderon am ddiogelu cyflenwadau bwyd yn codi.

Mae systemau isel eu mewnbwn, systemau organig, a systemau amaeth-ecolegol yn cael eu gweld fel modelau pwysig tuag at gyrraedd y nodau cyfun hyn, ac mae llawer o ffermydd yn mabwysiadu elfennau o'r systemau hyn i gydnerthu eu busnesau.

Nid yw'r mwyafrif o ffermwyr yn fodlon cyfaddawdu ar allu eu fferm i gynhyrchu bwyd, hyd yn oed i sicrhau enillion ariannol byrdymor, gan eu bod yn awyddus i gadw busnes y fferm i'r to sy'n codi. Er mwyn datblygu gwaith i gyflwyno gwasanaethau ecosystem, mae'n hanfodol deall y blaenoriaethau hyn.

Mae gallu rhai ffermwyr i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi'i gyfyngu am mai hyn o hyn yn unig o gynefin addas sydd ar gael, ac mae hyn yn golygu bod gosod y fferm gyfan mewn cynllun yn llai deniadol yn economaidd.

Gwael iawn yw'r ddealltwriaeth ynglyn â chysyniad gwasanaethau ecosystem. Dangoswyd bod cyfathrebu clir, drwy brosiectau arddangos effeithiol a thrwy gymorth swyddogion prosiect, yn gwella'r lefelau cyfranogi.

Gall tyndra a chamddeall rhwng ffermwyr a chadwraethwyr gael effaith negyddol ar argraff ffermwyr o arferion a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

**Cwestiwn 3: Cefnogi busnesau fferm:**

Mae ystadegau ynghylch busnesau fferm yn dangos bod lefel uchel iawn yn agored i ostyngiadau yn y dyfodol yn y Taliad Sengl. Er hynny, yn yr astudiaeth hon, soniodd hanner yr ymatebwyr eu bod wrthi'n ystyried sut i ymaddasu.

Roedd busnesau bach arbenigol, a chanddyn nhw gronfa leol gryf o gwsmeriaid, yn arbennig o wydn ac yn cael eu gweld fel model o bwys wrth symud tuag at economi carbon-isel.

Cyfrifyddu a rheolaeth ariannol oedd y sgiliau busnes gwannaf ymhlith yr ymatebwyr. Roedd llawer o'r farn bod dysgu gan ffermwyr eraill a grwpiau cymorth yn helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn.

Roedd yn well gan y mwyafrif o ffermwyr ddatblygu ansawdd ac effeithlonrwydd eu sgiliau ffermio nag arallgyfeirio'u busnesau. Nid arallgyfeirio yw'r ateb gorau bob tro ar ffermydd lle mae'r capasiti dynol yn gyfyngedig.

Bernid bod yna ben draw i waith brandio arbennig ac ychwanegu gwerth. Gall fod yn fwy effeithiol gwella cryfder systemau ffermio drwy wella iechyd y da byw, gostwng costau'r mewnbwn, a chwtogi cadwynau cyflenwi.

Er bod cyfyngiadau ar eu gallu amgylcheddol yn bwysig o ran lefelau'r ymaddasu ymhlith busnesau, parodrwydd i newid a chapasiti dynol oedd y prif benderfynyddion. Mae dod ar draws syniadau newydd a dylanwadau allanol yn arbennig o effeithiol. Yma roedd dylanwad gwasanaethau ymestyn yn arbennig o amlwg.

Mae cyfran uchel o ffermwyr yn eu gweld eu hunain fel busnesau annibynnol a chystadleuol. Mae hynny'n eu cymell i fod yn anfodlon cael eu cyfarwyddo neu eu gorfodi yn eu penderfyniadau.

Fel mentrau teuluol y mae'r mwyafrif o ffermydd yn cael eu rhedeg, ac mae'r penderfyniadau'n cynnwys partneriaid ac aelodau eraill o'r teulu, nid y ffermwr yn unig.

Byddai'n well gan gyfran uchel o ffermwyr gael gwell prisiau am eu cynnyrch yn lle'r Taliad Sengl. Soniwyd bod angen mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth o du'r cyhoedd er mwyn caniatáu newid yn y maes hwn.

**Argymhellion**

1. Mae angen mynegi nodau ac amcanion Glastir ymhellach er mwyn hybu mwy o gyfranogi.

2. Dylid gosod mentrau amaeth-amgylcheddol o fewn strategaeth ffermio gydlynol, gydag ymagwedd integredig at her cadwraeth, her addasu at newid hinsawdd a her diogelu cyflenwadau bwyd.

3. Dylid ategu dulliau isel eu mewnbwn, dulliau organig, a dulliau amaeth-ecolegol fel ffyrdd i gyfuno amcanion cadwraeth a chynhyrchu bwyd.

4. Byddai cynllun grantiau bach i ategu gwaith cadwraeth wedi'i dargedu ar ffermydd nad yw'n briodol eu cynnwys yn llawn yn Glastir yn ffordd i gynnwys rhagor o ffermwyr mewn amcanion amaeth-amgylcheddol.

5. Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu i esbonio a dangos dull y gwasanaethau ecosystem i ffermwyr.

6. Dylid defnyddio strategaethau newid ymddygiad, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu, annog ac arwain drwy esiampl, er mwyn hybu arferion amgylcheddol ymhlith ffermwyr a hybu perthynas fwy adeiladol rhwng ffermwyr a chadwraethwyr.

7. Dylai gwasanaethau ymestyn a grwpiau trafod gael eu cadw a'u cefnogi er mwyn caniatáu dysgu ar y fferm a dysgu ymhlith cyd-ffermwyr.

8. Dylai targedau ymgysylltu effeithiol i hybu newid ymddygiad ac i annog ffermwyr i gymryd rhan mewn cynlluniau dargedu argraffiadau ffermwyr o annibyniaeth a chystadleurwydd a mynd i'r afael â'r argraffiadau hynny.

9. Dylid anelu dulliau cymorth busnes a negeseuon polisi at deulu'r fferm i gyd ac nid at un penderfynwr.

# ADRAN 1: RHAGYMADRODD

## Nodau'r Prosiect

Mae'r adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed gan yr Arsyllfa rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2011 i ymchwilio i benderfyniadau ffermwyr yng Nghymru. Bwriedir i'r ymchwil gyfrannu at ddatblygu polisïau amaeth-amgylcheddol a mecanweithiau eraill y polisi gwledig, sy'n targedu gwaith i gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem; a'r polisi amaethyddol i wella gwydnwch a chynaliadwyedd ffermio yng Nghymru. Yn benodol, edrychodd yr Arsyllfa ar y cwestiynau a ganlyn:

1. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr ynghylch eu busnesau fferm a chymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol?
2. Sut mae creu cymhellion mwy effeithiol i ddenu ffermwyr i gymryd rhan mewn mentrau amaeth-amgylcheddol ac i gyflwyno gwasanaethau ecosystem?
3. Sut mae helpu ffermwyr i redeg busnesau mwy cynaliadwy, a'r rheiny'n gallu gwrthsefyll heriadau'r dyfodol ar ffurf diwygio'r CAP, anwadalrwydd y farchnad, a chynnydd yng nghostau'r mewnbwn?

Rhannwyd y cwestiynau bras hyn yn ôl y meysydd a ganlyn, sydd wedi arwain proses yr ymchwil a strwythur yr adroddiad terfynol:

- Cymhellion ac ymgysylltu â chynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- Ymgysylltu ac agweddau at Glastir.
- Argraffiadau o gadwraeth natur.
- Ymgysylltu â chysyniad cyflwyno gwasanaethau ecosystem.
- Argraffiadau o rôl a hunaniaeth.
- Gogwydd at fusnes.
- Argraffiadau o ddiwygiadau'r CAP / y Taliad Sengl.
- Argraffiadau o risg.
- Prosesau penderfynu.

## Y Cyd-destun Polisi

Mae'r cwestiynau ymchwil sydd o dan sylw yn yr adroddiad hwn wedi'u llunio yng nghyd-destun deall penderfyniadau ffermwyr o ran y mentrau polisi presennol a diweddar yng Nghymru, a'u hagweddau at nifer o ddatblygiadau polisi posibl at y dyfodol.

Yn fwyaf diweddar, mae'r trafod ar benderfyniadau ffermwyr ynglyn ag arferion amaeth-amgylcheddol wedi'i fframio gan ddechrau cynllun **Glastir** gan Lywodraeth Cymru yn 2009 fel ffordd i gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem, gan ganolbwyntio ar liniaru newid yn yr hinsawdd; lliniaru effaith llifogydd; ansawdd dwr (yn enwedig Parthau Perygl Nitradau); bioamrywiaeth; tirluniau hanesyddol a diwylliannol. Mae'n disodli pedwar cynllun blaenorol: Tir Cynnal, Tir Gofal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig.

Mae Glastir yn rhan o newid ehangach yn y polisi amaethyddol i leihau'r ddibyniaeth ar gymorthdaliadau, hybu mwy o integreiddio yn y farchnad, gwaith arallgyfeirio, a gwerth cyhoeddus am arian drwy gyflwyno buddion cyhoeddus yn fwy effeithiol. Mae'r agenda ehangach hwn wedi'i bennu gan ddiwygiadau i **Bolisi Amaethyddol Cyffredin** yr Undeb Ewropeaidd (UE), ac wedi'i fynegi ym mholisi Llywodraeth Cymru yn y papur **'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu dyfodol cadarn – Strategaeth newydd ar gyfer ffermio'** yn 2009, sy'n amlinellu blaenoriaethai polisi gwledig Llywodraeth Cymru hyd at 2020.

Mae Glastir yn cael ei ariannu o dan **Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13** – y bwriedir iddo hybu datblygu gwledig cynaliadwy *ac* integredig, gan roi sylw i waddol o amddifadedd economaidd a chymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru, a herio'r bygythiad y mae'r hinsawdd

economaidd bresennol yn ei greu. Yma nodir bod teuluoedd amaethyddol yn gydrannau allweddol mewn cymunedau gwledig sy'n agored i niwed, gan eu bod yn cyfrannu'n economaidd ac yn gymdeithasol. Yn yr un modd, cydnabyddir bod deinameg cymunedau amaethyddol a gwledig wedi newid yn arwyddocaol yn y blynyddoedd diwethaf, gydag arallgyfeirio, twristiaeth a busnesau bach eraill bellach yn dod i'r amlwg.

Yn ychwanegol, wrth bwysleisio deilliannau amgylcheddol, mae Glastir hefyd yn rhan o ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli'r amgylchedd ac o'i hymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae **Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol: Cymru Fyw,** a fabwysiadwyd yn 2011 yn canolbwyntio ar hyn, gan bwysleisio mor bwysig yw dull sydd wedi'i seilio ar ecosystemau a'r angen i werthfawrogi nwyddau a gwasanaethau ecosystem. Yn y cyfamser, mae **Strategaeth Newid Hinsawdd** Llywodraeth Cymru yn gosod pwyslais ar ymgysylltu â'r cyhoedd a mynegi'r materion yn effeithiol, er mwyn hwyluso newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Yn benodol, ochr yn ochr ag ymgysylltu, tynnir sylw at yr angen i roi esiamplau, galluoedd ac anogaeth i bobl. Bernir bod y strategaeth hon yn rhan o ffocws ehangach ar wella llywodraethiant newid ymddygiad ledled y Deyrnas Unedig (Mindspace 2010).

Gan fod yr ymchwil wedi ceisio edrych ar benderfyniadau ffermwyr o ran datblygiadau polisi posibl yn y dyfodol yn ogystal ag o ran y mesurau cyfredol, mae'r astudiaeth wedi'i bwydo gan nifer o ddatblygiadau ehangach, gan gynnwys:

Cynigion i ddiwygio **CAP yr UE**, a gyhoeddwyd ar 12 Hydref 2011, i gapio Taliad Sengl Colofn 1 er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu'n well a thargedu ffermwyr 'gweithredol'; gwneud taliadau 'uniongyrchol' yn fwy gwyrdd er mwyn sicrhau bod 7% o'r tir amaethyddol yn cael ei neilltuo neu'n cael ei droi'r dir pori parhaol; lleihau biwrocratiaeth drwy drawsgydymffurfio; mwy o bwyslais ar sicrhau nwyddau cyhoeddus o arian Colofn 2; capio'r gyllideb gyffredinol, gan leihau'r cymorthdaliadau yn y tymor hirach. Mae'r cynigion diwygio hyn yn dilyn pwysau ers tro byd o du'r UE ar sicrhau buddion amgylcheddol a chyhoeddus o amaethyddiaeth, fel y gwelir, er enghraifft, yn y rheoliadau amaeth-amgylcheddol a'r rheoliadau datblygu gwledig, ar y cyd â'r pwysau parhaus o'r du'r UE i gyrraedd targedau'r cyfarwyddebau ar fioamrywiaeth ac ansawdd dwr, yn unol â Chyfarwyddeb y Fframwaith Dwr a dynodi safleoedd Natura 2000.

Pwyslais rhyngwladol cynyddol ar **werth economaidd ecosystemau** a bioamrywiaeth, fel y gwelir er enghraifft yn Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm, TEEB, ac UKNEA; gan arwain at roi blaenoriaeth i daliadau am wasanaethau ecosystem. Targedau polisi Newid Hinsawdd Rhyngwladol a'r mesurau perthynol, gan gynnwys masnachu allyriadau a chynlluniau gwrthbwyso, sy'n cynyddu'r pwysau i osod gwerth economaidd ar wasanaethau ecosystem gan gynnwys dal a storio carbon.

Pwysau ar **gyflenwadau bwyd diogel yn fyd-eang**, fel y'u crynhowyd yn yr adroddiad Foresight diweddar (2011), gyda phryder penodol ynghylch yr angen i ddiogelu systemau cynhyrchu bwyd rhag yr hinsawdd, gan sicrhau gwydnwch yn erbyn unrhyw sioc amgylcheddol yn y dyfodol. Mae diogelwch cyflenwadau yn amlwg hefyd o ran sioc i'r economi, ac o ran her tegwch masnach a lliniaru tlodi. O gysylltu'r materion byd-eang hyn â Chymru, mae cwestiynau'n codi ynghylch hyd a lled y sofraniaeth fwyd sy'n angenrheidiol a gwydnwch ecolegol dulliau cynhyrchu amaethyddol. Un peth i'w nodi'n arbennig yw'r her a roddwyd gan Grwp Amlbleidiol Senedd y Deyrnas Unedig ar Amaeth-Ecoleg (Smaje a Rowlatt 2011) sy'n pwysleisio mor bwysig yw hunanddigonolrwydd a chynhyrchu ar raddfa fach, sydd hefyd yn cyd-fynd a chanfyddiadau adroddiad IAASTD yn 2008.

# ADRAN 2: AROLWG LLENYDDIAETH

Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwydo gan amryw o ddeunyddiau academaidd a pholisïau. Mae'r adroddiadau polisi yr edrychwyd arnyn nhw yn cynnwys: 'Entry and Exit from agri-environmental schemes in Wales' gan y CCRI (2009); adroddiad 'Tir Gofal' Swyddfa Archwilio Cymru (2007); 'Behavioural typology of farmers in England' gan Defra (2008); 'Understanding and influencing positive behaviour change in farmers and rural land managers' gan y CCRI/Macauley (2007); ac Adolygiad Annibynnol Rees Roberts ynghylch Glastir.

O ran ymchwil academaidd, mae'r adroddiad yn defnyddio corff helaeth o ddeunyddiau sy'n ymdrin ag ymddygiad ffermwyr (e.e. Gasson, 1973; Davies a Hodge, 2006; Potter a Morris, 1995; Wilson, 1997; Wilson a Hart, 2000). Mae'r rhain wedi'u hadolygu'n faith mewn adroddiadau blaenorol (gweler yn enwedig CCRI/Macaulay 2007; CCRI 2009).

Yng ngoleuni'r diddordeb mewn cyflwyno gwasanaethau ecosystem, edrychwyd hefyd ar ddadansoddiadau empirig o gynlluniau Taliadau am Wasanaethau Ecosystem (PES) (e.e. Corbera et al 2007; Kosoy et al 2008; McAffee a Shapiro 2010).

Gyda'i gilydd, mae'r deunyddiau hyn yn amlygu mor bwysig yw asesu'r ddeinameg aml-raddfa sy'n effeithio ar gyfranogiad ffermwyr mewn cynlluniau cadwraeth. Mae hyn yn amrywio o gwestiynau am ymddygiad unigolion i ystyriaeth ar y cyd-destun sefydliadol a strwythurau llywodraethu.

Yn benodol, mae astudiaethau ar PES yn tanlinellu mor bwysig yw dealltwriaeth ddiwylliannol, sy'n awgrymu nad oes modd sicrhau rheolaeth cadwraeth drwy lefelau tâl digonol yn unig, a bod rhaid wrth agwedd barchus at yr amgylchedd er mwyn i gynlluniau lwyddo. Gan adeiladu ar y pwynt hwn, dadleuwyd bod taliadau nad ydyn nhw ond yn rhoi iawndal i gymunedau am 'gost cyfle' rheolaeth cadwraeth yn amhriodol, a bod angen ffordd fwy cadarnhaol o fuddsoddi arian mewn dulliau cynhyrchu cynaliadwy. Mewn geiriau eraill, y ffordd orau i lwyddo yw osgoi pwysleisio rhaniad rhwng cadwraeth a chynhyrchu.

Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi bod gwahanol strategaethau cynhyrchu ac arallgyfeirio ar gael, gan fod ffermwyr sydd â llai o allu i arallgyfeirio yn llai tebyg o ymwneud â rheolaeth cadwraeth a fydd yn peryglu eu harferion cynhyrchu hyd yn oed os oes yna daliadau iawndal digonol, a hynny am eu bod yn syml ddigon yn erbyn cymryd risg. Ond bernir bod rheoli sy'n cryfhau cyfleoedd i gynhyrchu ac sy'n gwella cyfalaf diwylliannol yn gwella cynaliadwyedd y gymuned, a'i fod felly yn fwy derbyniol. Un pwynt olaf i'w godi o waith ar PES yw'r angen i ofalu am nwyddau cymunedol a chwestiynau ynghylch cyfiawnder rhwng y cenedlaethau, gan bwysleisio eto mor bwysig yw buddion heblaw buddion ariannol.

Mae astudiaethau ar ymddygiad ffermwyr yn yr UE yn dangos bod ffermwyr, yr un fath â'r mwyafrif o bobl, yn fwy na dim ond gweithredwyr economaidd rhesymegol sy'n rhoi blaenoriaeth i enillion ariannol uwchlaw pob ffactor arall. I lawer, mae ffermio yn cael ei fynegi fel dewis ffordd o fyw yn ogystal ag fel busnes, ac mae amrediad o ffactorau cymhleth yn effeithio ar sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau busnes a phenderfyniadau rheoli ehangach. Er hynny, mae cymhellion ariannol yn cael eu

rhestru ochr yn ochr â chyfateb i gynlluniau rheoli presennol fel y prif resymau y bydd ffermwyr yn cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae hyn yn dangos bod ffyniant economaidd yn dal yn ganolog, hyd yn oed os nad dyna'r penderfynydd terfynol mewn penderfyniadau.

Yn holl-bwysig, mae hefyd yn amlwg *nad yw* agweddau cadarnhaol at yr amgylchedd yn gyfystyr â derbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol neu ymddygiad sy'n gefnogol i'r amgylchedd. O edrych ar feysydd eraill lle ceir cydberthynas bosibl rhwng ymddygiad ffermwyr, gan gynnwys maint y fferm, proffidioldeb, ac oed y ffermwr, mae'r llenyddiaeth yn gyffredinol yn awgrymu nad oes cydberthynas glir rhwng derbyniad cynlluniau amaeth-amgylcheddol a newidynnau sy'n cynnwys y math o fferm, demograffeg, cefndir addysgol, a dyfarniadau gwerth. Yn hytrach, bernir bod penderfyniadau amaeth-amgylcheddol yn gyfuniad cymhleth o newidynnau cyd-destunol, y mae'n well eu crynhoi fel cydbwysedd rhwng capasiti, parodrwydd ac ymgysylltu.

O gofio'r cymhlethdodau hyn, derbynnir bod rhannu ffermwyr yn segmentau drwy greu teipolegau ffermwyr yn ddull defnyddiol i wneuthurwyr polisi dargedu'r gwahanol gynulleidfaoedd hyn, ac ymdopi hefyd â'r amrywiaeth yn y cymhellion y tu ôl i'w hymddygiad.

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn dangos nifer o anghysondebau ynghylch blaenoriaethau economaidd ffermwyr a sut mae eu penderfyniadau busnes yn cael eu gwneud, a chymysg yw'r negeseuon ynghylch i ba raddau, a sut, y mae ffermwyr yn cael eu gweld yn gogwyddo tuag at fusnes ac elw. Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu nad yw data am agweddau ar ei ben ei hun o gymorth o ran pennu deilliannau ymddygiad. Yn hytrach, mae angen i waith ymchwil ystyried normau cymdeithasol a hunaniaeth fel ffactorau allweddol ochr yn ochr ag agweddau (Burton 2004). Yn yr un modd, mae Burton et al (2008) yn awgrymu bod cyfalaf cymdeithasol a chwestiynau ynghylch hunan-ymwybyddiaeth a hunaniaeth yn holl-bwysig er mwyn deall a yw cadwraeth yn gwrthdaro â sut mae ffermwyr yn gweld eu rôl.

Yn yr un modd, mae'n amlwg nad yw cwestiynau ynghylch ystyr 'yr amgylchedd' yn cael eu hystyried yn llawn mewn arolygon, gan arwain at anghysondebau yn y dadansoddi, a chan gymylu i ba raddau y mae ffermwyr yn ymwneud mewn gwirionedd â phryderon amgylcheddol.

Yng ngoleuni'r materion hyn, penderfynwyd y dylai'r astudiaeth bresennol ddatblygu set ddata fwy cyfoethog, y tu hwnt i ddatganiadau am agweddau, a allai roi ystyriaeth ddyfnach i gwestiynau hunan-ymwybyddiaeth a hunaniaeth yn ogystal ag edrych ar arlliwiau'r broses benderfynu. Amlinellir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

**Crynodeb: Ar sail y llenyddiaeth mae'n amlwg nad oes patrymau cydberthyn syml o ran derbyniad cynlluniau amaeth-amgylcheddol, a bod angen dealltwriaeth fanylach o brosesau penderfynu a honno'n rhoi sylw i gwestiynau hunaniaeth a dylanwadau cymdeithasol.**

# ADRAN 3: METHODOLEG

Defnyddiodd yr astudiaeth gymysgedd o ddulliau, gan ddefnyddio data meintiol o'r arolwg ffôn cynharach (WRO 2010), Arolygon Busnes Fferm IBERS (2009, 2010), ac astudiaeth y CCRI (2009) ar ymuno ac ymadael a chynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Cafodd data sylfaenol ei gasglu ar ffurf 60 o gyfweliadau manwl, lled-strwythuredig. Er na chafodd y cyfweliadau mo'u dylunio i roi data a oedd yn ystadegol arwyddocaol, (o gofio'r dull ansoddol) y nod oedd ymdrin â sampl weddol gynrychioliadol o ffermwyr ledled Cymru, gan osgoi tueddiadau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd penodol, mathau penodol o fferm, meintiau penodol ac ati. Dewiswyd yr ymatebwyr o blith rhestr o ~1000 o gysylltiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg cynharach yn 2010, gan ffurfio sampl o 50 ar sail maint y fferm, gan adlewyrchu'r cymarebau a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygon cenedlaethol ehangach. Ceir rhagor o fanylion am y sampl derfynol yn adran 4.

Hefyd, cafodd cyfweliadau eu cynnal â grwpiau astudiaeth achos lle'r oedd cynllun peilot o wasanaeth ecosystem wedi'i gynnal, i weld a oedd y ffermwyr hyn yn ymgysylltu'n fwy pendant â nodau cadwraeth.

Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys ffermwyr sy'n ymwneud â gwaith adfer prosiect gorgorsydd LIFE yn y Berwyn ac ar y Migneint yn y Gogledd www.blanketbogswales.org; a Menter Gydweithredol Cig Oen Mynyddoedd Cambria, sy'n rhan o Fenter ehangach Mynyddoedd Cambria http://www.cambrianmountains.co.uk.

Cafodd y grwpiau astudiaeth achos hyn eu dewis am mai dyna'r enghreifftiau mwyaf datblygedig o gyflwyno gwasanaethau ecosystem yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â lliniaru newid hinsawdd, lliniaru effaith llifogydd, a materion ansawdd dwr, y bernir eu bod yn flaenoriaethau i gynllun newydd Glastir a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Mae'r prosiectau wedi gwneud amrywiaeth o waith monitro gwyddonol, i asesu pa mor effeithiol yw'r dulliau rheoli sy'n anelu at gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem. Mae gwaith i gydgysylltu â ffermwyr a chymunedau wedi'i wneud hefyd yn yr ardaloedd hyn i wella lefelau'r ymgysylltu â'r gwaith cadwraeth sy'n cael ei wneud.

Heblaw'r ffermwyr, cyfwelwyd â'r canlynol hefyd:

- Un o swyddogion prosiect LIFE ac un o gadwraethwyr CCGC sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE.
- Ymgynghorwyd â chynrychiolydd o CCGC ar gyfer Menter Mynyddoedd Cambria ynglyn â dylunio'r prosiect.
- Swyddogion o NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru
- Dau o staff y Grwp Cynghori ar Ffermydd a Bywyd Gwyllt – y naill yn y Gogledd a'r llall yn y De.
- Cynrychiolydd o Ganolfan Organig Cymru.
- Cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

Bwriad y cyfweliadau oedd edrych ar *brosesau* penderfynu. Cafodd hyn ei wneud drwy ystyried pethau o sawl ongl, ailadrodd cwestiynau mewn geiriau gwahanol, ac ystyried pwysigrwydd agweddau amserol ar gyfer penderfyniadau, er enghraifft gofyn am yr hyn a oedd wedi effeithio ar benderfyniadau penodol yn y gorffennol, beth oedd eu barn am y materion hynny erbyn hyn, a beth oedd eu blaenoriaethau dros y tymor hirach. Llwyddwyd i wneud dadansoddiad hydredol drwy gymharu ymatebion unigolion yn eu cyfweliadau â'u hatebion yn y set ddata o arolwg 2010. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio'n fawr

hefyd ar drafod profiadau penodol, er mwyn osgoi atebion haniaethol neu 'ddelfrydol', lle mae'r ymatebwyr yn dweud yr hyn y maen nhw'n credu yr hoffech chithau iddyn nhw ei ddweud neu y 'dylen nhw' ei ddweud. Hefyd, cafodd pwysigrwydd hunaniaeth a normau cymdeithasol eu cynnwys wrth ddylunio'r cwestiynau, ynghyd â'r angen i ymdrin ag anghysondebau posibl rhwng disgyrsiau gwahanol 'yr amgylchedd' a 'chadwraeth'.

Roedd meysydd y cwestiynau'n cynnwys:

- Rhesymau dros gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol a'r profiad ohonyn nhw.
- A oedd unrhyw wrthdaro rhwng cadwraeth a'u rôl fel ffermwr.
- A oedden nhw wedi clywed am wasanaethau ecosystem (yn arbennig o ran Glastir).
- A fydden nhw'n fodlon gwneud mwy o waith cadwraeth pe bai'r taliadau'n briodol.
- A oedd mynegi taliadau yn nhermau 'ildio incwm' yn dylanwadu ar eu hargraff o gadwraeth.
- Hyd a lled eu gogwydd at fusnes a'u sgiliau busnes.
- Cynlluniau a phryderon at y dyfodol, gan gynnwys eu hargraff o ddiwygio'r CAP.

Ceir rhestrau o'r cyfweliadau yn Atodiad 4.

Datblygwyd y cwestiynau ar sail y meysydd ymchwil cychwynnol a amlinellwyd yn y rhagymadrodd, gan ddatblygu ymholiadau mwy penodol drwy ymgynghori â staff Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r prosiectau astudiaeth achos ac undebau'r ffermwyr.

O gofio mor wael yw'r ddealltwriaeth ynglyn â 'gwasanaethau ecosystem' fel cysyniad, dylid nodi bod peth anghysondeb yn y ffordd y cafodd yr ymatebwyr eu holi am y mater hwn. Cafodd y rhai a oedd yn amlygu gwell dealltwriaeth eu holi ymhellach, ond y cyfan a ofynnwyd i'r rhai nad oedden nhw'n dangos fawr o ymgysylltiad â'r cysyniad oedd a fydden nhw'n fodlon gwneud mwy o waith cadwraeth petaen nhw'n cael eu talu. Cafodd anawsterau mynegi 'gwasanaethau ecosystem' eu trafod yn faith gyda swyddogion o'r undebau cyn cyf-weld â'r ffermwyr. Yn y cyfweliadau, cafodd gwasanaethau ecosystem eu hesbonio fel rheol drwy gyfeirio at liniaru newid yn yr hinsawdd, dal a storio carbon, rheoli ar raddfa'r dalgylch, a chysyniad mwy holistig o gadwraeth, y tu hwnt i reoli bioamrywiaeth.

Cafodd y cyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb yn bennaf, er bod rhai wedi'u cynnal dros y ffôn. Cawsant eu recordio a'u trawsgrifio, a chafodd nodiadau eu gwneud yn ystod y cyfweliad i gofnodi unrhyw sylwadau ychwanegol. Wedyn cafodd y data hwn ei godio drwy ddefnyddio NVivo, gan osod codau a oedd yn deillio o'r data ynghyd â chodau a ddewiswyd ymlaen llaw i gyd-fynd â'r meysydd holi o dan sylw.

Cafodd nodweddion ac ymatebion allweddol yr ymatebwyr eu croes-dablu hefyd, i ganiatáu cymharu ac i ganiatáu adeiladu teipolegau ffermwyr gwahanol (atodiad 3). Cafodd crynodeb ysgrifenedig ei wneud hefyd ar gyfer pob ymateb i helpu yn y broses hon (atodiad 2).

**Crynodeb: Mae'r astudiaeth wedi defnyddio ymagwedd dulliau cymysg gan ddefnyddio data eilaidd o Arolwg Aelwydydd Fferm 2010 yr Arsyllfa ac Arolygon Busnesau Fferm IBERS, gyda data sylfaenol ar ffurf 60 o gyfweliadau manwl â ffermwyr a chadwraethwyr ledled Cymru, i edrych ar brosesau penderfynu.**

# ADRAN 4: TROSOLWG O'R SAMPL

## Nodweddion yr Ymatebwyr

**Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar y sampl y cyfwelwyd â nhw ac o nodweddion y gwahanol ymatebwyr.**

Cyfwelwyd â chyfanswm o 51 o ffermwyr at yr astudiaeth, a bu chwech o'r rhain yn cymryd rhan ym mhrosiectau'r astudiaeth achos.

Dewiswyd yr ymatebwyr o blith cysylltiadau a wnaed drwy arolwg cynharach gan yr Arsyllfa (2010), gan lunio sampl o 50 yn ôl eu Huned Maint Ewropeaidd[1] a'r cymarebau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg blaenorol i greu 'sampl gynrychioliadol'. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod nad darparu data meintiol sy'n arwyddocaol yn ystadegol oedd diben yr astudiaeth, ond cynnig golwg ansoddol fanylach ar brosesau penderfynu. Yn y pen draw, roedd yr ymatebwyr a gafodd eu dewis yn dibynnu ar pwy oedd ar gael i roi cyfweliad, ac felly mae'r sampl derfynol ychydig yn wahanol i'r un wreiddiol a ddyluniwyd (gweler ffigur 1 isod).

| ESU | Sampl wreiddiol | Sampl derfynol |
|---|---|---|
| Bach iawn | 16 | 9 |
| Bach | 18 | 15 |
| Canolig | 10 | 11 |
| Mawr (a mawr iawn) | 7 | 10 |

Ffigur 1: Tabl i ddangos nifer a maint y ffermydd yn y sampl a ddewiswyd (sylwch nad oedd maint y ffermydd yn yr astudiaeth achos yn hysbys).

Mae'n werth nodi bod y sampl derfynol yn cynnwys cyfran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ffermydd mawr (rhai llaeth yn bennaf), gan fod y tîm ymchwil wedi penderfynu y byddai'n fuddiol siarad â mwy o gynrychiolwyr o'r grwp hwn, gan eu bod yn gynulleidfa darged benodol ar gyfer y cynllun Glastir newydd. Hefyd, i raddau helaeth doedd ffermydd bach iawn yr oedd yr ymatebwyr yn eu disgrifio fel tyddynnod ddim yn cymryd rhan mewn cynlluniau, ac felly chawson nhw ddim cyfweliad manwl.

Dewiswyd yr ymatebwyr i gynrychioli ardal ddaearyddol eang ledled y wlad, er bod cyfran uwch wedi cael cyfweliad yn y Canolbarth, o gofio'r angen i deithio a oedd yn gysylltiedig â chynnal y cyfweliadau.

Cafodd y cyfweliadau eu cynnal fesul teulu fferm unigol yn hytrach nag ymysg grwpiau o ffermwyr, i roi cyfle ar gyfer ymatebion mwy personol na phe bai grwpiau ffocws wedi'u defnyddio. Cyfwelwyd â ffermwyr unigol a theuluoedd, yn ôl dewis personol yr ymatebwyr. Bernid bod hyn yn rhoi golwg fuddiol ar sut roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud fel teulu, neu fel partneriaeth rhwng gwr a gwraig, a nodwyd deinameg y sefyllfaoedd hyn ochr yn ochr ag adysgrif y cyfweliad. Cafodd lluosogrwydd y penderfynwyr ei nodi fel pwynt arwyddocaol o gofio bod arolwg yr Arsyllfa yn 2010 yn canolbwyntio ar ymateb *un* prif benderfynwr, heb nodi'r ddeinameg hon felly. Hefyd, cofnododd arolwg 2010 gymysgedd o 26% o ymatebwyr benyw a 74% o rai gwryw, ond yn yr astudiaeth hon roedd bron 50% o'r cyfweliadau yn

[1] Mae Unedau Maint Ewropeaidd yn fesuriad o faint economaidd busnes fferm ar sail maintioli gros yr elw sy'n cael ei fewnbynnu ar sail cyfernodau safonol ar gyfer pob cynwydd ar y fferm. Mae un ESU yn cyfateb yn fras i 1.3 hectar o rawnfwydydd, neu un fuwch laeth, neu 25 o famogiaid.

gyfweliadau â phartneriaethau gwr a gwraig.

Yn ogystal â lluosogrwydd y penderfynwyr, nodwyd hefyd fod cwestiwn yr olyniaeth yn dylanwadu'n fawr ar benderfyniadau'r ymatebwyr, gyda chwarter o leiaf o'r ymatebwyr yn enwi olynydd ac yn ystyried anghenion yr olynydd yn y dyfodol yn rhan bendant o'r broses benderfynu. Roedd gan eraill blant yr oedden nhw'n gobeithio'u gweld yn cymryd y fferm drosodd, ond eu bod yn rhy ifanc i'w hystyried yn llawn eto. Er hynny, nodwyd hefyd fod ychydig yn fwy na 10% o'r ffermwyr yn y sefyllfa arall, sef wedi cyrraedd oedran ymddeol heb neb i ymgymryd â'r fferm. O ran cymhariaeth, mae arolwg 2010 yr Arsyllfa yn dangos bod gan 60% o'r ffermwyr olynydd tebygol a bod gan 47% gynlluniau ar gyfer yr olyniaeth, sydd eto yn ategu ystyriaethau'r olyniaeth fel ffactor allweddol ym mhenderfyniadau'r ffermwyr.

Chafodd oed yr ymatebwyr mo'i gofnodi ond mae arolwg 2010 yr Arsyllfa yn dangos bod y mwyafrif o'r ffermwyr (71%) rhwng 40 a 65 oed.

Ffermydd cig eidion a defaid oedd y mwyafrif, a dim ond tair fferm gymysg oedd yn tyfu grawnfwydydd ac yn cadw amrywiaeth o anifeiliaid; er y dylid nodi bod nifer o ffermydd Tir Gofal yn tyfu grawnfwydydd a chnydau porthiant, ond nad oedden nhw'n eu disgrifio'u hunain fel ffermydd cymysg ar y dechrau. Roedd un fferm yn cadw ieir yn fasnachol (roedd gan nifer o'r ffermydd ieir i'w bwyta'n bersonol). Chafodd yr un arbenigydd garddwriaeth ei gyf-weld. Disgrifiodd chwech o'r ymatebwyr eu hunain fel tyddynwyr. Cyfwelwyd ag wyth o ffermwyr llaeth.

Rodd gan y mwyafrif o'r ffermydd gyfran arwyddocaol o dir â statws 'Ardal Lai Ffafriol'. Nid dim ond ffermydd y bryniau oedd y rhain, ond hefyd rhai ar yr arfordir neu rai â chyfyngiadau ffisegol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r ffermydd llaeth y tu allan i'r ALFf. Roedd y ffactorau capasiti hyn yn ddylanwad pwysig ar allu'r ymatebwyr i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol, a'u gwahanol strategaethau busnes.

Roedd y mwyafrif o'r ffermydd yn berchnogion eu tir eu hunain, ond yn rhentu porfeydd ychwanegol hefyd. Tenantiaid oedd rhyw 10% o'r ymatebwyr; bernid bod hyn yn ddylanwad o bwys ar eu penderfyniadau ac ar eu gallu i arallgyfeirio.

Roedd y mwyafrif o'r ffermwyr yn gweithio'n amser-llawn ar y fferm ac roedd rhyw un ym mhob tri o'r ymatebwyr yn gweithio oddi ar y fferm hefyd, i wella lefel eu hincwm.

Chafodd lefelau derbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol mo'u cynnwys yn ffactor wrth ddewis y sampl; mae lefelau derbyn yn cael eu trafod yn adran 5.

## Teipolegau ffermwyr

**Mae'r adran hon yn myfyrio ar y teipolegau a oedd i'w gweld yn y sampl ac yn ystyried pa mor ddefnyddiol yw'r categorïau hyn.**

Er na chafodd methodoleg ymchwil yr astudiaeth hon ei dylunio i hwyluso dadansoddiad drwy segmentu, sydd fel rheol yn defnyddio dadansoddiad ystadegol o ddata meintiol, fe wnaeth y darlun manwl o bob ymatebydd a gafwyd drwy broses y cyfweliadau ganiatáu adolygiad bras o deipolegau.

Mae teipolegau a segmentu cynulleidfaoedd wedi dod yn dechnegau pwysig wrth ddadansoddi polisïau yn y blynyddoedd diwethaf, gan ddefnyddio technegau o fyd ymchwil farchnad. Mae dadansoddi'r ymateb i gynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi canolbwyntio'n benodol ar yr angen i rannu ffermwyr yn gategorïau gwahanol er mwyn targedu negeseuon polisi yn fwy effeithiol i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau.

Er hynny, dadleuir bod angen i gategorïau sydd wedi'u defnyddio o'r blaen ac sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau ymgysylltu â'r disgwrs amaeth-amgylcheddol (Potter a Morris 1995) gael eu haddasu, o gofio cyd-destun newidiol y rheoliadau amaeth-amgylcheddol yn ad-drefniad ehangach y CAP a'r cronfeydd Datblygu Gwledig. Yn benodol, mae'r dystiolaeth a gynigir yn yr astudiaeth hon yn dangos lefel uchel o ymwybyddiaeth ac ystyriaeth i gynlluniau amaeth-amgylcheddol, a honno'n cyfateb i lefelau cynyddol o berygl i fusnesau a'r angen i ymaddasu.

Gan hynny, mae derbyn cynlluniau a mabwysiadu dulliau ffermio sy'n gydnaws â'r amgylchedd yn cael ei weld yn fwyfwy fel strategaeth fusnes ar draws ystod o fathau a meintiau o ffermydd, ac yn sicr nid yw wedi'i gyfyngu i gymhellion ideolegol. Yn benodol, nodwyd bod y mwyafrif o'r ffermwyr mwyaf blaenweithgar a blaengar yn awyddus i ystyried materion amgylcheddol er mwyn gwella'u busnesau, drwy leihau mewnbynnau, gwella ansawdd a / neu apelio at farchnadoedd arbenigol. O gofio'r tueddiadau hyn, dadleuir nad yw segmentiad sy'n gosod 'amgylcheddwyr' ar wahân yn adlewyrchu natur flaengar a mentrus y ffermwyr hyn.


Pwynt arall sy'n wahanol i'r teipolegau sydd wedi'u defnyddio o'r blaen yw bod daearyddiaeth Cymru yn gwbl wahanol i un Lloegr (lle mae llawer o astudiaethau blaenorol wedi'u cynnal), felly mae ffermio yng Nghymru yn bur wahanol i'r busnesau amaethyddol dwys ar raddfa fawr sy'n amlwg yn Lloegr. Gan hynny, mae'r mathau o ffermwyr sy'n deillio o fannau y tu allan i Gymru yn debyg o gyferbynnu â phrofiadau a blaenoriaethau'r ymatebwyr yma.

Ymhellach, roedd yn amlwg nad oedd categorïau cyferbyniol fel cynhyrchydd amaethyddol, person busnes amaethyddol, arallgyfeiriwr, a dilynwr ffordd o fyw / hobi, yn adlewyrchiad cywir o'r cyd-berthnasoedd ym mlaenoriaethau'r ymatebwyr. Mae'r cymhlethdod hwn wedi cael sylw mewn dadansoddiadau blaenorol gan Burton a Wilson (2006) sy'n dadlau ei bod yn fwy effeithiol ystyried nifer o hunaniaethau, a'r rheiny wedi'u pentyrru mewn trefn wahanol ar adegau gwahanol yn hytrach nag ystyried 'teipolegau' gosod. Yn benodol, meddent, gall ffermwyr gael eu gweld fel cyfuniad o: gynhyrchydd amaethyddol / person busnes amaethyddol/ cadwraethwr / arallgyfeiriwr; a bod yr hunaniaethau hyn yn cael eu cynnal yr un pryd, gan ddefnyddio'r hunaniaeth fwyaf addas pan fydd y sefyllfa iawn yn codi.

Cafodd yr haenau hyn o hunaniaeth eu gweld yn yr un modd yn yr astudiaeth hon; gwelir mosaig o'r blaenoriaethau a'r cysylltiadau a welwyd yn ffigur 2.

Cafodd y ddeinamiaeth ym mhenderfyniadau'r ffermwyr ei nodi hefyd gan y CCRI (2009), gan bwysleisio mor bwysig yw deall hunaniaethau, a'r normau ymddygiad sy'n gysylltiedig â nhw, fel rhywbeth sydd bob amser yn newid ac yn cael eu hail-wneud. Gan ymhelaethu ar y pwynt hwn, mae Burton (2004) yn defnyddio llenyddiaeth seicoleg gymdeithasol (e.e. Ajzen a Fishbein 1980)


i danlinellu mor bwysig yw dylanwadau cymdeithasol ac amrywiadau yn y cyd-destun. Mae'n defnyddio hyn i esbonio pam y ceir tystiolaeth o flaenoriaethau penodol mewn rhai penderfyniadau ac nid eraill. Ystyrir y dylanwadau cymdeithasol hyn yn adran 7.




Ffigur 2: Mosaig o flaenoriaethau a chysylltiadau'r ymatebwyr.

Er gwaethaf anawsterau amlwg ffurfio teipolegau clir, dadleuir bod modd gwneud rhaniad buddiol rhwng y lefelau *hyblygrwydd* a welir mewn busnesau fferm. Gwelir bod y math hwn o raniad yn arbennig o gymwys o gofio'r dadleuon a nodwyd uchod, sef bod y mwyafrif o ffermwyr yn ymwneud erbyn hyn, *i ryw raddau o leiaf,* â'r angen i arallgyfeirio ac addasu eu busnesau. O ganlyniad, bernir erbyn hyn fod gwahaniaethu rhwng eu lefelau hyblygrwydd yn fwy priodol na cheisio'u dosbarthu fel amgylcheddwr / arallgyfeiriwr / person busnes amaethyddol.

Drwy fyfyrio ar benderfyniadau busnes yr ymatebwyr, derbyniad cynlluniau amaeth-amgylcheddol, lefelau arallgyfeirio, buddsoddiadau arwyddocaol a wnaed, ac addasiadau mewn arferion ffermio, mae pedwar cyfnod o hyblygrwydd i'w gweld: anfodlon / cyfyngedig; hyblyg; blaengar; blaenweithgar iawn / mentrus. Gwelir hyn yn ffigur 3 isod.




Ffigur 3: Cyfnodau gwahanol hyblygrwydd ac ymgysylltiad y busnes.

Yma, er bod y grwp lleiaf hyblyg yn cynnwys lawer o ffermwyr sydd o dan gyfyngiad capasiti, mae'n bwysig nodi nad oes perthynas glir fel arall rhwng capasiti a pharodrwydd i newid. Yn hytrach, mae'n ymddangos mai meddylfryd y ffermwyr a'u lefelau ymgysylltu yw'r penderfynydd mwyaf. Er enghraifft, mae llawer o ffermwyr mynydd yn y sampl sydd wedi bod yn flaenweithgar iawn yn eu strategaethau busnes. Yn yr un modd, mae astudiaethau eraill wedi dangos y gall busnesau llwyddiannus gael eu datblygu ar ddaliadau bach ac ymylol iawn os oes digon o gapasiti a pharodrwydd ymhlith y bobl dan sylw (ELC 2011).

Mae grwpio'r sampl fel hyn yn dangos rhaniad cyfartal o ymatebwyr ym mhob categori. Er hynny, gan fod yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n fwriadol ar ddwy astudiaeth achos arloesol fel rhan o'r sampl gyffredinol, dylid nodi bod yna gyfran uchel o ffermwyr 'blaenweithgar / mentrus' yn y grwpiau hyn, sydd wedi effeithio ar y cyfansymiau.

Ceir manylion pob ymatebydd yn atodiad 2.

**Cyfyngedig / anfodlon:** roedd y ffermwyr hyn heb newid eu busnesau yn y tymor hir, a heb ddangos fawr o awydd i geisio addasu eu busnesau. Yn aml roedd y ffermydd cyfyngedig wedi'u llyffetheirio gan y capasiti (sef amodau amgylcheddol a lleoliad anghysbell fel arfer, ond gan ffactorau capasiti dynol hefyd). Doedd eraill a oedd wedi rhoi eu bryd ar gynyddu'r cynhyrchiant mor uchel â phosibl ddim yn awyddus i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol na strategaethau arallgyfeirio eraill. Cafodd rhai tyddynwyr a ffermydd bach iawn eu cynnwys yn y grwp hwn hefyd yn sgil cyfyngiadau oherwydd maint y daliad a chyfyngiadau ar eu capasiti o ran llafur.

Er gwaethaf y diffyg newid ehangach a welwyd, roedd aelodau'r grwp hwn yn fodlon ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol i gael cymorth petai hynny'n cyd-fynd â'u harddull reoli bresennol. Roedd rhai yn ystyried Glastir fel cyfrwng i ddisodli taliadau Tir Mynydd, sy'n awgrymu y byddan nhw'n newid pan fydd rhaid gwneud oherwydd cyllid, ond eu bod yn anfodlon fel arall. Un gwyn gyffredin yn y grwp hwn oedd na allen nhw sbario rhagor o dir at gadwraeth, gan fod eu daliadau yn aml yn fach iawn neu wedi'u cyfyngu eisoes o ran yr amgylchedd. Roedden nhw'n aml yn ynysig iawn, gan ddibynnu ar aelodau'r teulu a chymdogion agos i gael cymorth a chyngor ar benderfyniadau.

**Hyblyg:** roedd y grwp hwn hefyd yn anfodlon newid eu strategaethau busnes, ond wedi dechrau cymryd camau bach. At ei gilydd, roedd yn well gan ffermwyr y grwp hwn addasu eu busnesau mewn ffordd nad oedd yn wahanol iawn i arferion ffermio traddodiadol, er enghraifft drwy wella'u hwsmonaeth anifeiliaid neu eu dulliau bridio, yn hytrach na datblygu cadwynau cyflenwi newydd neu arallgyfeirio'u busnesau.

I rai, roedd eu hyblygrwydd yn dibynnu'n syml ar y ffaith nad oedden nhw'n cael eu cyfyngu fel hyn gaun gapasiti, a / neu eu bod yn rhedeg mentrau eithaf proffidiol a oedd yn golygu e bod wedi llwyddo i fuddsoddi rhagor. Y gwahaniaeth rhyngddyn nhw a'r grwp blaenorol oedd eu

bod wedi gwneud rhai mân newidiadau; wedi ystyried syniadau newydd; neu yn dal ag opsiynau'n agored.

**Blaengar:** roedd gan y ffermwyr hyn gryn dipyn yn fwy o ogwydd tuag at fusnes ac yn aml roedden nhw wedi gwneud nifer o newidiadau yn eu busnesau neu eu harddull ffermio. Er hynny, ac er gwaethaf eu ffocws ehangach ar fusnes, mae'n bwysig pwysleisio nad elw yn unig oedd yn cymell y mwyafrif, ond awydd i fod yn ffermwyr gwell, gyda mwy o lwyddiant ariannol yn rhan o hynny – ond *nid* eu prif nod. Roedd ganddyn nhw ymroddiad i ffordd o fyw y ffemwr ac yn aml ymrwymiadau teuluol i ddyfodol amaethyddol, gyda phlant yn rhan o'r busnes.

Roedd llawer yn cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ac yn fodlon ymuno â Glastir petai hynny'n ategu proffidioldeb cyffredinol y fferm, heb gyfaddawdu'n rhy ddifrifol ar eu nodau cynhyrchu. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd ymrwymiadau amgylcheddol yn amlwg ac roedd llawer o'r ymatebwyr wedi ymrwymo'n bendant i system anarddwys fel model amaethyddol mwy cynaliadwy (yn ecolegol ac yn economaidd).

**Blaenweithgar / Mentrus:** roedd y grwp hwn yn debyg iawn i'r ffermwyr blaengar, ond eu bod yn syml ddigon wedi datblygu mwy o strategaethau arallgyfeirio a / neu fwy o farchnadoedd arbenigol. Yn y grwp hwn, roedd y ffermwyr yn nodedig am eu bod o blaid syniadau arbennig o newydd, yn gosod pwyslais cryf ar rwydweithio, hyfforddi, neu wneud llawer o fuddsoddiadau i wella'u busnesau. Fel yn achos y grwp blaengar, roedd yma ymwybyddiaeth glir iawn o faterion amgylcheddol a sut roedd y rheiny'n rhan annatod o gynaliadwyedd busnes y fferm. O ran y rhai nad oedden nhw'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol, awgrymodd sawl un y bydden nhw'n fodlon gwneud gwaith amgylcheddol ar eu telerau eu hunain, gyda llai o gyfyngiadau (sef pwynt yr ymhelaethir arno yn adran 5).

Un nodwedd olaf i'w thanlinellu yw presenoldeb nifer cyfyngedig yn unig o ffermwyr (3) a oedd yn seilio'u penderfyniadau'n bennaf ar yr elw posibl heb ymrwymiad i barhau ffordd amaethyddol o fyw / cynhyrchu bwyd. Roedd y math hwn o ffermwr yn fodlon rhentu ei dir ac yn gweld cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel ffordd i ennill arian a lleihau cyfrifoldebau ffermio.

Yn gyffredinol, ni ddylai'r categorïau hyn gael eu cymryd fel petaen nhw'n sefydlog na hyd yn oed fel grwpiadau pendant, o gofio natur ddeinamig y prosesau ymgysylltu a'r pwysau parhaus ar ffermwyr i wella gwydnwch eu busnesau. Serch hynny, mae'r syniad o wahaniaethu rhwng lefelau addasu a lefelau hyblygrwydd yn y strategaeth fusnes yn cael ei gynnig fel model i arwain ymyriadau a mentrau polisi yn y dyfodol.

**Crynodeb: Er gwaethaf y pryderon a amlinellwyd ynghylch cywirdeb defnyddio teipolegau haearnaidd, a disgrifiadau traddodiadol o hunaniaeth ffermwyr, cydnabyddir bod segmentu yn dal yn ymarfer defnyddiol er mwyn caniatáu i negeseuon gael eu targedu. Yn benodol, mae gwahaniaethu rhwng lefelau addasu a lefelau hyblygrwydd busnesau yn cael eu trafod yma fel canolbwynt allweddol o gofio bod angen hybu mwy o wydnwch i wynebu heriau'r dyfodol.**

# ADRAN 5: PENDERFYNIADAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL

## Derbyniad Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol

**Mae'r adran hon yn manylu ar y tueddiadau sydd i'w gweld yn yr ymateb i gynlluniau amaeth-amgylcheddol ac yn amlinellu'r prif ffactorau ym mhenderfyniadau'r ymatebwyr ar ymuno â chynlluniau.**

Roedd dros hanner yr ymatebwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, sef cymysgedd cyfartal o aelodau Tir Gofal, Tir Cynnal a'r Cynllun Organig. (Nid yw Tir Mynydd yn cyfrif fel cynllun amaeth-amgylcheddol yn yr adroddiad hwn). Mae hyn yn debyg i lefelau aelodaeth y cynlluniau yn arolwg yr Arsyllfa yn 2010: lle ceid 33% Tir Gofal; 35% Tir Cynnal a 10% Organig; er bod lefelau aelodaeth y cynllun Organig yn uwch (sef bron 20%) yn yr astudiaeth hon.

Ffermwyr llaeth oedd debycaf o beidio â bod mewn cynllun, a dim ond dau o'r wyth y cyfwelwyd â nhw oedd mewn cynllun ar hyn o bryd (y ddau yn Tir Gofal, un yn y Cynllun Organig). Y rheswm am hyn, fel y nododd astudiaethau eraill, oedd mai nhw sy'n cael eu cyfyngu fwyaf gan gapasiti eu tir. Mewn geiriau eraill, mae llai o gynefin ar gael iddyn nhw i'w gwneud yn ymarferol at y cynlluniau. Yn yr un modd, mae ffermydd llaeth yn fwy dwys fel rheol na mathau eraill o fferm, sy'n golygu nad yw'r cyfraddau stocio is a'r mewnbynnau is sy'n angenrheidiol yn y cynlluniau mor ddeniadol nac mor ymarferol iddyn nhw.

Yn hyn o beth mae'n bwysig nodi na fydd y mwyafrif of ffermwyr yn newid eu harferion ffermio a'u strategaethau rheoli i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol (WAO 2007; Wilson 1997). Gan hynny, bernir bod cael system sydd eisoes yn cyd-fynd â'r manylebau amaeth-amgylcheddol yn hanfodol er mwyn derbyn cynllun, a dyna pam mae nifer yr aelodau arddwys a'r aelodau llaeth yn isel. Mae'r materion capasiti hyn wedi'u nodi hefyd gan astudiaeth y CCRI yn 2009 o gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru.

Nid yw arolwg yr Arsyllfa yn 2010 yn dangos patrymau clir rhwng y math o fferm ac aelodaeth gyfredol o gynllun amaeth-amgylcheddol. Mewn mannau eraill, mae maint fferm mawr ac incwm uwch wedi'u cysylltu â derbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol (Wilson a Hart 2000); tra nododd Potter a Lobley (1992) rywfaint o gydberthynas ag oedran. Er hynny, mae'r mwyafrif o'r astudiaethau'n dadlau nad oes patrymau clir rhwng newidynnau fferm / ffermwr ac aelodaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Yn fwyaf diweddar, ar ôl cynnal adolygiad eang o'r llenyddiaeth, mae'r CCRI wedi dadlau:

> *Farmers' willingness and ability to enter (agri-environmental schemes) is not reducible to their farm or personal characteristics, nor to their attitudes or values towards the environment or towards policy makers; and neither is their participation a simple function of economic factors...* (CCRI 2009, crynodeb gweithredol, pwynt 4).

Gan hynny, maen nhw wedi datblygu fframwaith o gapasiti, parodrwydd ac ymgysylltu:

PARODRWYDD

Nodau, gwerthoedd, athroniaethau, agweddau a chymhellion ffermwyr – wedi'u seilio ar hunaniaeth a diwylliant y ffermwr.

CAPASITI

Adnoddau'r fferm, busnes y fferm, systemau ffermio, y teulu, cylch bywyd y fferm (oedran y ffermwyr) sgiliau a gwybodaeth (addysg) y ffermwr – a sut mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu neu'n galluogi cyfleoedd

YMGYSYLLTU

Natur cydadwaith y ffermwyr â: ffermwyr eraill, swyddogion prosiect, polisïau (gwneuthurwyr, cyflawnwyr, nodau), y cyhoedd.

Er hynny, mae hefyd yn bwysig nodi bod Wilson a Hart (2000), a Burton a Wilson (2006) wedi cloriannu data o ledled Ewrop, gan gasglu mai cymhellion ariannol yw'r ffactor pwysicaf o ran derbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ochr yn ochr â'r argraff bod hynny'n cyd-fynd â strategaethau rheoli presennol y fferm.

O gloriannu'r ymatebion i'r astudiaeth hon, mae'n glir bod gan yr ymatebwyr resymau tebyg, gyda'r mwyafrif yn dweud eu bod wedi ymuno â chynlluniau am yr arian, ond hefyd am fod hynny'n eu galluogi'n ariannol i wneud pethau yr oedden nhw am eu gwneud ar y fferm, megis codi waliau neu ffensys ac adnewyddu adeiladau. Cafodd nodau cynllun Tir Gofal o hwyluso'r math hwn o adnewyddu a 'chymhennu' ar y fferm eu cymeradwyo a'u cyferbynnu â Glastir lle nad oes arian ar gael at y math hwn o waith. Yn yr un modd, cafodd effaith leol gadarnhaol Tir Gofal, drwy drosglwyddo cyfalaf i gontractwyr lleol, ei nodi ar sawl achlysur ac mae wedi'i thrafod mewn astudiaethau eraill (WAO 2007). At ei gilydd, doedd y rheolaeth a gafwyd o dan gynlluniau blaenorol ddim yn ymddangos fel petai'n gwrthdaro'n ormodol â rhedeg y fferm, er bod rhai pryderon wedi'u mynegi ynghylch lefelau stocio, a drafodir ymhellach mewn is-adrannau eraill.

Un agwedd arbennig o fuddiol ar y cynlluniau oedd cynnwys swyddogion prosiect, lle'r oedd swyddogion prosiect wedi esbonio gofynion y cynllun ac yn agored i negodi er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cyd-fynd yn well â'r anghenion lleol. Nodwyd bod hyn yn wahaniaeth allweddol yn y cynllun Glastir. Ond nodwyd hefyd fod y gostyngiad yng nghymorth y swyddogion prosiect tuag at ddiwedd y cynlluniau yn broblem.

O ystyried aelodaeth o gynlluniau o'i chymharu â 'mathau o ffermwyr', cyfran fach iawn yn unig a allai gael eu disgrifio fel petaen nhw'n ymuno â chynlluniau *yn bennaf* am eu bod yn credu mewn hybu dulliau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd (dau ffermwr). Ond roedd yr holl ymatebwyr a oedd mewn cynlluniau yn cydnabod bod yr arferion anarddwys yn rhywbeth yr oedden nhw'n eu gwneud beth bynnag. Gan hynny, roedd yna awgrym bod gan lawer o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn cadwraeth, ond na fydden nhw'n eu galw eu hunain yn 'amgylcheddwyr. Yn hytrach roedden nhw'n gweld y dulliau hyn fel arferion *amaethyddol* cynaliadwy. Felly, dyma rywbeth yr oedden nhw'n ei wneud i greu gwell cynnyrch ac i reoli eu tir yn fwy effeithiol, yn hytrach nag am eu bod yn credu mewn diogelu'r amgylchedd ynddo'i hun. Dyma bwynt a fydd yn cael ei ddatblygu drwy'r adroddiad i gyd.

**Crynodeb: mae'r canlyniadau sy'n cael eu cyflwyno yma yn ategu canlyniadau adroddiadau blaenorol ar dderbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru, ac yn amlinellu cymhellion ariannol a'r gyfatebiaeth â'r cynlluniau rheoli presennol fel y prif benderfynyddion ynghylch derbyn y cynlluniau. Mae'n amlwg iawn hefyd fod rhai wedi cael profiad cadarnhaol iawn o'r amrywiol gynlluniau, ond mae yna bwyslais pwysig ar yr angen am ddulliau cynhyrchu cynaliadwy, yn hytrach na neilltuo tir at gadwraeth a dim byd arall.**

## Derbyn y cynllun Glastir

**Mae'r adran hon yn manylu ar y tueddiadau sydd i'w gweld yn yr ymateb i'r cynllun Glastir ac yn amlinellu'r prif ffactorau ym mhenderfyniadau'r ymatebwyr ar ymuno â'r cynllun**

### Tueddiadau yn yr Ymateb

Yn arolwg yr Arsyllfa WRO yn 2010 roedd 84% o'r ymatebwyr wedi clywed am Glastir, ac o'r rhain dywedodd 42% eu bod naill ai'n debyg neu'n debyg iawn o ymuno â Glastir. Dim ond 14% a ddywedodd eu bod yn annhebyg o ymuno, a dywedodd 37% fod arnyn nhw angen rhagor o wybodaeth er mwyn penderfynu.

Ar sail cyfweliadau 2011 roedd yn amlwg bod ychydig yn llai na thraean o'r ymatebwyr (15 o ffermwyr) wrthi'n ymuno â Glastir, a bod wyth arall naill ai'n ystyried gwneud neu ar ganol cyfnod ymestyn cynllun Tir Gofal.

Un pwynt allweddol i'w nodi yma yw'r lefelau uchel o ymgysylltu â'r cynllun, o ran lefelau ymwybyddiaeth o fodolaeth y cynllun, ac o ran nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn agored i'r posibilrwydd o ymuno ag ef. Er hynny, mae'r term 'ymgysylltu' yn cael ei ddefnyddio â gofal yma gan y cydnabyddir bod nifer o broblemau o ran i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn deall y cynllun. Trafodir hyn ymhellach ar ddiwedd yr adran hon.

Yn benodol, mae'n werth nodi mai dim ond chwe ymatebydd oedd heb edrych i mewn i'r cynllun Glastir: un oedd yn ymddeol, un ffermwr llaeth arddwys, a phedwar tyddynnwr oedd yn teimlo nad oedd y cynlluniau'n addas at eu math nhw o fenter. Ond roedd pob un wedi clywed am Glastir. Ymhellach, er nad oedd y ffermwr llaeth arddwys wedi edrych ar Glastir, roedd wedi gwneud gwaith cadwraeth ar y fferm â grant bach gan y cyngor.

Gan hynny, mae'n amlwg nad oedd peidio ag ymuno yn deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun, neu ddiffyg ymgysylltu â chysyniad cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ehangach. Dangosodd chwarter o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn fodlon ymuno â Glastir pe bai'r cynllun wedi bod yn addas. Dyma wahaniaeth pwysig ers y cynlluniau blaenorol lle tanlinellwyd diffyg ymgysylltu fel ffactor allweddol (Potter a Morris 1995). Dadleuir hefyd fod ymgysylltu â chynlluniau yn cael ei weld bellach fel rhan o gyfres ehangach o strategaethau arallgyfeirio, i wneud busnesau fferm yn fwy hyblyg a gwydn. Felly nid yw ymgysylltu â chynlluniau wedi'i gyfyngu i'r ffermwyr mwyaf ymwybodol o'r amgylchedd. Yn hytrach mae'n ymddangos bod ffermio cydnaws â'r amgylchedd yn cael ei fabwysiadu bellach fel strategaeth fusnes.

Er hynny, ac er gwaethaf y dystiolaeth ehangach ynghylch ymgysylltu, roedd yn glir bod nifer o rwystrau yn atal cynlluniau rhag cael eu derbyn. Yn benodol, drwy gymharu sut roedd yr ymatebwyr yn ymwneud â chynlluniau o'r blaen, eu hymatebion ar y tebygrwydd o ymuno â Glastir yn arolwg 2010, a'r cyfweliadau yn 2011, cafwyd darlun o sut mae'r penderfyniadau wedi newid dros amser (gweler atodiad 1). Ar sail y cymariaethau hyn roedd yn amlwg bod nifer o ymatebwyr yn fodlon ymuno â Glastir fel parhad o'r cynlluniau blaenorol, neu'n fodlon ei ystyried, ond wedi newid eu meddwl wedyn ar ôl dysgu mwy am y cynllun a phenderfynu nad oedd yn ateb eu gofynion.

Roedd saith o'r ffermwyr a ddywedodd na fydden nhw'n ymuno â Glastir yn aelodau o gynlluniau blaenorol. Dywedodd y rhain fod taliadau gwael a'r lefelau uchel o gyfyngiadau yn golygu nad oedd Glastir yn gwneud synnwyr busnes iddyn nhw (gweler y dyfyniadau isod).

Roedd yn amlwg bod un o'r ymatebwyr hyn yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd, gan ddangos ymgysylltu clir â materion amgylcheddol a chonsýrn drostyn nhw (WRO 12). Dywedodd ffermwr arall oedd yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd nad oedd yn siwr a fyddai'n ymuno, ond ei fod

yn rhan o estyniad Tir Gofal ar y pryd (WRO 45).

Pwysleisiodd tri o ffermwyr a oedd yn rhan o gynllun Tir Gofal o'r blaen fod yr aran oedd ar gael ar lefel 'Cymru Gyfan' yn rhy isel ac nad oedden nhw'n ymuno ond er mwyn ceisio sicrhau'r Elfen wedi'i Thargedu, gan awgrymu bod hynny'n strategaeth gyffredin ymhlith eu cyfeillion.

Er hynny, ac er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, roedd tri o ffermwyr a oedd yn ymuno â Glastir heb fod yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, a hynny am eu bod yn colli eu taliadau Tir Mynydd ac yn wynebu ansicrwydd ariannol gyda dyfodol y Taliad Sengl.

> *…mae'r arian i gyd yn mynd, fydd yna ddim arian Tir Mynydd bellach, na fydd. Felly roedden ni'n meddwl y caen ni rywbeth yn lle hwnnw. (LIFE 2)*
>
> *Mae'n peri pryder ar hyn o bryd, ond ydy (Diwygio'r CAP)? …dyna sydd wedi'n gwthio ni tuag at Glastir ychydig bach. O leiaf mae rhywbeth gennych chi wedyn on'd oes, achos dydyn ni ddim yn gwybod beth sydd am ddigwydd, does neb yn gwybod. (WRO 179)*

Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr a oedd heb fod mewn cynlluniau blaenorol hefyd yn dweud eu bod wedi ystyried Glastir am y rhesymau hyn, ond naill ai wedi dewis peidio ag ymuno am fod y taliadau'n rhy isel a'r cyfyngiadau'n rhy uchel, neu am eu bod wedi methu cael digon o bwyntiau. Mae hyn yn dangos nad yw diffyg derbyniad i'r cynllun yn deillio o ddiffyg ymgysylltu, a bod cyfran uchel o ffermwyr bellach yn fodlon ystyried cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel rhan o'u strategaeth fusnes gyffredinol.

Ffermydd anarddwys ar y bryniau a chanddyn nhw gynefin eisoes oedd dau o'r ymatebwyr a oedd yn ymuno â Glastir heb gymryd rhan mewn cynlluniau blaenorol, ac roedd hyn yn golygu ei bod yn hawdd iddyn nhw ymuno â Glastir. Roedden nhw heb ymuno yn y gorffennol am nad oedd y pwysau ariannol yn bodoli, ond hefyd am fod ganddyn nhw dir arall mewn cynlluniau SoDdGA ac nad oedden nhw wedi'u hargyhoeddi am fanteision a synwyrusrwydd manylebau amaeth-amgylcheddol, sef pwynt yr ymhelaethir arno isod. Roedd y fferm arall oedd am ymuno â Glastir yn fferm laeth a oedd wedi ceisio ymuno â chynlluniau o'r blaen, ac a oedd yn ymwybodol iawn o gadwraeth yn ei harferion ffermio ond wedi'i chael yn anodd sicrhau digon o bwyntiau. Roedd y fferm yn gobeithio ymuno â Glastir drwy'r pwyntiau a gafwyd drwy'r opsiwn chwistrellu slyri. Er hynny, roedd y fferm yn beirniadu'r anawsterau yr oedd rhaid i ffermydd llaeth eu goresgyn wrth ymuno â chynlluniau.

Yn hyn o beth mae'n werth nodi bod arolwg 2010 yr Arsyllfa yn dangos mai ffermwyr defaid oedd debycaf o ymuno â Glastir (58%). Mae'r astudiaeth hon yn cytuno mai ffermwyr cig eidion a defaid yw'r grwp mwyaf o fewn y rhai sy'n ymuno â Glastir. Dim ond dau o ffermwyr llaeth oedd wrthi'n ymuno; er bod pawb ond un o'r ffermwyr llaeth y cyfwelwyd â nhw yn dweud eu bod wedi ystyried ymuno. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio annog ffermwyr llaeth i ymuno â Glastir, mae hyn yn dangos bod yna rwystrau arwyddocaol o hyd. Yn benodol, dadleuir bod ffermydd llaeth yn aml yn rhy arddwys i newid eu dulliau rheoli i gyd-fynd ag amcanion cynlluniau, ac nad oes ganddyn nhw gynefin sydd eisoes yn bodoli.

Er hynny, roedd yn amlwg nad oedd cydberthynas glir rhwng maint ffermydd (ESU) a'r ymateb i gynlluniau amaeth-amgylcheddol, sy'n awgrymu bod daearyddiaeth y daliad ei hun yn ffactor holl-bwysig yn ychwanegol at lefel arddwysedd y fferm. Mewn geiriau eraill, gellir cael fferm 'fawr' sef lefel gynhyrchu ddwysach, ond hefyd rai darnau o gynefin sy'n addas i'w cadw.

O fyfyrio ymhellach ar y mathau o ffermwr a fyddai'n ymuno â chynlluniau, mae adroddiad yr Arsyllfa yn 2010 yn awgrymu bod aelodau cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn fwy gwydn yn eu busnes, ac yn dangos lefelau uwch o arallgyfeirio ac addasu at newid.

Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn ategu'r canfyddiad hwn mewn rhai ffyrdd, drwy gadarnhau bod nifer o 'ffermwyr anfodlon', wnaeth ddim dangos tystiolaeth o ymgysylltu â syniadau neu strategaethau busnes newydd hefyd heb fabwysiadu cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Er hynny, roedd yn amlwg hefyd y byddai hyd yn oed y ffermwyr lleiaf hyblyg wedi ymuno pe bai'r cynlluniau'n addas at eu dulliau rheoli. Yn fwy aml, y cynhyrchwyr mwyaf arddwys a oedd wedi'u cyfyngu oherwydd capasiti eu tir oedd yn peidio ag ymuno â chynlluniau.

Er bod lefelau'r diddordeb mewn busnes yn gydran bwysig o ran ymgysylltu â chynlluniau, yn yr ystyr bod unigolion sy'n chwilio am strategaethau arallgyfeirio yn debycach o chwilio am wybodaeth am gynlluniau gan geisio ymuno â nhw, mae hyn yn awgrymu nad yw'r ffactor hwn mor bwysig â chapasiti'r fferm, sef y gyfatebiaeth rhwng y dulliau rheoli presennol a gofynion y cynllun. Gan hynny, mae'n ymddangos bod lefelau derbyn yn cael eu penderfynu'n fwy gan lefelau arddwysedd y fferm a'i dull rheoli na chan hyd a lled y diddordeb mewn busnes.

O edrych yn fwy cyffredinol, roedd yn glir bod diddordeb yr ymatebwyr mewn Glastir yn cyd-fynd i raddau helaeth â'u cymhellion dros ymuno â chynlluniau blaenorol, sef er elw ariannol ac i gael cymorth â systemau rheoli anarddwys presennol. Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio bod y cynlluniau blaenorol wedi gweithio'n dda iddyn nhw ac y bydden nhw wedi bod yn fodlon ymuno â Glastir pe bai wedi bod yn fwy cydnaws â'r cynlluniau hynny.

**Esbonio'r Diffyg Derbyniad (1)**

Y gwyn fwyaf cyffredin am y cynllun Glastir oedd bod y cymhelliant ariannol yn rhy isel.

Gan ymhelaethu ar y pwynt hwn, dadleuai llawer o'r ymatebwyr fod y diffyg taliadau cyfalaf yn broblem, ac na allen nhw fforddio gwneud y gwaith am y lefel taliadau a oedd ar gael. Cafodd hyn ei drafod nid yn unig mewn perthynas â gwaith ffensio ond hefyd yr opsiwn chwistrellu slyri. Nododd eraill ei bod yn fwy na mater o daliadau isel yn unig, ond na chaen nhw'r arian ymlaen llaw am wneud gwaith cyfalaf, ac na allen nhw fforddio mynd i fwy o ddyled, hyd yn oed am gyfnod byr, wrth ddisgwyl am y taliadau. Cafodd y pwynt hwn ei fynegi'n groyw gan y swyddog o'r FUW:

> *…nid pawb sydd â phum can punt i'w taflu at godi tamaid o ffens os nad ydyn nhw am gael yr incwm nôl am ddwy neu dar blynedd. Clywais i un ffermwr yn dweud y cymerai bedair blynedd iddo adennill ei arian y mae'n mynd i'w wario er mwyn ymuno, ar ffurf taliadau Glastir. Does dim cymhelliant yn y fan yma …iawn, mae'n rhaid ichi fod yn hyblyg, mae'n rhaid iddyn nhw wneud y gwaith hefyd, rydyn ni'n deall hynny, ond does yna ddim cymhelliant … (FUW)*

Hefyd, dadleuai'r FUW fod lefelau'r prisiau'n anghywir ar hyn o bryd a bod angen eu hadolygu.

> *… un o'n pryderon mwyaf ni oedd nad yw cyfraddau'r taliadau a'r costau rydyn ni bob amser wedi gwthio dros eu diweddaru, am gael eu diweddaru hyd y gallwn ni weld …mae'r costau i gyd wedi'u seilio ar 2008, 2009 ond mae llawer wedi newid ers hynny. (FUW)*

Un pwynt cyffredin arall oedd bod pris stoc wedi codi'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, nes ei bod yn gallach yn ariannol i ffermwyr gadw mwy o stoc. Yn hyn o beth roedd yn glir bod y penderfyniad hwn yn ymwneud â blaenoriaethau ariannol ond hefyd â'r ffaith y byddai'n well gan ffermwyr werthu stoc na chael eu talu am waith cadwraeth. Roedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael eu gweld fel cymorth ariannol wrth gefn, ond petai'r marchnadoedd yn fwy ffyniannus yna fyddai dim o'u hangen. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y bydden nhw'n cyfaddawdu ar iechyd a chynaliadwyedd hirdymor eu tir i sicrhau enillion ariannol byrdymor, ac felly

fe fydden nhw'n cadw at lefel ffermio a fyddai'n weddol gydnaws â chadwraeth heb gynlluniau.

**Esbonio'r Diffyg Derbyniad (2)**

Roedd yr enillion ariannol o'r cynllun Glastir hefyd yn cael eu mesur o'u cymharu â lefel y cyfyngiadau yn sgil ymuno â'r cynllun.

Gan hynny, dadleuai'r ffermwyr nad oedd yn fater syml o gael digon o aran i wneud iawn am yr incwm a oedd yn cael ei ildio, ond hefyd lefel y rhyddid oedd yn cael ei hildio. Dangosir hyn yn y dyfyniadau a ganlyn:

> *…o ran arian dyw hi ddim yn ymarferol inni ymuno â'r cynllun. Hefyd, gyda'r cymhelliant ariannol bach maen nhw'n ei roi ichi, mae'n amlwg y bydd yna fwy o reoliadau a biwrocratiaeth ac mae digon o honno yn barod …Roedd Tir Gofal yn eich gwobrwyo chi am wneud y pethau yma ac yn cyfrannu at y gwaith mewn gwirionedd ond wnaiff Glastir ddim … mae'n anodd gwneud arian ar y fferm bellach beth bynnag, ond os ydyn nhw'n disgwyl ichi rhoi'r gorau i gynhyrchu ar ran o'r tir, yna mae'n amlwg eich bod yn rhoi'r gorau i beth o'ch incwm a does dim llawer iawn yn cael ei gynnig yn ei le. Maen nhw fel petaen nhw'n rhoi ar un llaw, a dweud y cewch chi, er enghraifft petai'r fferm yn gymwys i gael £3000 o arian, ond maen nhw'n disgwyl inni wneud math o waith na fydden ni'n ei wneud ein hunain mae'n debyg, a ninnau i dalu amdano, gan lyncu £2600 o'r £3000 yna mae'n debyg, sy'n gadael ni â £400, a'r holl drafferth ychwanegol o wneud y gwaith. Felly na, dyw hi ddim yn tycio. (WRO 162)*

> *Roedden nhw am gael y cae gorau sydd gennyn ni ar y fferm yma, rhoi'r gorau i'w ddefnyddio, a pheidio â'i dorri tan ddiwedd mis Gorffennaf, wel mewn blwyddyn arferol byddwn ni'n gwneud dau gnwd yna, roedden nhw am roi iawndal o ryw £600 y flwyddyn inni am beidio â thorri cyn diwedd Gorffennaf, wel rwy'n colli un toriad sy'n werth rhyw £2000 felly dewch o'na …. mae'r cyfraddau iawndal yn bell ohoni. A chi'n gwybod, mae gwerthoedd stoc yn saethu i fyny, felly os ydyn nhw am gystadlu â gwerthoedd stoc bydd rhaid codi'r iawndal yma o beth wmbreth. (CMI 1)*

> *Does dim llawer o fantais yn y peth i ni. Mae gennyn ni ddwy flynedd arall i redeg ar Dir Gofal…I ymuno â Glastir does dim rhaid inni wneud llawer mwy na Thir Gofal beth bynnag…Ond does dim llawer o fantais felly dwy ddim yn gwybod a wnawn ni drafferthu. Wn i ddim. Y rheswm y gwnes i gais i ddechrau, o'r hyn allwn i ei weld gyda Glastir, oni bai eich bod chi'n ymuno â Glastir chewch chi ddim grantiau eraill. Felly os nad ydych chi wedi gwneud cais chewch chi ddim byd arall …. ond o ran arian ... mae'n llawer gwell i ni ryw... wella'r tir dydyn ni ddim i fod i'w wella dan y cynlluniau yma a chael yr arian ychwanegol drwy ffermio'r tir. (WRO 16)*

> *Mae hi mor, mor dynn ar yr holl, rhaid ichi wneud hyn, chewch chi ddim llall, yr holl bethau, ac mae dyn yn meddwl, chi'n ymuno â hyn er mwyn cael dwy fil dau gant o bunnoedd …Pwy yn ei iawn bwyll sydd am wneud penderfyniad busnes mor ddifrifol â hyn'na...llofnodi a dyna chi wedi cytuno, cha i ddim gwneud hyn i'r tir, cha i ddim rhoi hyn yma, rhaid peidio gwneud hyn...os gwna i hyn ga i ddirwy, mae'r canrannau'r fawr on'd yn nhw, a chi'n meddwl, am ddwy fil dau gant o bunnoedd...oes eisiau profi 'mhen i? Rhaid i mi ddweud, mae unrhyw un sy'n ymuno naill ai'n optimist rhyfeddol neu wedi colli arno'i hun! (WRO 45)*

*Y cyfyngiadau ar yr amgylchedd, mae dyn yn teimlo ei fod fel gwladoli'r tir drwy'r drws cefn achos y cyfyngiadau o ran yr hyn y cewch chi ei wneud â'ch tir chi'ch hun …pryd dych chi i fod i wneud pethau, pryd dych chi i fod i dorri pethau, pryd cewch chi chwistrellu …Gwladoli yw hi am fod y llywodraeth yn gosod y drefn, wrth gwrs mae dyn yn cael ei dalu mae hynny'n ddealladwy ond erbyn hyn mae'r arian wedi'i gwtogi … A'r teimlad wrth siarad â ffermwyr eraill yw na fydd llawer ohonyn nhw'n ymuno, maen nhw'n teimlo bod hynny'n rhoi grym i chi'ch hun, o leiaf cewch wneud yr hyn fynnoch chi ar y tir wedyn. (WRO 13)*

O ystyried y tueddiadau ym mhenderfyniadau'r ymatebwyr, roedd yn amlwg bod y dyfyniadau uchod i gyd gan ffermydd a oedd wedi bod yn aelodau o gynlluniau blaenorol, a oedd yn teimlo bellach nad oedd yna iawndal digonol am lefel y cyfyngiadau. Yn holl-bwysig, er bod Tir Gofal a Thir Cynnal hefyd wedi bod yn gyfyngol, dadleuai'r ymatebwyr ei bod yn gwneud synnwyr busnes, ar y cyfan, iddyn nhw ymuno â'r cynllun. Ond mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dangos nad yw Glastir wedi taro'r cydbwysedd iawn.

Roedd hyd yn oed y ffermwyr a oedd yn ymuno â'r cynllun yn ochelgar ar y cyfan ac yn cwyno ei bod yn llawer anos bellach iddyn nhw redeg busnes hyfyw a bod yn rhan o'r cynllun. Y pryder mwyaf o bosibl oedd gosodiadau'r ffermwyr mwyaf parod i wneud cadwraeth eu bod nhw'n credu bod Glastir wedi mynd yn rhy bell tuag at neilltuo tir, yn hytrach na chynnal dulliau cynhyrchu cynaliadwy. Gan fod hon yn thema mor fawr yn y cyfweliadau, caiff ei thrafod mewn adran ar wahân.

Gan fyfyrio ymhellach ar y gwyn gyffredin hon ynghylch lefelau'r cyfyngiadau mae'n bwysig nodi bod ffermwyr a oedd heb ymuno â chynlluniau o'r blaen yn aml yn ofidus iawn ynghylch y lefelau ymyrryd tybiedig.

*…maen nhw am ymyrryd ormod â chi, a dyna beth dwi ddim eisiau ei weld … maen nhw'n dweud wrthoch chi am beth i'w wneud, dych chi'n gweld, sy'n cymryd eich gwaith oddi arnoch chi hefyd achos ffarmwr ydych chi, chi sy'n rheoli'r busnes yna, pam cael rhywun arall i ddweud beth i'w wneud? (WRO 43)*

O'i gymharu â chanfyddiadau astudiaeth y CCRI (2009), nodwyd yn yr un modd fod ffermwyr sydd heb ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn aml yn poeni'n ormodol am lefelau gwaith papur a biwrocratiaeth, o'u cymharu â'r sylwadau gan aelodau'r cynlluniau. Er hynny, dadleuwyd bod yna gyfiawnhad dros y pryder ynghylch gwaith papur yn achos cynllun Glastir, gan fod sawl un o'r ymatebwyr yn sôn bod rhaid gwneud peth wmbreth o waith darllen deunyddiau i gyflwyno'r cynllun, a oedd wedi torri eu calon yn llwyr.

*Edryches i ar y llyfr a dweud fy mod am ei astudio fe. Ie dyna ni. Dwedes i y gwnawn i (yn edrych drwy'r papurau). Dwi ddim yn edrych ar hyn'na, un golwg fach arno, darllenes i ddwy neu dair tudalen, nid y math o beth dwi'n hoffi ei ddarllen a dweud y gwir, a dyna'i gwaelod hi mâs i fi … (WRO 110)*

Roedd yn glir hefyd fod ffermwr a oedd wedi ystyried cynllun yn y gorffennol a heb ymuno oherwydd y cyfyngiadau a'r fiwrocratiaeth yn annhebyg o ystyried yr eilwaith:

*Gan fy mod i'n gynhyrchydd llaeth gweddol arddwys, doeddwn i ddim yn credu bod y gwobrwyon yn ddigon da am yr ymdrech y byddwn i'n gorfod ei gwneud … ac yn meddwl efallai am yr archwiliadau ychwanegol, mae'n ofid os byddwch chi'n methu …ac am fy mod i wedi ystyried y peth yn y gorffennol a meddwl na dyw hyn ddim i mi, dwi'n cyfaddef nad ydw i wedi edrych yn fanwl iawn … dwi wedi pori drwyddyn nhw ond heb*

> *eistedd i lawr a mynd drwyddi'n fanwl i weld a fyddai hi'n briodol i fi neu beidio. (WRO 190)*

Mae'n werth nodi bod y ffermwyr a oedd yn cwyno am lefelau cyfyngiadau yn aml yn flaenweithgar ac yn flaengar iawn yn eu busnesau ac yn bryderus iawn am reoliadau'r llywodraeth, ond nid yn erbyn gwneud gwaith cadwraeth.

> *Mi fyddwn ni'n gwneud pethau, fel pob gaeaf dwi'n plygu gwrychoedd heb gael fy nhalu, achos dwi'n gwneud hynny fel rhan o'r drefn bob gaeaf. A dwi ddim yn ffensio'r rhan fwyaf yn ddwbl, achos does dim angen a dweud y gwir, …ond mae'n damaid bach o boen wedyn achos petaen ni'n gwneud hynny yn y cynllun Glastir byddai'n rhaid dilyn rheolau rhywun arall am y ffensys ac ati … rhywun mewn swyddfa'n dweud wrthoch chi am sut redeg eich ffarm … (WRO 39)*

> *Dwi wedi gwneud peth gwaith plannu coed, plannu gwrychoedd yn y gorffennol, ond fi ddewisodd wneud. Ges i grant bach gan y Cyngor i blannu rhywfaint o goed …ac mae yna rannau o'r fferm lle gallai mwy gael ei wneud … Rwy'n credu y byddai grantiau unigol yn beth iach … dweud edrychwch fe hoffwn i wneud hyn, hyn a hyn...plannu'n rhad chi'n gwybod, ychydig o waith ffensio, waliau sy'n cwtogi cynefin ac ati a mynd ymlaen o'r fan'no wedyn ac efallai wedyn fyddai dim ots gennych chi petai rhywun yn dod nôl ymhen pum mlynedd i wneud yn siwr fod y coed yn dal yn fyw neu'n dal yno neu beth bynnag. (WRO 190)*

Mae'n werth nodi felly fod Glastir wedi'i feirniadu mor drwm ar sail y cyfyngiadau ynddo, sy'n codi cwestiynau am y ffordd fwyaf effeithiol i ymgysylltu â ffermwyr.

Mae cwestiwn ymgysylltu ac yn arbennig faterion ynghylch sut i fynegi'r polisi cadwraeth i ffermwyr yn thema mor fawr nes y caiff ei thrafod mewn adran ar wahân. Er hynny, mae'r dyfyniad a ganlyn yn rhoi blas o farn rhai o'r ymatebwyr:

> *…maen nhw'n ceisio cael manteision amgylcheddol yn y fath fodd fel eu bod yn gorfodi pobl i fod yn amgylcheddol, a does dim byd gwaeth na cheisio gorfodi rhywun i wneud iddo gicio yn erbyn y tresi. Ac o ran natur mae ffermwyr am gynhyrchu bwyd. Ond o ran eu natur dydyn nhw ddim am gam-drin y tir, nid dyna'r peth. Fyddai'r rhan fwya o bobl gall ddim yn niweidio'r amgylchedd maen nhw'n ei ddefnyddio achos byddai hynny'n cwtogi ar eich dyfodol. Felly mae ceisio gorfodi polisi amgylcheddol mor …gryf yn y ffordd maen nhw wedi mynd ati – hwyrach y cân nhw rai aelodau, dwi ddim yn amau ond dwi'n credu y bydd mwy o bobl yn aros ac yn dweud wel, fy fferm i ydy hon ac mi hoffwn i gael ei ffermio fel dwi'n penderfynu … (WRO 45.*

**Esbonio'r Diffyg Derbyniad (3)**

Yn olaf, mae'n bwysig tynnu sylw at ddylanwad posibl sylwadau anffafriol yn y wasg am yr ymateb i'r cynllun.

Yn benodol, nodir bod cyfod hir o ansicrwydd wrth ddatblygu'r cynllun, a gwrthwynebiadau cryf gan yr undebau wedi bod yn ddylanwad o bwys ar agweddau'r gymuned amaethyddol at y cynllun. Cafwyd llawer o sïon am y cynllun, ac mae barn llawer o ffermwyr wedi'i newid gan yr hyn y mae pobl eraill yn ei ddweud wrthyn nhw. Trafodir pwysigrwydd y dylanwadau cymdeithasol hyn yn fanylach yn adran 7. At ddibenion y drafodaeth yn y fan yma mae'n bwysig nodi bod bron y cyfan o'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw wedi awgrymu eu bod nhw, er gwaethaf sylwadau negyddol yn y wasg, wedi edrych ar y cynllun beth bynnag, i weld a allai weithio iddyn nhw. Ymhellach, roedd yn glir o lawer o'r esboniadau bod y penderfyniadau wedi'u gwneud yn y pen draw ar gydbwysedd ariannol y cynllun. Er hynny, dylid nodi y

gallai sylw negyddol yn y wasg a sïon effeithio ar feddylfryd pobl a chymylu eu ffordd o feddwl am y cynllun, fel na fydden nhw'n edrych arno yn ddigon manwl neu yn ddigon agored eu meddwl.

Yn benodol, nodir bod staff cadwraeth sy'n gweithio gyda ffermwyr yn credu mai isel iawn oedd lefelau'r ddealltwriaeth ynglyn â'r cynllun hwn a sut mae'n gweithio. Mae hyn yn sylw arbennig o berthnasol o gofio bod y cynllun Glastir yn newid arwyddocaol ers y cynlluniau blaenorol, o ran lefelau'r cyfrifoldeb a roddir i'r ffermwyr ym mhroses ymgeisio'r cynllun. Gan eu bod bellach yn gorfod cyflawni llawer mwy o'r broses ymgeisio eu hunain, heb gymorth staff yr undebau neu swyddogion prosiect, mae'n ddigon posibl bod llai o ffermwyr wedi ymgysylltu â'r cynllun i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn ei ddeall yn llawn. Ond, mae'n anodd iawn bod yn glir am hyn, o gofio'r negeseuon cymysg gan yr ymatebwyr, a'r ffaith na fyddai llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i gyfaddef nad oedden nhw wedi llwyddo i ddeall y cynllun yn llawn. Yr hyn oedd yn glir oedd bod yna lawer o ddryswch ynghylch y cynllun.

**Crynodeb: mae'r rhesymau sy'n cael eu rhoi dros ymuno â Glastir yn adlewyrchu'r rhesymau dros ymuno â'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, er ei bod yn amlwg bod mwy o ffermwyr erbyn hyn yn fodlon ymgysylltu â chynlluniau oherwydd bygythiad tybiedig ansicrwydd ariannol yn y dyfodol, a'r angen yn sgil hynny i arallgyfeirio ac addasu busnes y fferm. Er hynny, mae'n amlwg bod Glastir wedi ennyn lefel uwch o feirniadaeth oherwydd lefelau isel y taliadau a'r cydbwysedd cymharol wael rhwng y cyfyngiadau a'r enillion ariannol. Gan hynny, mae cyfran uchel o ymatebwyr sydd wedi bod mewn cynlluniau blaenorol yn ymadael erbyn hyn a hynny heb ymuno â Glastir. Nodir hefyd y gallai'r sylw gwael a gafodd Glastir yn y wasg fod wedi cael effaith negyddol ar yr ymateb i'r cynllun gan nad yw pobl yn ymgysylltu â'r cynllun mewn ffordd mor feddwl-agored, ac y gallen nhw fod wedi'u gwyro gan yr hyn y mae pobl eraill wedi'i ddweud wrthyn nhw.**

## Opsiynau Rheoli Glastir

**Mae'r adran hon yn ystyried y tueddiadau a welwyd yn yr ymateb i'r opsiynau rheoli penodol, ac yn nodi unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r gwahanol opsiynau.**

O ystyried y gwahanol opsiynau rheoli a ddewiswyd neu a drafodwyd fel arall yn y cyfweliadau, roedd yn nodedig bod llawer o ffermydd naill ai wedi ystyried defnyddio neu wrthi yn defnyddio yr opsiwn chwistrellu slyri, sy'n awgrymu bod hyn wedi bod yn ychwanegiad cadarnhaol yn y cynllun Glastir. Yn benodol, o gofio'r sylwadau a'r feirniadaeth ar yr opsiynau eraill awgrymir bod yr opsiwn hwn yn gweithio'n dda am ei fod yn cael ei weld fel techneg amaethyddol gynaliadwy yn hytrach na rhywbeth a fydd yn gwrthdaro â chynhyrchu bwyd.

Yn yr un modd, roedd hau cnydau âr a chadw gorchudd ar y ddaear yn cael eu derbyn fel opsiynau hyfyw a chall, yr oedd y ffermwyr yn eu deall ac yn eu gweld fel ategiad i amaethu

Er hynny, roedd llawer o gwynion am y cynnydd yn lled y ffensys dwbl o amgylch gwrychoedd, yr opsiynau ynglyn â ffensys o amgylch ffosydd, creu pyllau yng nghanol caeau, ac unrhyw beth a oedd yn ymddangos fel gormod o wastraff tir a allai gynhyrchu bwyd. Yn benodol, dadleuwyd mai swm cyfyngedig yn unig o dir amaethyddol da sydd gan lawer o ffermydd (ac yn wir sydd gan Gymru gyfan), a bod rhoi'r gorau i gynhyrchu bwyd arno yn ffôl.

> *Wel rydyn ni'n fodlon rhoi rhannau o'r ffarm i gael eu hystyried ond nid tir cynhyrchiol, wel gyda'r Glastir yma, mae unrhyw waith cadwraeth yn gorfod cael ei wneud ar dir wedi'i wella … Yn yr ESA ac yn Tir Cynnal roedd ambell damaid o gaeau yn cael eu gadael fel cynefin ac mae'n hyfryd achos dyna beth yw e beth bynnag, wel os byddwn ni am roi rhagor o dir i greu cynefin nawr, mae'n rhaid rhoi tir amaethyddol da, felly mae'n wirion yn fy marn i. (CMI 1)*

I bobl eraill, doedd hi ddim hyd yn oed yn gwneud synnwyr o ran cadwraeth:

> *…rhaid ichi ystyried beth sy'n synhwyrol i'ch tir chi, eich ardal chi, eich hinsawdd chi, y rhywogaethau brodorol o'ch amgylch chi …yn hytrach na dweud pethau fel, os dodwch chi ffens o amgylch y pwll … Gwych, ydych chi'n gwybod y gallen ni fod wedi cael pwyntiau am godi ffens o amgylch pwll yng nghanol y cae. Pa fath o gynefin rydych chi'n ei greu o godi ffens o amgylch pwll yng nghanol cae wedi'i wella? Dyma chi fwlch o ddeg metr o amgylch y pwll. Reit yng nghanol cae mawr. Ar ei ben ei hun. Does dim synnwyr yn y peth, dim synnwyr o gwbl yn ein barn ni. (WRO 21)*

Ffermydd bach oedd debycaf o gwyno am yr opsiynau hyn gan fod yr ymatebwyr yn dadlau bod angen iddyn nhw ddefnyddio pob tamaid o dir amaethyddol da oedd ganddyn nhw, a bod yna gyfran fawr o'u ffermydd na allen nhw mo'i gweithio beth bynnag, felly doedd dim synnwyr mewn mynd â rhagor oddi arnyn nhw.

> *Wel dwy ddim yn hoffi cau rhannau o gaeau. Does dim llawer o dir gwastraff yma i fod yn onest, mae gennyn ni ryw bedwar erw o dir coediog a rhyw ddau neu dri yn dir garw, does dim digon gennyn ni, dwi ddim yn credu bod digon gennyn ni. (WRO 46)*

Yn aml iawn roedd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan ffermydd anarddwys ar y bryniau a oedd yn teimlo bod rhaid iddyn nhw newid mwy o'r fferm drosodd at waith cadwraeth er mwyn ymuno â Glastir. Ond roedd yn amlwg hefyd fod cyfran uchel o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio ffermydd bach iawn yn awgrymu'n syml eu bod yn rhy fach i fod mewn cynlluniau ar y dechrau, ac felly wnaen nhw ddim hyd yn oed eu hystyried. Mae hyn yn cyd-fynd ag astudiaethau blaenorol sydd wedi tanlinellu ffermydd mawr fel prif fabwysiadwyr cynlluniau. Ond mae'n codi amheuaeth ynghylch materion am ddosbarthu arian y llywodraeth mewn

modd moesegol, gan fod ffermwyr mawr yn aml yn fwy proffidiol, ac yn gallu fforddio gadael rhywfaint o dir heb gynhyrchu bwyd arno. Gan hynny mater dadleuol yn y gymuned amaethyddol yw bod y ffermydd mawr hyn wedyn yn gallu sicrhau cymorth ariannol ychwanegol, tra bo ffermydd bach yn teimlo eu bod yn methu ymuno â'r cynlluniau hyn.

Pryder arall oedd anallu'r ymatebwyr i blannu coed lle roedden nhw'n dymuno, sy'n cyfeirio at y manylebau ym map plannu Glastir. Yn benodol, soniodd ffermwyr na allen nhw blannu mewn ardaloedd neu yn agos i ardaloedd lle mae gylfinirod a cornicyllod yn nythu neu lle y gallen nhw nythu, er mwyn lleihau niferoedd yr adar ysglyfaethus sy'n hela'r adar hyn. Bernid nad oedd y cyfyngiad yn synhwyrol, a'i fod fel petai'n atgyfnerthu'r argraff nad oedd manylebau rheoli cadwraeth wedi'u hystyried yn fanwl iawn, o ran y cysylltiad â'r darlun ehangach, y tu hwnt i anghenion rhywogaethau penodol. Yn hyn o beth roed gwrthdaro yn cael ei weld nid yn unig rhwng gofynion yr RSPB a gofynion ffermwyr, ond hefyd rhwng blaenoriaethau gwahanol grwpiau cadwraeth. Unwaith eto mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i sicrhau gwell perthnasoedd gweithio a gwell llinellau cyfathrebu â ffermwyr os bwriedir iddyn nhw ymgysylltu â'r cynlluniau, fel y trafodir ymhellach mewn adrannau yn nes ymlaen.

Un pwynt olaf i'w nodi yma yw bod plannu coed yn aml yn ymddangos yn opsiwn poblogaidd (er nad ar eu tir amaethyddol gorau). Mae hyn yn awgrymu bod plannu coed yn cael ei ddeall yn hawdd fel rhywbeth sy'n dda i'r amgylchedd, tra bod angen esbonio opsiynau eraill ymhellach er mwyn i'r ffermwyr ddeall manteision mathau eraill o gynefin. Er enghraifft, roedd yna lawer o ddryswch ynghylch lleihau stoc ar weundir grug, a chafwyd sylwadau am ansawdd wael grug a'r diffyg effaith ar niferoedd grugieir. Ar y llaw arall, roedd gan yr ymatebwyr a oedd yn rhan o waith adfer gorgorsydd drwy brosiect LIFE syniad cliriach o nodau'r prosiect hwnnw. Felly, hyd yn oed oes oedden nhw weithiau'n amheus ynghylch llwyddiant y gwaith, mae'r ffaith bod y gwaith wedi'i esbonio yn sicr wedi gwella eu hymgysylltiad â'r math hwn o reoli.

**Crynodeb: er bod yna gefnogaeth i opsiynau rheoli y bernir eu bod yn hybu amaethyddiaeth gynaliadwy, roedd yna feirniadu hallt ar opsiynau a oedd yn golygu bod rhaid rhoi'r gorau i gynhyrchu ar dir, neu a oedd yn cwtogi'n ddifrifol ar y gallu i gynhyrchu.**

## Amcanion y Cynllun Glastir

**Mae'r adran hon yn trafod yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag amcanion cyffredinol Glastir, sy'n amrywio o ddiffyg ymgysylltu â'r ymatebwyr i'w penderfyniad pendant i wrthod strategaeth dybiedig y cynllun. Yn benodol, amlinellir un tensiwn allweddol yn y cydbwysedd tybiedig rhwng darparu bwyd a gwasanaethau amgylcheddol eraill.**

Er mai'r gyfatebiaeth agos â'r cynlluniau rheoli presennol a lefelau addas o gymhelliant ariannol yw prif benderfynyddion ffermwyr ynglyn a chymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, mae astudiaethau blaenorol wedi awgrymu ei bod hefyd yn bwysig myfyrio ar i ba raddau y mae'r ffermwyr yn deall nodau'r cynllun, ac i ba raddau y mae'r amcanion hyn wedi ennyn eu diddordeb. Y rheswm am hyn yw y bernir bod dilysrwydd tybiedig y mesurau polisi yn ffactor allweddol o ran eu derbyn. Yn y tymor hir, dadleuir bod y dilysrwydd hwn yn hanfodol er mwyn annog ffermwyr i droi at arferion mwy cynaliadwy heb fod angen lefelau uchel o gymorth gan y llywodraeth yn barhaus (Wilson a Hart 2001).

Yng ngoleuni'r materion hyn, gofynnwyd i'r ffermwyr ddweud a oedden nhw'n deall y rhesymau dros y newid i'r cynllun Glastir, a beth oedd y prif amcanion amgylcheddol. Ymhlith y cyfan bron o'r ymatebwyr cafwyd ymateb gwael iawn i'r cwestiwn hwn, gan ddangos bod cyfran fawr o ffermwyr yn aneglur iawn ynghylch pam y cafwyd newid yn y cynlluniau.

Fel y nodwyd yn gynharach, ac mewn astudiaethau blaenorol (CCRI 2009), dadleuai llawer y byddai wedi bod yn well cadw at gynllun blaenorol Tir Gofal. Cynigiodd eraill ymatebion mwy sinigaidd ynghylch ymgais gan y llywodraeth i arbed arian, ond gydag ymdeimlad pendant o ansicrwydd yn eu hatebion.

O'u gwthio ynglyn â'r newid yn yr amcanion, roed yn glir unwaith eto nad oedd fawr ddim dealltwriaeth o'r hyn yr oedd Glastir yn ceisio'i wneud yn wahanol, heblaw gosodiadau am sut yr oedd yn mynd yn rhy bell tuag at ddeilliannau amgylcheddol a hynny ar draul cynhyrchu bwyd. Pan ofynnwyd yn uniongyrchol am gynnwys mesurau i leihau carbon, atal llifogydd, ac ansawdd dwr, fel blaenoriaethau'r cynllun newydd, ymatebion cymysg a gafwyd, gyda chyfran uchel o'r ymatebwyr yn dangos peth ymgysylltiad â'r materion hyn, gan gydnabod hyd yn oed y gallai fod cysylltiad rhyngddyn nhw â Glastir, ond ei fod yn rhywbeth nad oedden nhw wedi meddwl o ddifrif amdano.

Yn benodol, pan oedd yr amcanion amgylcheddol hyn yn cael eu cydnabod, awgrymwyd eu bod yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r elfen wedi'i thargedu, yn hytrach nag yn rhan o'r cynllun ehangach. I'r ymatebwyr ym mhrosiectau'r astudiaeth achos, lle'r oedd y materion hyn wedi'u trafod yn bendant, a lle'r oedden nhw wedi cymryd rhan yng nghynllun peilot Glastir, roedd yna gydnabyddiaeth lawer cryfach bod y materion amgylcheddol ehangach hyn yn rhan o gylch gorchwyl Glastir.

Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu mai gwael iawn ar hyn o bryd yw'r ddealltwriaeth o'r rheswm dros gyflwyno Glastir. Ar y cyd â'r sylw negyddol yn y wasg a'r pwyslais cryf ar daliadau gwael / lefelau uchel o gyfyngiadau, ni chredir bod hyn yn argoeli'n dda o ran sicrhau derbyniad ehangach i'r cynllun Glastir.

Mae'n eglur nad yw Glastir wedi'i ddylunio dim ond i wireddu amcanion amgylcheddol newydd, ac mae'n golygu mwy hefyd na lleihau gwariant y lywodraeth ac annog ffermwyr i fod yn fwy effeithlon a busnesgar. Er hynny, o gofio bod Glastir wedi'i gyflwyno i'r cyhoedd yn ehangach ac i gynulleidfaoedd polisi fel cynllun sydd am gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem, mae'n bwysig datblygu'r llinell gyfathrebu hon â'r gymuned amaethyddol hefyd. Ar ben hynny, o gofio'r elyniaeth at y cynllun newydd, a'r cwynion am ei amcanion tybiedig, yr ymhelaethir arnyn nhw isod, mae'n ymddangos ei bod yn berthnasol treulio mwy o amser yn esbonio ac yn cyfiawnhau'r cynllun.

Yn benodol, roedd yn drawiadol bod bron y cyfan o'r ymatebwyr yn cwyno bod Glastir yn gam i'r cyfeiriad anghywir, am eu bod yn credu bod Glastir yn rhoi blaenoriaeth i gadwraeth uwchlaw ffermio yn hytrach na cheisio cyfuno'r ddau. Yn yr un modd, aeth llawer ymlaen i ddadlau bod cyflenwadau diogel o fwyd yn dod yn flaenoriaeth genedlaethol o bwys, ac y byddai Glastir yn eu peryglu.

> *Dwi'n meddwl bod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos mor brin o fwyd ydyn ni, ac mae'r bunt wedi newid, mae'n mynd allan o'r wlad, ac yn sydyn dyma ffws bod pris bwyd wedi codi. Felly maen nhw am inni gynhyrchu mwy bellach on'd ydyn. Ble maen nhw wedi bod y deng mlynedd diwethaf yma? Hoelio pawb i lawr i'r llawr, dyna'r pris maen nhw'n ei dalu nawr. (WRO 18)*

> *O ran yr hyn sydd yn y wasg ar hyn o bryd am ffermio a chefn gwlad a chynhyrchu bwyd a phopeth, mae'n ymddangos mai ni sydd yn y pen sy'n cael y, mae'n rhaid ichi ofalu am gefn gwlad, bod yn stiwardiaid cefn gwlad, rhaid iddo fod yno i bobl ddod iddo a'i fwynhau, rhaid ichi gynhyrchu bwyd arno, ond mae'n rhaid ichi wneud hynny â safonau lles uchel, gofalus iawn, organig iawn, rhaid ichi ateb i'r holl wahanol grwpiau yma. Ond yn sydyn reit dyma boeni am ddiogelwch y cyflenwad bwyd, ac felly mae'n rhaid ichi gynhyrchu rhagor. Ie. Sut? Edrychwch, rydych chi'n dweud wrtha i am roi'r gorau i gynhyrchu ar dir, sy'n golygu bod llai o dir gen i i gynhyrchu bwyd arno. Dwi'n gorfod trin yr anifeiliaid yn well a pheidio â gordyrru, peidio gwneud hyn...beth ydw i i fod i'w wneud? Dwi'n cael fy nal yn y canol. (WRO 21)*

> *Yn bersonol mae'r ffordd mae'r Glastir yma'n mynd yn hollol chwerthinllyd, dwi'n credu mai nawr yw'r amser y dylai Cymru fod yn meddwl iawn, mae bwyd am fod yn ddrutach inni, nawr dylen ni symud y 40% yna o fewnforion lawr, mae angen bod yn 80%, 90% hunangynhaliol a'r unig ffordd i wneud hynny yw drwy gefnogi'r ffermwyr. Ond hefyd drwy gefnogi'r ffermwyr dylen nhw fod, dwi yn bersonol, dwi ddim yn credu mewn taliadau sengl, yn bersonol byddai'n well gen i gael pris iawn, dwi ddim am fod yn dibynnu ar daliadau sengl, budd-dal yw e, dyna beth yw e, mae ffermwyr ar fudd-daliadau. Yn bersonol fe hoffwn i gael gwared ar hynny a chael y pris iawn am y cynnyrch … mae angen inni ddibynnu'n fwy ar laswellt, mwy o organig, ond organig gydag ychydig bach o ryddid ac nid rheolau organig caeth o hyd… mynd lawr y lein lle gallwn ni fod yn llai dibynnol ar gynhyrchion sy'n dod o olew. (WRO 13)*

Yn hyn o beth mae'n werth nodi bod y safbwyntiau hyn wedi'u codi ar draws ystod yr ymatebwyr, ac nid dim ond gan draddodiadwyr a oedd wedi'u codi i ganolbwyntio ar gynhyrchu. Yn hytrach, roedd yn bryder a fynegwyd mewn perthynas â materion cyfoes iawn:

> *CYF: Mae'n ddiddorol eich bod yn dweud bod yr angen i gynhyrchu mwy o fwyd yn rhywbeth sydd yn eich barn chi wedi dod drosodd yn eithaf cryf yn y misoedd diwethaf, y flwyddyn ddiwethaf, neu ...?*

> *YMAT: Byddwn i'n dweud, ie, y deunaw mis diwethaf. Deunaw mis, dwy flynedd. Roedd hi'n bendant iawn, gallwn ni gael bwyd o wledydd tramor, ac yn sydyn mae sychdwr wedi bod yn Awstralia... allforion yn syrthio... newyn… Mae'r hinsawdd yn effeithio ar y cynhyrchwyr mawr ... heb anfon cymaint i'r farchnad allforio …Ariannin a chig eidion... maen nhw wedi gosod cyfyngiad, roedd Tesco's yn cael eu*

*dyfynnu'n amlwg yn y wasg yn dweud nad oedden nhw am roi dim mwy i gynhyrchwyr o Brydain mewn codiad prisiau … (WRO 21)*

At ei gilydd, awgrymodd yr holl ffermwyr y cyfwelwyd â nhw fod amaethu yn y pen draw yn gorfod canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd, hyd yn oed os byddai'n garedig i'r amgylchedd yn ei ddulliau cynhyrchu. Gan hynny roedd yna feirniadu hallt ar y syniad o neilltuo darnau mawr o dir at ddibenion cadwraeth yn unig, er bod ffermio mewn ffordd nad oedd yn creu effaith fawr, gan adael mannau llai cynhyrchiol yn segur yn fwy derbyniol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r pwyntiau uchod am dderbyn rhai opsiynau rheoli uwchlaw eraill, ond hefyd â materion ynglyn â lefelau tybiedig bywyd gwyllt a chynefinoedd yng Nghymru.

Gan ailadrodd y pwyntiau a wnaed uchod, teimlai lawer o'r ffermwyr fod digon o le i fywyd gwyllt yn barod. Ymhellach, dadleuwyd bod yr arferion ffermio cyfredol yng Nghymru yn garedig i'r amgylchedd i raddau helaeth, am nad ydyn nhw'n arddwys iawn. Cyferbynnid hyn ag ardaloedd eraill, megis East Anglia, a oedd yn cael eu gweld fel prif ffynonellau pryder am yr amgylchedd. Gan hynny dadleuai llawer o'r ymatebwyr fod y llywodraeth allan o gysylltiad â chefn gwlad Cymru.

*Dim ond am fod pobl wedi cael gwared ar wrychoedd yn nwyrain Lloegr i ddod â pheiriannau mawr mewn, ac wedyn rydyn ni'n cael ein bwrw oherwydd y peth yn fan hyn. Dyw'r pethau ddim yn fawr yn yr ardal yma, mae digonedd o wrychoedd, dwi'n credu bod gan natur ddigon o le fan hyn … (WRO 43)*

*…mae'n rhaid cael cydbwysedd ond dych chi'n gwybod petaen nhw'n treulio amser yn y wlad … weithiau rwy'n credu nad ydyn nhw'n nabod Cymru achos mae'n ymddangos bod digon o fywyd gwyllt yn fan hyn ac ond ichi fynd allan ac fe glywch chi'r adar yn canu drwy'r adeg ac mae yna flodau yn y gwrychoedd ac wn i ddim, mae'n rhaid bod rhai pobl yn gwneud pethau'n iawn. Efallai nad ydyn nhw'n mynd yn ddigon dwfn i gefn gwlad i weld, wn i ddim … (WRO 17).*

O gofio'r argraffiadau hyn, awgrymir y dylai'r problemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio yma yng Nghymru gael ei hegluro'n well a'u dangos yn fwy effeithiol.

Un pwynt arbennig o bwysig yn hyn o beth yw'r angen am strategaethau cyfathrebu mwy di-fwlch o du'r llywodraeth, o gofio bod y ffermwyr yn cael eu gwthio yr un pryd i roi sylw i bryderon am ddiogelwch y cyflenwadau bwyd a phryderon amgylcheddol. Pan fernir bod y negeseuon hyn yn gwrthdaro â'i gilydd yn hytrach na chael eu cyflwyno mewn modd integredig a di-fwlch, mae dilysrwydd y polisïau yn dod o dan amheuaeth. Gan hynny, mae angen dybryd am strategaeth gyfathrebu fwy pwyllog ac ymagwedd fwy cyson at y polisïau rhwng yr adrannau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chadwraeth. Ond yn yr un modd, mae angen strategaeth ffermio fwy cydlynol sy'n eglur ar sut i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu yn gynaliadwy.

O gofio mor ganolog yw cwestiwn cyfathrebu yn hyn o beth, a chwestiwn sut mae ffermwyr yn deall cadwraeth, bydd y ddwy is-adran nesaf yn canolbwyntio ar y materion hyn yn fwy pendant.

**Crynodeb: mae lefel isel y ddealltwriaeth ymhlith ffermwyr ynglyn â'r rhesymau dros gyflwyno Glastir yn peri gofid, a bernir ei bod yn cael effaith negyddol ar ddilysrwydd tybiedig y cynllun. Mae'n glir hefyd fod y cynnydd tybiedig yn y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i gadwraeth uwchlaw'r angen i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy yn cael ei wrthod yn gryf. Gan hynny, mae angen strategaeth gyfathrebu a pholisi mwy di-fwlch o du adrannau'r llywodraeth sy'n ymdrin ag amaethyddiaeth a chadwraeth, ynghyd â strategaeth ffermio fwy cydlynol sy'n eglur ynghylch sut i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn modd cynaliadwy.**

## Agweddau at Gadwraeth

**Bydd yr adran hon yn amlinellu i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn ymgysylltu â phryderon amgylcheddol, a sut roedden nhw'n deall yr angen am gadwraeth.**

Ar y dechrau, mae'n bwysig pwysleisio bod cyfran uchel o ffermwyr yn gefnogol iawn i waith cadwraeth, ac yn eglur yn deall ac yn gweithredu ar yr angen i ffermio mewn modd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol.

Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan waith y CCRI (2009) a nododd yn yr un modd lefelau uchel o gefnogaeth a diddordeb mewn gwaith cadwraeth. Yn yr un modd, mae gwaith arolygon ehangach yn dangos bod llawer o ffermwyr, ar lefel agweddau o leiaf, yn llawer mwy parod bellach i ogwyddo tuag at faterion amgylcheddol, ac y dylen nhw felly fod yn debycach o ymgysylltu â chynlluniau amaeth-amgylcheddol (Burton a Wilson 2006; Wilson a Hart 2000; WRO 2010).

Er hynny, cydnabyddir bod data o arolygon a data am agweddau yn wael iawn o ran cynnig darlun derbyniol o bryderon amgylcheddol yr ymatebwyr a'u lefelau gwybodaeth. Gan hynny, anelodd yr astudiaeth hon at fyfyrio ymhellach ar dystiolaeth o ogwydd amgylcheddol yn sgyrsiau'r ymatebwyr; hynny yw, yn hytrach na chymryd ateb ie / nage syml, cafodd pryderon ac ymwybyddiaeth amgylcheddol eu mesur ar sail yr wybodaeth *a amlygwyd*.

Ar sail y math manylach hwn o ddadansoddi, roedd yn amlwg bod peth amheuaeth ynghylch cywirdeb syniad ffermwyr o'r hyn sy'n garedig i'r amgylchedd, a dealltwriaeth bur simplistig o waith cadwraeth. Er hynny, roedd yn amlwg bod llawer yn siarad yn bur huawdl am eu dealltwriaeth a'r arferion ffermio perthynol. O'r sampl gyfan, roedd yn glir bod gan un rhan o bump o'r ymatebwyr wybodaeth ddatblygedig o ecoleg, gan gyfeirio at rywogaethau penodol o fflora a ffawna ar eu fferm, a nodi sut roedd arferion ffermio wedi effeithio arnyn nhw, gan drafod pam a sut roedden nhw wedi datblygu'r wybodaeth hon. Er enghraifft:

> *Mae gen i ddiddordeb erioed ers pan oeddwn i'n ferch fach … Roeddwn i am wybod enwau'r blodau gwyllt a dysgu mwy. Dwi wastad wedi bod yr un fath ac fe wnes i fioleg at lefel A ac ymlaen wedyn i'r coleg a gwneud cwrs botaneg hefyd. A dwi dal, chi'n gwybod dwi'n dal wrth fy modd yn gwybod yr holl blanhigion sydd gennyn ni yma a'r adar. Wrth fy modd, dyna i gyd … mae gennyn ni chwys yr haul a toddyn cyffredin yn tyfu i fyny fan yna chi'n gwybod... does dim gwrtaith yn mynd arno, dydyn ni ddim yn aredig na dim. (LIFE 3)*

Er hynny, roedd yn amlwg bod llawer o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar ecoleg mewn perthynas â ffermio, yn hytrach na dim ond dangos diddordeb mewn bywyd gwyllt, dyweder. Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg ffermwyr â systemau organig a glaswellt yn bennaf (yn hytrach na systemau porthiant crynodedig), lle'r oedden nhw'n anelu at wella amrywiaeth y rhywogaethau neu at ddod â rhywogaethau newydd o laswellt i mewn a rhagor o feillion er mwyn gwella ffrwythlondeb y tir. Bernir bod hwn yn bwynt pwysig am ei fod yn dangos mor fanwl y gall gwybodaeth ffermwyr o faterion ecolegol fod o'i gyfeirio at gynhyrchu cynaliadwy.

Yn benodol, roedd yn amlwg bod nifer o ffermwyr yn ymddiddori'n fawr mewn gwella ansawdd y tir fel hyn, yn hytrach na cheisio cynyddu cynhyrchedd drwy wasgaru llawer o wrtaith, sydd unwaith eto yn awgrymu mor bwysig yw dulliau amaeth-ecolegol cynaliadwy fel ffordd i ddenu ffermwyr at faterion amgylcheddol. Mewn geiriau eraill, bernir bod parhau i roi pwyslais ar arferion cynhyrchu medrus, a chadw eu hunaniaeth fel ffermwyr, yn un o fanteision allweddol y math hwn o waith amgylcheddol (gweler hefyd Burton et al. 2008). Mae'r dyfyniad a ganlyn yn enghraifft o'r ddealltwriaeth hon:

*Rwy'n credu mai troi'n organig oedd y peth gorau un. Achos mae'n well i'r farm, gwell i'r tir a gwell i'r bywyd gwyllt i gyd, does dim cwestiwn, dim amheuaeth …mae cymaint yn fwy o feillion yn y dywarchen, mae'r meillion yn gwneud y gwaith roedd y nitrogen yn arfer ei wneud. Roedden ni'n arfer gwasgaru* twenty ten ten *neu wasgaru nitrogen plaen a does dim rhaid gwneud hynny nawr ...Mae'r tir yn edrych lawn cystal ag oedd e pan oedden ni'n gonfensiynol. Mae'r buchod yn edrych yn hapusach ac yn iachach, dwi'n credu, llai o broblemau traed, mae'r lloi'n fwy iach. Mae yna lawer iawn o fanteision, ac mae'r bywyd gwyllt yn fwy amlwg. Felly dwi'n credu bod y peth yn gweithio yn sicr. (WRO 42)*

Er bod yna rai a ddangosodd ddiddordeb clir mewn materion amgylcheddol ehangach, a phryderon ynghylch cynhyrchu cynaliadwy fel y ffactor allweddol oedd yn eu sbarduno, roedden nhw yn y lleiafrif yn bendant. Er hynny, o gofio'r diddordeb cynyddol mewn cynhyrchu bwyd yn lleol a thyfu'ch bwyd eich hun, dadleuir y gallai dechreuwyr newydd sy'n dilyn cymhellion ideolegol fod ar gynnydd (ELC 2011). Amlinellwyd dealltwriaeth a chymhellion amgylcheddol o'r fath fel a ganlyn:

*Braw mawr ynghylch yr hyn roedd rhai o'r amaeth-fusnesau'n ei wneud ac ansawdd peth o'r bwyd roedden ni'n ei gael. Ansawdd bwyd yw'r pwysicaf … ac mae'r rhestr o gemegau mewn bwyd wel dyw e ddim yn gwneud niwed y gallwch chi ei weld ond dydyn ni ddim yn gwybod yn iawn ydyn ni … Mae llwyth o blant yn dioddef ag asthma nawr a pam maen nhw'n dal y mathau o glefydau alergaidd yma … dydyn ni ddim yn gwybod a dweud y gwir ai mwg petrol neu gemegau yn eu bwyd neu beth yw e. Cyfuniad efallai … (WRO 69)*

Roedd eraill a oedd yn fwy gofalus ynglyn â galw eu hunain yn gadwraethwyr neu'n amgylcheddol eu gogwydd yn dal yn dangos parch i'r amgylchedd, sy'n awgrymu bod yna lawer o le i ennyn mwy o ddiddordeb ystod eang o ffermwyr yn y maes hwn. Er enghraifft:

*Ffermwr ydw i, dwi am gynhyrchu bwyd a dwi am gynhyrchu stoc dda ac eto i gyd dwi'n hoffi gweld y bywyd gwyllt... Fyddwn i ddim yn mynd o amgylch y fferm a dweud os torrwch chi'r gwrych yma mi wnewch chi ddau gae yn un a... dyw hynny ddim lles i mi, dwi'n credu ei bod yn well gen i weld mwy o ffermydd llai nag o ffermydd mawr. Os bydd ffermwr mawr yn prynu fferm arall mae am geisio troi dau gae neu dri yn un cae am fod peiriannau mawr ganddo ac yn cael anhawster i droi corneli yn y caeau bach ond mae'n well gen i weld mwy o ffermwyr, a ffermydd llai. (WRO 118)*

*Wna i ddim galw fy hun yn gadwraethwr… Ond dwi'n cymryd y peth i ystyriaeth, dwi wedi dod o hyd i nythod gylfinirod a chornicyllod ac os dwi'n crwydro cae yn y gwanwyn dwi'n marcio nhw, a i ddim drostyn nhw (yn y tractor)… ar ddiwedd y dydd dyna ydy cadwraeth, rydych chi'n parchu'r adar neu beth bynnag os ydych chi'n gwybod ei bod nhw yna. Pan fydda i'n gwneud gwaith yn y cae dwi'n ceisio chwilio amdanyn nhw …(WRO 59)*

Er gwaethaf y cydymdeimlad amlwg hwn, mae'n glir y gallai rhagor gael ei wneud i wella gwybodaeth ecolegol a chyfleu nodau cadwraeth yn fwy effeithiol. Er enghraifft, yn aml roedd gan yr ymatebwyr ddealltwriaeth gymharol simplistig bod cadwraeth yn golygu plannu coed, heb ddeall bod angen mathau eraill o reoli cynefinoedd. Yn benodol, roedd tir a oedd yn cael ei weld fel 'tir garw' yn aml yn cael ei weld fel tir annymunol, sy'n cyd-fynd â stereoteipiau cyffredin ynghylch ffermwyr sydd am gadw eu tir yn daclus ac osgoi plâu. Hefyd, bernid bod mannau a oedd

wedi gordyfu â mwyaf a rhedyn y flêr, heb fanteision i'r amgylchedd. Ar y llaw arall, roedd gwrychoedd yn cael eu canmol ac yn aml yn cael eu gweld fel rhywbeth i ymfalchïo ynddo os oedd y ffermwr wedi bod wrthi'n plygu ac yn cynnal y gwrych, sydd unwaith eto yn cyd-fynd â'r pwyntiau uchod bod angen i gadwraeth gyd-fynd ag awydd ffermwyr i fod yn fedrus ac yn gynhyrchiol (Burton et al. 2008).

Roedd tir anghynhyrchiol, na allai gael ei ddefnyddio at amaethyddiaeth, bron bob amser yn cael ei alw'n dir gwastraff ac roedd hwn yn iawn i'w 'adael' at gadwraeth, sef pwynt a ailadroddwyd hyd yn oed gan ffermwyr a oedd yn gogwyddo'n bendant at gadwraeth, er eu bod yn sylweddoli pa fathau o gynefin a rhywogaethau a oedd yn cael eu cynnal yn y 'tir gwastraff'. Roedd y syniad o droi'r tir amaethyddol gorau yn dir cadwraeth yn cael ei wrthod gan bawb, ar roedd hyd yn oed yr amgylcheddwyr a oedd yn cael eu sbarduno gan ideoleg yn pwysleisio bod angen bod yn 'economaidd' ac yn 'ymarferol' yn eu dulliau ffermio:

> *Na…daethon ni lawr yn go galed ar y swyddog pan ddywedodd hwnnw ei fod am roi peth o'r tir i mewn, dim ond un fuwch arno ar adegau penodol yn y flwyddyn. Ac a dweud y gwir roedd y mab yn gryd iawn arno ac yn dweud bod hi ddim yn economaidd cael dim ond y ddwy fuwch yn pori'r cae...Ac a dweud y gwir mi gytunodd, nad oedd hi'n economaidd. Ac mi ddaeth i lawr a dweud bod y peth yn chwerthinllyd, felly aethon ni ddim am yr opsiwn hwnnw. Achos mae'n rhaid ichi fod yn economaidd, rhaid ichi wneud arian wrth ffermio, allwch chi ddim gadael i'r tir fynd yn segur. (WRO 42)*

Nid yw'n syndod bod yna ymatebwyr o hyd a oedd yn dweud eu bod am barhau i gynhyrchu mewn modd arddwys, er mwy cymharol ychydig oedden nhw, gyda'r mwyafrif yn cydnabod bod angen cynaliadwyedd ochr yn ochr â thargedau cynhyrchu. Er hynny, cydnabyddir ei bod yn anodd amodi'r gosodiadau hyn, gan nad oedd yr astudiaeth hon yn gwneud unrhyw waith monitro ecolegol.

Roedd yn amlwg hefyd fod rhai cynhyrchwyr arddwys a oedd yn heneiddio, a heb olynydd, yn bur fodlon cae eu talu i wneud gwaith cadwraeth a dweud gwir, ar ôl iddyn nhw ei ystyried am ychydig.

**Crynodeb: roedd rhai lefelau ymgysylltu a lefelau gwybodaeth da iawn ynglyn â'r amgylchedd, sy'n awgrymu bod yna sail dda ar gyfer rhagor o gyfathrebu ac ymgysylltu. Er y cydnabyddir bod rhai rhwystrau diwylliannol i'w cael, er hynny mae angen dybryd am gyfathrebu mwy effeithiol, i annog a helpu ffermwyr ac i greu gwell dilysrwydd tybiedig i nodau'r cynlluniau.**

## Ymgysylltu â Chadwraethwyr

**Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â mynegi amcanion cadwraeth yn wael i ffermwyr, ac yn myfyrio ar densiynau rhwng cadwraethwyr a ffermwyr sy'n amharu ar waith i gyflwyno cynlluniau'n effeithiol.**

Yn benodol, tynnwyd sylw at yr ysgogiad i ddadstocio mwy a mwy ar dir uchel fel achos cynnen allweddol. Mae hyn yn adeiladu ar y pwyntiau cynharach am opsiynau rheoli, ond nid yw'n unigryw i Glastir, gan ei fod yn fanyleb sydd wedi datblygu dros y deng mlynedd diwethaf. Ymhellach, asgwrn y gynnen yn hyn o beth yw nid dim ond taro cydbwysedd rhwng cadwraeth a chynhyrchu bwyd, ond cyfathrebu, a hynny yn yr ystyr nad yw'r ffermwyr yn deall pam y gofynnir iddyn nhw ildio cymaint o stoc, am nad ydyn nhw'n gweld y manteision cadwraeth – *am fod y rheiny heb eu dangos iddyn nhw*.

I fod yn glir, dydyn ni ddim yn awgrymu yr hoffai ffermwyr stocio mor ddwys ag y bo modd. Roedd yr ymatebwyr i gyd yn gadarnhaol ynghylch effaith dileu taliadau y pen, o gofio'r manteision ar gyfer iechyd eu stoc a'r cynnydd yn ansawdd y cynnyrch roedden nhw'n ei werthu. Yn hytrach, at ei gilydd roedd yr ymatebwyr yn awgrymu bod lefelau stocio wedi gostwng i lefel gynaliadwy ar ôl diwedd taliadau y pen, ond eu bod wedi'u gostwng eto drwy gynllun Tir Gofal i lefelau anghynaliadwy a bod y problemau hyn bellach yn cael eu gwaethygu drwy'r cynllun Glastir. Yn fwy critigol roedden nhw'n teimlo bod y rhesymau dros y lefelau stocio hyn heb gael eu hesbonio iddyn nhw, ac nad oedd y manylebau rheoli yn gwneud synnwyr. Mae'r dyfyniad a ganlyn yn dangos y tensiynau hyn:

> *Dwi'n gallu ei weld yn dechrau mewn rhai mannau mae'r grug braidd yn hir mewn mannau ac rydyn ni wedi siarad am y peth gyda nhw ac a ydyn nhw am ei losgi fe neu beidio a dwi ddim wedi gwthio'r peth yn ormodol a dweud y gwir... Ond petaen nhw am atal y defaid rhag cerdded yno o gwbl, pa mor bell maen nhw am i'r grug fynd? Dwi'n gwybod bod un darn ar y top, 900 o erwau yna, ac roedden nhw am i'r ffermwr bori 50 o famogiaid arno doedd hi ddim yn werth iddo roi 50, crynhoi 50, felly does dim byd yna nawr. Wel dwi ddim yn gwybod pa mor bell maen nhw am i'r grug yna dyfu. (WRO 104)*

> *Peth arall yw pan fyddwch chi wedi mynd â'r defaid i ffwrdd yna mae'r tir wedi'i golli am byth mewn ffordd achos mae llawer o fynyddoedd lle dydyn nhw ddim yn rhoi defaid ragor, mae'r ffermwyr jyst, dyw hi ddim werth rhoi defaid a gweld y lle'n troi'n jyngl ….allwch chi mo'i reoli fe heb dda byw achos does dim ots beth rydych chi'n ceisio'i gadw neu ei arbed mewn ffordd – boed grugieir neu beth bynnag, mae arnyn nhw angen gwahanol lystyfiant fel grug er mwyn goroesi, ac maen nhw'n gorfod rheoli'r tir ond os nad oes stoc gyda chi allwch chi mo'i reoli. (WRO 59)*

Testun pryder yw bod trafodaethau â chadwraethwyr hefyd yn awgrymu bod y lefelau stocio'n rhy isel ac yr hoffen nhw weld rhagor o stoc ar y bryniau. Gan hynny, mae'n ymddangos bod angen deialog fwy effeithiol am beth yw rheoli dymunol.

Roedd y diffyg cyfathrebu hwn yn thema gyffredin yn y cyfweliadau, gan ddangos gwir densiwn rhwng cadwraethwyr a ffermwyr y mae'n rhaid ei ddatrys os yw mesurau amaeth-amgylcheddol am gael eu symud ymlaen.

Yn benodol, nodwyd bod yna fwy na dim ond diffyg cyfathrebu, ac na allai'r cadwraethwyr esbonio manylebau pan ofynnwyd iddyn nhw, neu eu bod yn syml yn cyfeirio at eu llawlyfrau Tir Gofal yn hytrach na chysylltu â lleoliadau penodol, nad yw'n dangos gwybodaeth *ymarferol* gref o'r manylebau cadwraeth. Er enghraifft cafwyd y sgwrs a ganlyn â ffermwr a ddangosodd ddirnadaeth glir iawn o ecoleg a botaneg, ac a oedd yn

eglur yn credu nad oedd y cadwraethwyr wedi ystyried sut y byddai'r dulliau rheoli arfaethedig yn effeithio ar y safle'r ffermwr:

> *CYF: Sut gwnaethon nhw esbonio hyn [yr angen i ddadstocio] i chi?*
>
> *YMAT: Wel, dyna beth roedden nhw am inni wneud os oedden ni am fynd i mewn i Dir Gofal.*
>
> *CYF: O'r gorau…ond wnaethon nhw esbonio hynny yn nhermau'r math o gynefin roedden nhw'n ceisio ei greu a sut byddai lleihau'r stoc yn arwain at hynny?*
>
> *YMAT: Wel dwy ddim yn credu bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y cynefin … wel mae'n debyg bod diddordeb ganddyn nhw ond doedden nhw ddim fel petaen nhw'n sylweddoli os torrwch chi nifer y defaid na fydd yna ddim byd yna heblaw pethau sy'n dwlu tyfu, chi'n gwybod mwyar...rhedyn…*
>
> *CYF: Oeddech chi'n teimlo tybed eich bod yn gallu cael sgwrs dda gyda'r Swyddog Prosiect am beth roedden nhw'n ceisio'i gyflawni?*
>
> *YMAT: (Gan ochneidio) … Y cyfan roedden nhw eisiau oedd torri nifer y defaid a'r gwartheg oedd yn mynd i fyny yno a phetaen ni wedi mynd i mewn i Dir Gofal am bum mlynedd rwy'n credu y byddai gormod o niwed wedi'i wneud … a byddai wedi cymryd amser eithriadol o hir i'w adfer i fel roedd e o'r blaen …(LIFE 3).*

Ceir adlais o'r un broblem mewn mannau eraill, gan anelu'r feirniadaeth yn fwy uniongyrchol at y rhai sy'n llunio'r polisïau:

> *YMAT: Roedd llawer o fanion bethau oedd ddim yn gwneud synnwyr a sy dal ddim yn gwneud synnwyr, wel os dewiswch chi'r pori cyfyngedig …bwriwch ein bod ni'n dewis gostwng y stocio ar y bryn …dim ond pedair mamog gawn ni bori yno yn y gaeaf, a 65 yn yr haf sy'n uffernol o wirion a ddim yn gwneud dim blydi synnwyr, byddai'r mynydd yn troi'n dir gwyllt mawr drwy ei bori ar y lefel yna, un enghraifft yw hynny chi'n gwybod...*
>
> *CYF: Wnaethon nhw esbonio ichi'r hyn roedden nhw'n ceisio'i gyflawni a pham roedd rhaid ichi ostwng cymaint â hynny ar y stoc?*
>
> *YMAT: Y cyfan ddwedson nhw, mai'r llywodraeth oedd y tu ôl iddo … a bod y gwleidyddion i gyd fel pypedau ac yn ymateb i'r hyn mae pobl yn ei ddweud wrthyn nhw a bod yna broblem fawr gyda gorbori ddeng mlynedd yn ôl ac wedyn "iawn mi wnawn ni rywbeth am hyn ac mi dorrwn ni'r stocio", ond dydyn nhw ddim wedi edrych yn gall ar y peth. (CMI 1)*

O gofio'r tensiynau ynghylch y manylebau penodol hyn bu'n anodd i'r cadwraethwyr eu hegluro eu hunain i'r ffermwyr. Er hynny, dadleuir hefyd fod y mathau hyn o anhawster yn gyffredin ar draws ystod o opsiynau rheoli gwahanol. Er enghraifft, mae'r dyfyniad isod yn dangos nad yw'r amcanion yn cael eu hegluro hyd yn oed ar dir isel, ac unwaith eto i ffermwr oedd â diddordeb a chydymdeimlad mawr tuag at gadwraeth:

> *Mae'r caeau i fod i fynd o gaeau wedi'u lled-wella i gaeau heb eu gwella, dyna'r categori. Does gen i ddim syniad beth yw ystyr hynny achos dwi wedi holi, beth ydych chi'n ceisio cael mwy ohono a dwy ddim yn cael llawer o ymateb. Wel, mae e'n gallu darllen yr hyn sydd yn y llyfr i mi. Ond beth yw, achos dwedes i, wel, beth yw'r nod yn y pen draw? Y nod yn y pen draw yw na ddylwn i ddefnyddio gwrtaith o unrhyw fath, ddim hyd yn oed tail o'r buarth. Ond beth maen nhw am dyfu yno? Mae fel pe na baen nhw'n gwybod hynny a dweud y gwir … (WRO 45)*

Ar ben y diffyg esboniadau cafwyd aml i

gyfeiriad at agwedd wael, a drwgdeimlad rhwng y cadwraethwyr a'r ffermwyr:

> *Agwedd y rhan fwyaf o gadwraethwyr yn y gorffennol oedd mae gennyn ni radd yn hyn, ac yn gwybod am beth rydyn ni'n sôn. Ffermwr ydych chi, nid rhywun proffesiynol, dydych chi ddim yn gwybod am beth rydych chi'n sôn. Ond mae'n anodd llyncu hyn'na, ac mae ffermwyr wedi bod yn byw rywle ers degau o flynyddoedd ac mae ganddyn nhw syniad eitha da o'r hyn sy'n mynd ymlaen yno. Ar ddiwedd y dydd, mae ffermwyr yn bengaled a ddim yn hoff iawn o glywed pobl yn dweud wrthyn nhw am beth i'w wneud â'u tir eu hunain, ond petai pobl yn dod acw ac yn gofyn eu barn efallai y bydden nhw'n gwrando. Petaen nhw'n rhoi'r amser i wrando arnyn nhw, mae'n debyg y byddai pethau ychydig yn fwy llyfn, i gael pethau drwodd … beth sy'n tueddu i ddigwydd yw, er enghraifft maen nhw'n dod â chynllun allan ac yn dweud rhown ni x o arian ichi, ac mae'r ffarmwr, am nad oes neb wedi trafod y peth gydag e, mae e'n dweud iawn fe wnaiff y gwaith yn yr ystyr ariannol, ond dyw ei galon ddim yn y prosiect. (WRO 162)*

Yn y dyfyniad hwn mae'n glir y byddai'n llawer gwell gan y ffermwyr gael rhagor o wybodaeth, mwy o ddeialog, ac yn sicr mwy o barch. Mae beirniadu'r awgrym y dylen nhw wneud rhywbeth am arian, heb ymdeimlad o pam mae hynny'n werth ei wneud, ar lefel ddyfnach, hefyd yn bwynt hollbwysig, yn arbennig yng ngoleuni'r sylwadau cynharach am yr angen i greu polisïau da sy'n dderbyniol i ffermwyr, heb yr angen i'w llwgrwobrwyo i ymgymryd â dulliau rheoli sydd fel arall yn mynd yn groes i'r graen iddyn nhw. Mae'r angen am bolisi mwy 'synhwyrol' yn cael ei ategu ymhellach yn y dyfyniadau a ganlyn:

> *Y dyddiadau, o ydyn mae'r dyddiadau yn dal yn broblem achos chewch chi ddim gweithio gyda natur, a fel gwyddoch chi yn y ddwy flynedd dwetha gawson ni eira am gyfnod mor hir, a llwydrew am ba mor hir, ac maen nhw'n dweud wrthon ni, ie, ond mae'ch dyddiad chi'n dweud hyn. Ac mae dyn yn meddwl, ond dyw'r tir ddim yn dweud dim byd o'r fath. Ond byw wrth y llyfr maen nhw. Ac anwybyddu natur. Ac mae'n hurt, dwi'n credu hynny – rwy'n gwybod bod rhaid cael rheolau neu sut gallech chi redeg y peth fel arall. Ond ar ôl cael gaeaf oedd yn rhewi o ganol Rhagfyr drwodd i Chwefror...ac maen nhw'n dweud, ie, ond mae'r llyfr yn dweud ym mis Mawrth mae hyn yn digwydd …a chithau ar y ddaear rydych chi'n credu weithiau fod hyn yn hollol wirion. (WRO 45)*

> *O'n safbwynt ni yn y fan yma, rydyn ni wedi gweld llawer mwy o fanteision o'r math o ffermio sydd gennyn ni yma, gyda'r fferm gymysg, nag unrhyw beth mae'n debyg y mae'r prosiectau cadwraeth wedi'i orfodi ar Sir Fôn …Mae un enghraifft ar ochr arall yr ynys, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol … fe gawson nhw ryw flodau prin yno …mae'n amlwg eu bod nhw wedi byw yno ers cannoedd o flynyddoedd efo'r arferion ffermio dros y cannoedd o flynyddoedd. Ond dyma nhw'n penderfynu ei ffensio fo a stopio'r gwartheg rhag pori yno ac mae'r blodyn wedi darfod achos yn amlwg roedd y gwartheg wrth bori yn ei gadw fo yno. Ac felly dyna'r math o beth sy'n gwneud ichi feddwl beth ddiawl maen nhw'n wneud. (WRO 162)*

> *I fod yn hollol onest, mae'n hollol anymarferol, os na wnân nhw wella, hynny yw maen nhw, dyma'r drafferth gyda'r cynlluniau yma, maen nhw'n symud pyst y gôl. A phan ydych chi'n ffermio nid peth hawdd yw hi, allwch chi ddim dweud yn sydyn o mi wna i hyn eleni neu mi wna i'r llall y flwyddyn*

> *nesa neu yfory neu'r wythnos nesa neu beth bynnag, yn y diwedd mae angen ichi allu cynllunio blwyddyn neu ddwy ymlaen … hynny yw mae dyn yn gallu cael hyn a hyn o stoc, unedau da byw ar yr arwynebedd yma, ac yn sydyn maen nhw'n newid hyn, maen nhw am gael cyfradd stocio wahanol arno. Ac wedyn o dyw hynny ddim yn gweithio, o wel mae'n well newid yn ôl eto …ond mae'n cymryd tair neu bedair blynedd i newid yn ôl. Mae'n ddigon hawdd os mai diadell dros dro neu fuches dros dro sy gennych chi, allan â chi i brynu. Ond os ydych chi'n gofalu am statws iechyd y fuches ac yn gofalu am eich pedigri ac yn ceisio cadw sylfaen genetig eang i'ch buches, er mwyn ei chadw'n iach ac yn symud ymlaen yn hytrach na mynd yn ôl allwch chi ddim gwneud hynny. (WRO 12)*

> *Ac o fod yn organig dim ond rhai mathau o borthiant y gallwch chi eu rhoi, a does gan y rheiny mo'r atodiadau o fitaminau a mwynau yn awtomatig, ac am eich bod yn organig, y ffordd orau i wneud hyn er mwyn goroesi yn ariannol yw tyfu'ch cnwd eich hun felly rydych chi, chi'n mynd yn fwy a mwy prin o'r gwahanol fwynau a phethau achos dim ond eich porthiant chi'ch hun sy'n cael ei fwydo iddyn nhw. Felly fe fu'n rhaid imi gael eithriad er mwyn gwneud, cael gwneud mwynau yn benodol at ofynion y silwair yn lle rhoi calch ar y caeau. Sydd ychydig bach yn od fel ffordd i fynd ati …Roedd y fenyw organig yn gandryll, pam na chewch chi roi calch meddai? A dwedes i dwi ddim yn cael. Ond chi'n gweld mae hynny'n digwydd achos fy mod i yn Tir Gofal… (WRO 45)*

Yn y dyfyniadau hyn, er bod nifer o enghreifftiau gwahanol yn cael eu rhoi, mae un pryder eang ynghylch rhesymeg ac ymarferoldeb y manylebau cadwraeth yn amlwg. Yn benodol, mae yna densiwn clir ynghylch cymhwyso rheolau cyffredinol at leoliadau penodol, ond hefyd ynghylch rhoi'r rheolau ar waith yn ddall ac yn anhyblyg. Yn benodol, er bod y dyfyniadau'n canolbwyntio ar leisiau penodol, roedd y materion a godwyd yn gyffredin, ac arbenigrwydd y sylwadau a gyflwynir yw eu bod wedi dod gan ffermwyr sy'n ymwybodol iawn o'r amgylchedd ac yn flaengar iawn, sy'n atgyfnerthu'r tensiynau a amlinellwyd.

Yn holl-bwysig ddigon, cydnabyddir nad yw'r materion a godwyd yn newydd. Yn benodol, gwyddys bod problemau ynghylch dyluniad y mesurau polisi bras, a'r modd y maen nhw'n cyfateb i'r cyd-destunau lleol, fel pryder ers tro byd. Er hynny, mae'n arbennig o amlwg bod symud oddi wrth swyddogion prosiect mewn cynlluniau wedi gwaethygu'r broblem. Yn yr un modd, nodwyd bod colli'r Grwp Ymgynghorol Bywyd Gwyllt ar Ffermydd yn ddatblygiad gofidus diweddar yn y maes hwn. O ystyried y profiadau o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol a amlinellwyd, yn ogystal â thystiolaeth y grwpiau yn yr astudiaethau achos, dadleuir bod perthnasoedd gweithio cryf a chyfathrebu effeithiol yn rhan annatod o waith cadwraeth llwyddiannus, a bod angen rhoi rhagor o sylw i wella'r agwedd hon ar weithredu amaeth-amgylcheddol.

Un pwynt olaf o bryder yn hyn o beth, a welir drosodd a throsodd fel rhwystr mawr sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn llwyddiannus mewn cynlluniau, yw'r tensiwn mwy personol rhwng cadwraethwyr a ffermwyr. Nid cwestiwn o gyfathrebu gwael yw hyn, neu ddiffyg ymddiriedaeth mewn gwybodaeth, ond ymdeimlad gwirioneddol o atgasedd neu erledigaeth. Er bod yr astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar brofiadau'r ffermwyr, cydnabyddir bod llawer o enghreifftiau o fwlïo a chamymddwyn yn dechrau ar ochr y ffermwyr tuag at gadwraethwyr, sy'n awgrymu bod yna densiwn eang y dylid rhoi sylw iddo. Ar sail y profiadau a rannwyd yn y cyfweliadau, mae'n ymddangos bod ffermwyr hefyd yn dioddef ymosodgarwch, stigmateiddio a drwgdeimlad. Ar lefel ehangach, awgrymodd yr ymatebwyr fod yna ragdybiaeth yn rhy aml mai'r ffermwyr

oedd y 'dynion drwg' a bod neb yn gwrando arnyn nhw.

> *Mae llawer o bobl yn cefnu ar ffermio. Wel alla i mo'u beio nhw. Agwedd y cyhoedd yn erbyn ffermwyr. A phwy sy'n gwneud y cyhoedd fel yna, y cadwraethwyr. Cadwraethwyr. Maen nhw'n beio unrhyw beth ar y ffarmwr … Dwi'n iawn gyda chadwraeth ond mae'r bobl … does ganddyn nhw mo'r bobl iawn. Does ganddyn nhw ddim pobl ddigon gwybodus yn gwneud y gwaith. Allwch chi ddim siarad â nhw. Wnân nhw ddim gwrando. A'r ffarmwr sydd ar fai bob tro … (WRO 146).*

> *…yn anffodus, ac yn fwy nawr fod y llywodraeth wedi cymryd drosodd yn lle'r Cyngor Cefn Gwlad, mae pob ffarmwr yn cael ei weld fel dyn anonest. Felly beth bynnag mae'r ffarmwr yn ddweud, maen nhw wastad yn dweud o maen nhw allan i drio cael rhywbeth. (WRO 45)*

Testun gofid yw bod hyd yn oed y ffermwyr yng ngrwpiau'r astudiaethau achos yn teimlo nad oedd neb wedi gwrando, pan ofynnwyd am eu barn:

> *…roedden nhw am gael adborth [ar gynllun peilot Glastir] …ac yn fy meddwl i bryd hynny, ac o hyd, rhyw gynllun digon tila oedd e, ac fe gafodd hynny ei brofi yn genedlaethol gyda'r ymateb iddo fe ac fe roddes i fy sylwadau i ar y diwedd a dweud yn blwmp ac yn blaen beth roeddwn i'n meddwl a llawer o osodiadau call ac yna ymhen rhyw chwe mis wedyn cawson ni adroddiad ar yr arolwg a doedd dim sôn am fy mhwyntiau i na phwyntiau unrhyw ffermwyr eraill sy wedi dweud yr un peth. Roeddwn i'n teimlo bod hynny'n wirioneddol wael achos bod yr adborth heb fynd yn ôl i ble y dylai fod wedi mynd. (CMI 1)*

Yn hyn o beth dadleuir bod yna ddiwylliant o feio ac ymosodgarwch rhwng cadwraethwyr a ffermwyr, a hyd yn oed rhwng gwneuthurwyr polisi a ffermwyr. Er y cydnabyddir bod hwn yn faes anodd i weithio ynddo, ac yn hanesyddol bod yna dystiolaeth o gamymddwyn ymhlith ffermwyr, yn yr un modd mae'n glir nad yw parhau i stigmateiddio yn lleddfu'r sefyllfa. Ymhellach, er ei bod yn glir bod angen i'r llywodraeth fod yn gadarn wrth gynnal rheoliadau amgylcheddol, fe allai agwedd fwy calonogol a chefnogol fod yn fwy effeithiol.

O ystyried trafodaeth y llywodraeth ar ymagweddau ymddygiadol yn eu strategaeth newid hinsawdd er enghraifft, awgrymir bod llawer o'r pwyntiau a godwyd yno ynghylch yr angen am ymgysylltu clir, cyfathrebu priodol, galluogi ac anogaeth, i gyd yr un mor ddilys ym maes y polisi amaethyddol.

**Crynodeb: er bod llawer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn ac yn uniaethu'n agos â'r angen i amddiffyn yr amgylchedd, mae yna broblemau mawr ynghylch addasrwydd manylebau cadwraeth penodol sy'n awgrymu bod angen mwy o ymgynghoriadau a hyblygrwydd yn lleol. Yn yr un modd, mae yna rai tensiynau clir rhwng swyddogion cadwraeth a ffermwyr. Dydy hyn ddim yn wir drwyddi draw, a lle mae yna berthnasoedd da gwelir eu bod yn hanfodol ar gyfer prosiectau cadwraeth gan ddangos potensial a phwysigrwydd gwell cyfathrebu.**

## Taliadau am Wasanaethau Ecosystem

**Mae'r adran hon yn manylu ar i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn deall cysyniad gwasanaethau ecosystem; a fydden nhw'n fodlon symud tuag at system lle maen nhw'n cael eu talu'n fwy pendant am gyflwyno gwasanaethau o'r fath, ac a fydden nhw'n fodlon gwneud mwy o waith cadwraeth pe bai mwy o arian ar gael amdano. Trafodir hefyd y posibilrwydd o ail-lunio'r taliadau cadwraeth presennol sydd ar ffurf iawndal.**

Trafodwyd hyn gyda'r ymatebwyr ar ôl inni ymdrin â chymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ymgysylltu'n ehangach ag amcanion cadwraeth. Fel yr amlinellwyd yn y drafodaeth ar amcanion Glastir, nid peth hawdd yw cyfleu cysyniad gwasanaethau ecosystem, ac roedd holi am y posibilrwydd o gael taliadau am wasanaethau ecosystem hefyd yn peri problemau. Gan hynny, chafodd hyn mo'i drafod yr un mor fanwl gyda phob ymatebydd, a chafodd y rhai a ddangosodd fwy o ddealltwriaeth eu holi ymhellach, er mai'r cyfan a ofynnwyd i'r rhai a oedd â lleiaf o ddiddordeb oedd a fydden nhw'n fodlon gwneud mwy o waith cadwraeth petaen nhw'n cael mwy o dâl amdano.

### Dealltwriaeth o Wasanaethau Ecosystem

Drwyddi draw, roedd yn glir nad oedd cysyniad gwasanaethau ecosystem yn gyfarwydd i'r un o'r ymatebwyr ac eithrio'r rhai a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaethau achos. Er hynny, ar ôl cysylltu gwasanaethau ecosystem â lleddfu newid hinsawdd, dal a storio carbon, rheoli ar raddfa dalgylch, a chysyniad ehangach o gadwraeth y tu hwnt i reoli bioamrywiaeth, roedd yn ymddangos bod cyfran fawr o'r ymatebwyr yn fwy cyffyrddus gyda'r cysyniad.

O gofio bod gan y ffermwyr a fu'n rhan o brosiectau'r astudiaeth achos well ymgysylltiad â chysyniad gwasanaethau ecosystem, mae yna awgrym y gallai prosiectau peilot sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dulliau i gyflwyno gwasanaethau ecosystem fod yn fuddiol o ran datblygu ymgysylltiad yn ehangach. Fel y tanlinellir mewn trafodaethau yn nes ymlaen, bernir bod prosiectau peilot yn llwyddiannus am fod y ffermwyr yn gallu dod i weld sut mae'r opsiynau rheoli'n gweithio ac yn effeithio ar arferion y fferm.

Yn benodol, mae prosiect LIFE wedi dangos cystal derbyniad y gall math o reolaeth cadwraeth sydd fel arall yn ddadleuol ei gael gan y gymuned amaethyddol (sef adfer gorgorsydd). Ymhellach, o ganlyniad i'r gwaith hwn, nododd cyfran uchel o ymatebwyr y Canolbarth a'r Gogledd eu bod wedi clywed am y prosiect ac oherwydd hynny wedi ymddiddori yn y syniad o gau ffosydd er mwyn atal llifogydd, gwella ansawdd dwr a lleihau carbon.

Er nad oes yna ddealltwriaeth dda o wasanaethau ecosystem, roedd llawer o ffermwyr yn deall yr angen i leddfu newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu, ac wedi clywed llawer amdano.

Roedd cysylltiad rhwng yr ymwybyddiaeth hon a'r cyfryngau poblogaidd, y papurau a rhaglenni teledu, ond cysylltiad hefyd ag uwchfarchnadoedd a phrynwyr oedd wedi gofyn am wybodaeth am ôl troed carbon y fferm ei hun. Er bod yr ymatebwyr yn dangos diddordeb yn yr wybodaeth hon, roedd yn cael ei thrafod amlaf mewn perthynas â'r manteision ariannol i'r fferm yn sgil ychwanegu gwerth i'r cynhyrchion, a allai gael eu labelu â'r geiriau 'carbon isel' neu 'carbon niwtral'. Un broblem oedd bod llawer o'r ymatebwyr o'r farn mai marchnad gyfyngedig oedd hon ac nad oedd cymaint â hynny o ddiddordeb gan yr uwchfarchnadoedd, a oedd wedyn yn lleihau diddordeb y ffermwyr eu hunain yn y materion hyn.

Yn ychwanegol, awgrymwyd nad oedd ymarferion archwilio carbon o reidrwydd yn grymuso ffermwyr i wneud unrhyw beth yn wahanol, dim ond amlygu problem yr oedden nhw'n gwybod amdani yn barod. Mewn disgrifiad o ymarfer archwilio carbon a gynhaliwyd gan Fenter Mynyddoedd Cambria, mae'r tensiynau hyn yn glir:

*Dwi'n meddwl ei bod yn eitha diddorol... ond i lawer o bobl a wnaethon nhw elwa ohono, dwi'n amau. Chi'n gwybod yn y bôn aethon ni nol i'r Co-op a sôn am y posibilrwydd y gallai ambell fferm fod yn garbon niwtral neu negyddol neu beth bynnag, a'u barn nhw oedd, mae yna restr o bwysigrwydd ac ar hyn bryd mae lawr tua degfed, mae'n cripian i fyny i ryw seithfed, ond all hynny gael premiwm, ddim a deud y gwir … (CMI 2)*

Ar sail y ffermwyr a oedd yn rhan o brosiect LIFE, roedd yn amlwg bod angen rhagor o wybodaeth hefyd am sut mae rheolaeth yn effeithio ar ôl troed carbon y tir. Ac er y cydnabyddir bod hyn yn rhywbeth y mae'r gwyddonwyr yn dal i geisio'i egluro, mae'n bwysig cyfleu canfyddiadau prosiectau fel LIFE i'r ffermwyr dan sylw, ac i'w cymunedau ehangach, er mwyn ategu'r ymdrechion hyn.

O ystyried y diffyg eglurder ymysg yr ymatebwyr ym mhrosiect LIFE, a'r agweddau negyddol a welid ymhlith y rhai yn astudiaeth achos Cambria, mae'n amlwg bod ar ffermwyr angen rhagor o gymorth i fynd i'r afael ag effaith ffermio ar lifoedd carbon.

Roedd ffermwyr yn fwy brwd o ran derbyn y ddarpariaeth ynghylch ynni adnewyddadwy. Nodir yn hyn o beth fod lefelau uchel y cyhoeddusrwydd ynghylch y Tariffau Cyflenwi Trydan a chynnydd yn y sector ynni adnewyddadwy yn hybu gwerthiant tyrbinau a phwer yr haul wedi cael effaith fawr ac yn dangos mor gyflym y bydd ffermwyr yn ymwneud â mentrau newydd pan fydd yna enillion ariannol clir a sianeli cyfathrebu effeithiol. Yn benodol, dadleuai llawer mai gwneud eu busnes yn fwy hunangynhaliol o ran ynni oedd eu diddordeb nhw, gan ei ddiogelu rhag codiadau yn y prisiau yn y dyfodol, ond hefyd am eu bod yn defnyddio cymaint o ynni yn achos ffermydd llaeth neu ffermydd a oedd yn prosesu cig / caws ar y safle.

Un feirniadaeth olaf a gafwyd o ran newid yn yr hinsawdd oedd yr awgrym y byddai'r llywodraeth yn gwneud mwy i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy hybu bwydydd lleol a lleihau'r pwyslais ar fewnforion/allforion. Mae hyn yn cyd-fynd â chwestiynau ehangach am gyfeiriad y polisïau amaethyddol ac amgylcheddol, a drafodir isod. Mae'n holl-bwysig nodi bod hyn yn cael ei weld fel pwnc emosiynol iawn gan lawer, yn enwedig felly o gofio'u rhwystredigaeth ynghylch sut i ymdrin ag olion traed carbon uchel a phwysau amgylcheddol cynyddol.

*Dych chi'n sicr yn credu y byddai'n well gwneud rhywbeth eich hun ar y ffarm yn hytrach na chael … wel yn fy marn i does dim pwynt cario pethau ledled y wlad ac yn ôl heb fawr o fantais ariannol. Os oes modd gwneud rhywbeth yn rhatach yma, neu am yr un gost, yna mae'n well ei wneud e yma. Ond dwi'n credu bod y Llywodraeth wedi achosi cymaint o'r problemau eu hunain drwy or-reoleiddio popeth. Un enghraifft amlwg yw'r lladd-dai; maen nhw wedi cau'r rhai bach i gyd, felly nawr mae'n gwartheg yn mynd i bob rhan o'r wlad, i'r Alban. Wyddoch chi, faint o CO2 mae hynny'n ei greu, mae'n hurt. (WRO 162)*

*…chi'n gwybod … mae yna effaith o ddod â bwydydd i mewn o'r holl wledydd hyn, meddyliwch am y tanwydd a phethau a beth mae'n ei wneud i'r amgylchedd a'r teithio a dod â bwyd i mewn. Y peth sy'n dân ar fy nghroen i yw gweld potelaid o ddwr wedi dod o Ffrainc a dych chi'n meddwl wel mae gennyn ni ddigon o ddwr yn y wlad yma pam dod â'r stwff draw yma mewn lorïau a phethau. Dwi'n credu y dylen ni fod yn cefnogi pethau lleol gymaint ag y gallwn ni a dweud y gwir. (WRO 17)*

Yn gyffredinol, un ffactor sy'n ddolen gyswllt rhwng y materion hyn oedd angen yr ymatebwyr i weld cysylltiad rhwng cysyniad gwasanaethau ecosystem a'u

maes nhw eu hunain, neu rywle gerllaw cyn iddyn nhw ymgysylltu ag ef. Doedd yna ddim derbyniad da i syniadau mwy haniaethol am sut y gallai rheolaeth eu fferm nhw effeithio ar y blaned, neu hyd yn oed dalgylchoedd cyfagos. Roedd yn anodd deall ac ymboeni am bethau na allen nhw mo'u gweld â'u llygaid eu hunain. Dyma broblem sy'n amlwg ar draws adran eang o'r gymdeithas, o ran ymwneud â'r risg o newid yn yr hinsawdd, ac mae'n amlwg nad yw'n gyfyngedig i ffermwyr.

Pwynt perthynol arall yw'r ffordd y byddai sgwrs am wasanaethau ecosystem yn aml yn troi at werthfawrogiad ehangach y cyhoedd tuag at ffermwyr a'u rôl fel stiwardiaid cefn gwlad. Yn hyn o beth, roedd syniadau traddodiadol am estheteg tirlun amaethyddol yn arbennig o amlwg. Yn benodol, dadleuai'r ymatebwyr fod gan ffermwyr rôl allweddol i gadw cefn gwlad yn daclus ac yn hygyrch i gerddwyr a thwristiaid eraill.

**PES a Blaenoriaethau Cyferbyniol**

Yn olaf, un o'r pwyntiau mwyaf diddorol a godwyd yn y sgyrsiau hyn oedd ei bod yn gyffredin gwrthod gwneud gwaith cadwraeth yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'n peryglu hyfywedd hirdymor cynhyrchu bwyd ar y tir hwnnw, *hyd yn oed* petaen nhw'n cael iawndal / gwobrwyon ariannol.

Dim ond ffermwyr a oedd yn ymddeol, a oedd heb gynlluniau olynu, neu a oedd wedi dangos fel arall fod ganddyn nhw fwy o ddiddordeb mewn busnes nag mewn ffermio a oedd yn fodlon tynnu tir yn gyfan gwbl allan o gynhyrchu. Ychydig o dan chwarter o'r ymatebwyr oedd y rhai a oedd yn fodlon gwneud gwaith amgylcheddol fel hyn.

Ond doedd eraill a oedd yn eu gweld eu hunain fel ffermwyr yn bennaf, hyd yn oed os oedd ganddyn nhw ogwydd pendant tuag at fusnes ac agwedd flaengar yn eu dulliau ffermio, ddim yn fodlon mentro hyfywedd hirdymor y fferm. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai a oedd â theulu, sy'n dangos dimensiwn diddorol yn eu ffordd o wneud penderfyniadau.

Yn hyn o beth dylid nodi na roddodd y cyfwelydd unrhyw amodau ymlaen llaw o ran y math o daliadau am wneud gwaith cadwraeth nac o ran eu parhad, felly roedd unrhyw bryderon a gododd yn deillio o sut roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'r taliadau'n gweithio. Yn yr un modd, cydnabuwyd nad oedd rhaid i daliadau am wasanaethau ecosystem olygu tynnu'r tir yn llwyr allan o gynhyrchu bwyd, er ein bod wedi ystyried y senario hwn yn agored er mwyn cael darlun cliriach o flaenoriaethau'r ffermwyr. Ceir dyfyniadau o'r trafodaethau hyn isod:

> *…mae'n bur anodd, rhaid ichi wneud penderfyniadau busnes ar ddiwedd y dydd a phan dych chi'n cael cynnig i dynnu defaid oddi ar y bryniau … a chael arian am ostwng y nifer mae'n anodd iawn mynd yn erbyn hynny o safbwynt busnes … ond pa mor hir allwch chi wneud y penderfyniadau busnes byrdymor yma ar draul y tymor hir. Hynny yw efallai y byddai ecolegydd yn dweud mai newid cadarnhaol yw e ond wn i ddim dwi ddim yn credu mai felly y byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr yn ei gweld hi …ar ôl ichi gyrraedd rhyw bwynt allwch chi ddim adeiladu nôl i fyny ac os yw'r borfa'n rhy arw iddyn nhw bori yn y lle cynta mae bron yn amhosibl. (CMI 2)*
>
> *CYF: Beth wnaech chi petaen nhw am eich talu am ei reoli at gadwraeth yn unig, am ofalu am ansawdd y dwr? Ydy hynny'n rhywbeth y byddech chi'n fodlon ei wneud?*
>
> *YMAT: Na.*
>
> *CYF: Iawn, pam lai? Pe bai'r pris yn iawn?*
>
> *YMAT: Ie, na y peth yw, ffermwr ydw i ynte? Anifeiliaid, dwi wrth fy modd ag anifeiliaid a dyna hi … ac yn enwedig fel y genhedlaeth nesa, fydd dim diddordeb ganddyn nhw ynddo, na… A fyddai hi ddim yn gweithio ac ymhen deng*

*mlynedd byddai'r lle'n llanast … byddai'n gymaint o lanast nes allech chi mo'i droi yn ôl, na (LIFE 1)*

*CYF: Pe bai pobl yn cael tâl am y gwasanaethau amgylcheddol roedden nhw'n eu rhoi, fel ei bod yn debycach i …symud pobl allan o'r meddylfryd yma bod angen ichi ffermio … i rydyn ni'n mynd i roi tâl uniongyrchol ichi am dynnu hyn a hyn o garbon allan o'r atmosffer, ydych chi'n gwybod beth sy gen i?*

*YMAT: Na, dwi ddim yn credu mai dyna sydd eisiau. Na ac mae'n job esbonio beth dyn ni eisiau a dweud y gwir …ond na y peth yw, maen nhw'n dweud wrthon ni drwy'r newyddion a'r papurau drwy'r amser fod yna brinder bwyd am fod ymhen X o flynyddoedd, ugain mlynedd neu ddeng mlynedd ar ugain … a'r hyn sy'n poeni fi yw pan ddaw hynny …pwy fydd yma i ffermio fe ac o ran y prinder bwyd, fydd yr allyriadau carbon a chadwraeth yn dal yn flaenoriaeth neu ai cynhyrchu bwyd fydd y flaenoriaeth? Wn i ddim…*

*CYF: Felly dydych chi ddim yn credu y byddai pobl yn gweld y gwasanaethau amgylcheddol ffel ffordd o arallgyfeirio?*

*YMAT: Fe allech chi gael un neu ddau, dwi'n siarad â chi fel rhywun sydd â phedwar o feibion sydd am gael y ffarm …dwi ddim yn siarad amdana i sydd am dorri nôl ar y gwaith achos fy oed i. Pe na bai'r meibion gen i yna byddwn i efallai, ie man a man i mi fynd am bob ceiniog alla i ei gael am wneud dim byd ond nid dyna beth mae'r bechgyn am wneud. (LIFE 1).*

*Mae rhai pobl … rhowch chi ddigon o arian iddyn nhw ac mae'n debyg y bydden nhw'n mynd i mewn iddo ond hefyd maen nhw eisiau cynhyrchu bwyd on'd ydyn. Petai e'n talu mwy mae'n siwr y byddai mwy o bobl â diddordeb ynddo, mae'n anodd dweud a gan fod y ffermwyr yn mynd yn hyn efallai y bydd llawer ohonyn nhw'n gweld y peth fel ffordd o gael tamaid o bensiwn i lawer ynte, fe allen nhw gael, efallai y byddai gan y ffermwyr hyn ddiddordeb yn hynny. Ond mae'r rhan fwyaf o ffermwyr dwi'n credu eu bod nhw am gynhyrchu bwyd on'd ydyn a dyna'r prif beth maen nhw am ei wneud yw cynhyrchu bwyd, dwi'n credu eu bod nhw'n teimlo ychydig bach bod talu am bethau amgylcheddol yn wastraff arian mewn ffordd …, dwi'n meddwl yn sicr fod angen cydbwyso'r cyfan …ond wn i ddim, wna i ddim teimlo'r un fath am adael y caeau heb wneud dim byd â nhw a pethau. Wn i ddim, mae fel petai'n wastraff mewn ffordd am nad ydyn nhw'n cynhyrchu dim byd. (WRO 17)*

*Yn bendant, yn bendant mae yna rannau … wyddoch chi dyw tir sâl ddim yn werth ei ddefnyddio at dda byw wel …dwi'n credu ei bod yn ddigon teg cael peth ohono ond [saib] wyddoch chi petai pawb yn gwneud yr un fath byddai'n anobeithiol ynte? Byddai'r wlad gyfan mewn picil yn y diwedd oni fyddai?...Pe bai popeth yn tyfu'n wyllt byddai yna, mae'n braf gweld y caeau glas …Pe bai poeth yn mynd yn wyllt wedyn byddai'n llanast oni fyddai? (WRO 179)*

*Mae gen i dir beth bynnag reit lawr ar bwys yr afon, dim ond tamed bach ond mae yna rywfaint, dydyn ni ddim yn ffermio hwnnw o gwbl... sy'n gwbl wyllt...ac yn hyfryd, ond dyw e ddim yn anferth a dyw e ddim yn y cynllun o gwbl does wnelo fe ddim byd â'r cynllun o gwbl, na. Ond ie. Ond fyddwn i ddim yn hoffi gweld y stwff rydyn ni'n drafod nawr [tir mwy cynhyrchiol] yn troi nôl at natur yn llwyr. Achos byddai hynny'n aneconomaidd. (WRO 42)*

*CYF: Fyddech chi byth yn ystyried troi'r tir ymhellach at gadwraeth pe bai'r pris iawn yn cael ei dalu...?*

*YMAT: Na, i fod yn onest na ... Mae dyn yn dod i wybod am, chi'n gwybod, rheolau penodol a pethau felly y plannu coed, y plannu coed dan Dir Gofal, ie er bod dyn yn cael ei dalu am x o flynyddoedd wedyn mae yna gyfraith i'ch atal chi rhag troi nôl at laswellt, felly yn y bôn ar ôl ichi lofnodi'r cytundeb fydd hynny byth yn troi nôl, chewch chi byth troi hwnnw nôl yn system tir glas …(CMI 2)*

Yn gyffredinol roedd yn amlwg bod ennyn diddordeb ffermwyr yn golygu mwy na dim ond talu digon iddyn nhw, ond dyfeisio system lle gallai cadwraeth weithio ochr yn ochr â thargedau cynhyrchu. Mynegwyd hyn yn eglur gan swyddog prosiect LIFE, wrth grynhoi profiadau'r prosiect:

*Mae'n golygu mwy na thaflu arian atyn nhw … Dych chi'n gwybod fe allen ni, wel fe roeson ni'r opsiwn i ychydig i bob pwrpas ac maen nhw'n dal yn credu ein bod ni'n hurt, sy'n iawn. Felly dwi'n credu mai'r flaenoriaeth yw faint o gig oen y gallan nhw ei gael nôl oddi ar y bryniau ac ym mha gyflwr mae'n dod nôl. Achos ar ddiwedd y dydd petaen ni wedi bod yn gwneud hyn a phetai rheolwr y fferm yma yn troi'n sydyn ac yn dweud "wel mae'n hwyn yn lot llai rydyn ni'n colli lot mwy ac maen nhw'n llawn trogod" yna buasai hynny'n beth blydi erchyll a byddai problemau difrifol gennyn ni petai hynny wedi digwydd. Drwy lwc wnaeth e ddim. Felly dyna'r brif broblem dwi'n meddwl. (LIFE PO)*

I gyplysu hyn â'r drafodaeth ar ddilysrwydd polisïau a chyfathrebu effeithiol yn yr adrannau cynharach, mae'n ymddangos bod y teimladau hyn yn cael eu rhannu hefyd gan rychwant eang o ffermwyr:

*Dwi'n credu ei bod yn anghywir. 'Mi ro i siec am £50 ichi', o ie, 'Dwi ddim yn credu yn y syniad ond mi gymra i'r £50'… maen nhw'n dilyn y trywydd hwnnw gan feddwl 'Mi ro i £50 ichi', ie iawn ar ôl pum mlynedd dyma chi'n meddwl 'digon o hyn'na, pan fydd hynny wedi gorffen dwi am gael gwared ar y cyfan a'i roi e nôl eto'. Mae fel yn yr wyth degau, roedd arian yn cael ei dynnu i mewn i wella'r tir, iawn cymerwn ni fe, maen nhw am roi arian inni, wedyn mae arian yn cael ei roi eto i flocio popeth i fyny, ie mi gymra i'ch arian chi … Cynlluniau bach yw'r rhain, dydyn nhw ddim yn golygu dim byd, ac ar ôl i'r cynlluniau orffen ac ar ôl i'r taliadau orffen mi aiff y ffarmwr yn ôl at sut oedd hi o'r blaen, dydych chi ddim yn datrys y peth. Beth mae angen ei wneud yw argyhoeddi'r ffermwr yn ei ben. (WRO 13).*

Yn gyffredinol, mae'n amlwg o'r trafodaethau hyn, ac o'r adrannau cynharach ar y cynllun Glastir, fod ennyn diddordeb ffermwyr yn fwy na dim ond mater ariannol.

Pwynt arall i'w ystyried mewn perthynas â darparu gwasanaethau ecosystem yw bod nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r syniad o reoli tir fel hyn, ond heb deimlo ei bod yn briodol i'w tir nhw, am ei fod yn gwrthdaro â'u dyheadau am y fferm. Ar dir uchel yn arbennig, dadleuwyd mai ffordd dda o ddefnyddio arian fyddai rheoli dwr a charbon yno, er mai anaml y cafwyd sylwadau o'r fath gan bobl a oedd yn rheoli tir uchel eu hunain. Gan hynny, awgrymir bod llawer o le i gynnwys pobl nad ydyn nhw'n ffermwyr (megis elusennau ac ymddiriedaethau cadwraeth) wrth ddatblygu'r math hwn o reoli tir.

### Ail-lunio'r Taliadau

Yn olaf, ystyriwyd posibilrwydd ail-lunio'r taliadau cyfredol fel nad oedd yna gysylltiad mwyach ag ildio incwm ond eu cyflwyno yn hytrach fel taliadau cymhelliant. Mae'r angen am newid o'r fath wedi'i danlinellu gan nifer o

wneuthurwyr polisi, ond mae'n broblemus ar hyn o bryd o gofio'r cyfyngiadau yn rheoliadau'r UE. Yn yr astudiaeth hon roedd sawl cadwraethwr o blaid newid taliadau, gan ddadlau nad oedd y system gyfredol yn gweithio, am fod angen yn aml i ffermwyr roi mwy o stoc er mwyn cynnal ansawdd y cynefin. Yn yr un modd, doedd y syniad o roi iawndal iddyn nhw ddim yn ymddangos yn synhwyrol o gofio eu bod yn aml yn cael pori da byw yn ogystal â chynnal cynefin.

Negeseuon cymysg a gafwyd gan y ffermwyr, a'r pryder pennaf oedd lefelau digonol o daliadau. Er hynny, dadleuai llawer y byddai taliadau cymhelliant yn gwella argraff y cyhoedd o'u gwaith, a'i bod yn bwysig bod y cyhoedd yn cefnogi'r ffermwyr a gwerthfawrogi'r gwasanaethau yr oedden nhw'n eu rhoi.

**Crynodeb: Gwael iawn ar hyn o bryd yw'r ddealltwriaeth o wasanaethau ecosystem ymhlith ffermwyr yng Nghymru. Ond mae prosiectau'r astudiaethau achos yn cynnig golwg bwysig ar sut i wella'r ymgysylltu drwy safleoedd arddangos a chysylltiadau ar y fferm. Bernir bod cyfleu nodau cadwraeth yn eglur yn hanfodol er mwyn sicrhau derbyniad llwyddiannus i'r cynlluniau. Er hynny, mae'n glir nad yw ffermwyr yn gyffredinol yn fodlon gwneud gwaith a fydd yn peryglu hyfywedd ffermio ar eu tir yn y tymor hir, hyd yn oed am elw ariannol yn y tymor byr. O ran llunio'r taliadau, cafwyd peth cydnabyddiaeth y byddai taliadau cymhelliant yn well, ond dim consensws clir.**

# ADRAN 6: PENDERFYNIADAU BUSNES

## Ymgysylltu â Busnes

**Mae'r adran hon yn trafod lefelau ymgysylltu'r ymatebwyr â busnes, a sut mae eu dealltwriaeth yn cyfateb i'w hunaniaeth dybiedig.**

Yn ychwanegol at y ffocws ar dderbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol a phenderfyniadau ar faterion amgylcheddol, anelwyd yr astudiaeth hon at ystyried sgiliau ac ymgysylltiad busnes ehangach ffermwyr. Ystyriwyd hyn mewn perthynas â lefelau a mathau o wybodaeth, ond hefyd yn nhermau hunaniaethau'r ffermwyr. Yn hyn o beth gofynnwyd cwestiynau am eu rolau tybiedig, ac i ba raddau yr oedd y ffermwyr yn barnu eu bod yn bobl fusnes. Yn ychwanegol, gofynnwyd am risgiau tybiedig a chynlluniau at y dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at ddibyniaeth ar y Taliad Sengl. Yn hyn o beth, roedd y trafod yn canolbwyntio ar sut roedd yr ymatebwyr yn teimlo am gymorthdaliadau.

O ran ymwybyddiaeth o fusnes, roedd yn amlwg bod hyn yn cael ei gweld yn achos cyfran fawr o'r ymatebwyr yn syml yn nhermau a oedd ganddyn nhw ddigon i dalu'r biliau. Gan hynny, er bod cyfrifon yn cael eu monitro, roedd yn glir ei bod yn beth prin i'r ymatebwyr ymwneud â rhagolygon busnes, neu hyd yn oed dadansoddi eu costau i unrhyw raddau mawr.

> *Bwrw golwg ar y cyfrifon unwaith y flwyddyn … edrych ar derfyn eich gorddrafft, dyna'r cyfan dych chi'n ei wneud. (WRO 39)*

Roedd rhai yn defnyddio cyfrifwyr, ond yn aml gwaith y wraig oedd hyn fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, yn hytrach na rhywbeth yr oedd arbenigydd yn cael ei alw i mewn i helpu ynglyn ag ef yn aml. Roedd un fferm yn rhan o'r arolwg busnes ffermydd ac roedd ganddyn nhw ddealltwriaeth glir iawn o'u costau a sut roedd eu cyfrifon yn amrywio, ond drwy siarad ag ymgynghorydd yr arolwg y gwnaed hyn yn bennaf, er eu bod wedi dysgu rhai o'r technegau dadansoddi dan sylw. Roedd eraill yn gwneud eu costau o fewn eu gwahanol grwpiau trafod, ac yn credu bod hynny'n fantais fawr, ond nid oedd yn glir a fydden nhw'n monitro'r busnes i'r graddau hyn ar eu pen eu hunain heb gymorth a phwysau'r grwp.

Yn aml, nododd y rhai a oedd yn cadw cyfrifon manwl fod hynny'n rhywbeth yr oedden nhw wedi'i ddysgu gan eu rhieni, neu yn aml iawn o weld bod eu rhieni wedi'u dal mewn dyled. Felly, roedden nhw wedi dysgu bod yn fwy gofalus a blaenweithgar ynglyn â monitro'u cyllid eu hunain. Yr unig ymatebwyr a oedd yn ymwneud â darogan busnes oedd y rhai a oedd ar fin gwneud buddsoddiad arwyddocaol, neu newydd wneud.

Roedd yn amlwg hefyd fod nifer o'r ymatebwyr fel pe na baen nhw'n gofidio, neu yn syml yn derbyn, y lefelau uchel o ddyled oedd ganddyn nhw, fel petai'n rhan arferol o fod yn ffermwr. Yn yr un modd nodwyd ymhlith y cadwraethwyr a'r swyddogion eraill a oedd yn gweithio gyda ffermwyr fod yna agwedd at reoli dyled a oedd yn peri gofid mawr.

Ar sail arolwg yr Arsyllfa yn 2010, mae'n amlwg mai dim ond 19% o ffermwyr yng Nghymru sydd â chynllun busnes, sydd eto yn ategu'r awgrym bod angen gwella gryn dipyn ar sgiliau rheoli busnes a sgiliau cyfrifyddu ffermwyr. Er hynny, mae arolwg 2010 yn dangos bod gan 50% ryw fath o arallgyfeirio.

Ymhellach, pan holwyd am eu hunaniaeth ac i ba raddau yr oedden nhw'n eu gweld eu hunain fel pobl fusnes, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu *bod* yn eu gweld eu hunain fel pobl fusnes yn bennaf, pan allen nhw fod *heb* wneud hynny rai blynyddoedd yn ôl, gan ddangos felly, y pwysau cynyddol ar ffermwyr i

wella'u ffocws busnes, pan allen nhw fod wedi parhau â'r un hen drefn. Ategir hyn hefyd yn y cynnydd yn y lefelau diddordeb mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel ffynhonnell incwm posibl, fel y trafodir yn adran 5.

> *Pe baech chi wedi gofyn imi dri deg mlynedd yn ôl … ond mae'n bendant yn fusnes bellach achos …rhaid inni wylio faint sy'n cael ei wario …rydyn ni'n debycach i gyfrifwyr bellach na ffermwyr, ie… mae'n codi braw. (LIFE 1)*

> *O mae rhaid inni fod yn bobl fusnes nawr â'r holl filiau sy'n dod i mewn a'r holl ffurflenni sy'n gorfod cael eu llenwi, mae'n rhaid inni fod yn bobl fusnes …Des i yma ym 1975 ac roedd hi'n weddol hawdd heb ffurflenni i'w llenwi. Ond wedyn daeth TAW, a'r ffurflenni … mae wedi dod o dipyn i beth on'd yw e? (LIFE 3)*

Er hynny, ac er gwaethaf y lefelau ehangach o ddiddordeb cynyddol mewn materion busnes, roedd yn glir bod grwpiau gwahanol ar gael, gyda rhai ffermwyr yn dangos lefelau is o ymgysylltiad â busnes a mwy o ddiddordeb yn y ffordd amaethyddol o fyw, fel y gwelir yn y dyfyniadau a ganlyn:

> *Dwi'n meddwl mai ffordd o fyw yw ffermio, alla i ddim siarad ar ran neb arall, ond ffordd o fyw yw hi i fi a ... heddiw dwi'n meddwl mae hwn a hwn yn dod felly iawn mi ddechreua i …a rhoi tatws mewn ... nid mater o fynd i'r gwaith am wyth o'r gloch a gorffen am bump yw hi ... chi'n teimlo, iawn dwi wedi gwneud ychydig heddiw ac fe wna i ragor wedyn ac fe gerdda i'r caeau a gwneud jobsys ac wedyn chi'n meddwl a i i gymhennu'r caeau achos mae'r ysgall yn dal iawn ... (WRO 118)*

> *Mae'n siwr eich bod yn eich diffinio chi'ch hun yn ôl mwy na'ch swydd …mae'n ffordd o fyw. Mae bod ar y tir yn golygu mwy na bod yn ffarmwr hefyd. Mae bod yn rhan o'r gymuned a'r math yna o beth yn bwysig hefyd. Mae meddiannu'r tir ar ei ben ei hun yn bwysig, a byw yng nghefn gwlad …Ges i fy ngeni a'm magu yma. Ond dwi ddim wedi bod yn ffermio erioed. Mi fues i yn y brifysgol ac yn gweithio i ffwrdd hefyd. Felly mi ddes i … gwnes i benderfyniad bwriadol i ddod nôl i'r ffarm … o ran y ffordd o fyw, y bywyd roeddwn i eisiau ac i fagu teulu a phopeth. (WRO 39)*

Gan gyfeirio'n ôl at y lefelau hyblygrwydd a drafodwyd yn adran 4, roedd yn amlwg felly fod y ffermwyr hyn, nad oedd datblygu'r busnes yn brif flaenoriaeth iddyn nhw, yn llai hyblyg am fod ganddyn nhw ymlyniad â ffordd benodol o redeg eu fferm, oedd yn eu gwneud yn llai hyblyg ac yn llai awyddus i fonitro'u costau fel prif benderfynydd y math o reoli y dylen nhw ei ddefnyddio. Yn yr un modd, gellid dweud na fyddai'r rhai sydd ag ymlyniad cryf â ffermio yn sgil y ffordd o fyw, eu rôl dybiedig, a / neu eu cariad at eu hanifeiliaid, yn gwneud penderfyniadau busnes a fyddai'n cyfaddawdu ar y blaenoriaethau hyn, hyd yn oed petai'n fwy proffidiol yn ariannol. Mae hyn yn atseinio'r drafodaeth gynharach am daliadau am wasanaethau ecosystem, ond yn yr un modd mae'n wir am fathau eraill o arallgyfeirio. Amlinellir y flaenoriaeth hon i ffermio cyn busnes yn y dyfyniad isod:

> *Roeddwn i mewn sioe garafannau yn Amwythig … a dyma berchennog y parc yn dweud wrtha i, 'ydych chi'n gwybod nad dynion busnes yw ffermwyr, maen nhw'n anobeithiol mewn busnes'. A'r rheswm yw bod y mwyafrif o barciau carafannau a ddechreuodd yng Nghymru yn ffermwyr sydd â darn o dir ac sydd wedi penderfynu 'Ga i gwpwl o garafannau yma, ga i dwristiaid yma' ac maen nhw wedi'i ddatblygu nes bod y parc carafannau yn dod yn llyffethair i'r fferm, adeg cneifio, adeg wyna, llyffethair, cael gwared arno. Nid dyn busnes yw hwn. Os gwelwch*

*chi barc carafannau dyna chi botensial i wneud arian, y potensial i ddatblygu, dyw ffermwyr ddim yn edrych arno fel yna, mae'n ymyrryd â'r ffermio, yn syth bin mae hynny'n dweud rhywbeth am ei feddylfryd. Mae'n rhedeg fferm nid fel busnes, ond fel ffordd o fyw neu ddyletswydd at y cenedlaethau sydd wedi bod, dydyn nhw ddim yn edrych ar y peth fel busnes ac yn fy marn i mae'n rhaid ichi edrych ar y peth fel busnes achos gyda'r parc carafannau dechreuodd fy rheini y parc am eu bod nhw'n gallu gweld y potensial a phobl fusnes oedden nhw. (WRO 13)*

Er hynny, fel y gwelir hefyd yn y dyfyniad uchod roedd yna rai a oedd yn fodlon troi cefn ar gynhyrchu bwyd a magu da byw gan ddilyn mathau mwy proffidiol o fusnes pe bai'r cyfle'n codi. Fel yr amlinellwyd yn adran 4, roedd y math hwn o ffemwr yn bendant yn y lleiafrif hyd yn oed yn y grwp blaenweithgar / mentrus. Un ffactor hanfodol yn newisiadau'r ffermwyr hyn oedd eu bod yn agored i syniadau newydd. Yn benodol, roedd yn amlwg mai'r lleiaf blaenweithgar a hyblyg yn eu busnesau oedd y ffermwyr a oedd yn byw mewn mannau anghysbell, lle'r oedd yn amlwg eu bod heb ddod ar draws syniadau gwahanol.

Wrth drafod sut i wella sgiliau busnes, awgrymodd staff cadwraeth a swyddogion eraill a oedd yn rhan o'r gwasanaethau estyn mai un o'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddatblygu busnesau fferm yw'r cyfle hwn i glywed syniadau newydd. Yn benodol, nodwyd bod model blaenorol ADAS o gynnig ymweliadau â'r fferm a chyngor yn un defnyddiol am ei fod wedi'i deilwra'n unswydd at ffermydd yr unigolion ac yn eu hannog i ystyried syniadau newydd ar eu ffermydd eu hunain yn hytrach nag ymweld â fferm mewn man arall. Bernir bod y math hwn o wasanaeth yn arbennig o bwysig i'r ffermydd lleiaf hyblyg, a hynny am eu bod yn aml yn cael eu cyfyngu gan faterion capasiti dynol yn ogystal â chyfyngiadau eraill. Gan hynny, mae'n anodd iddyn nhw reoli'r fferm â'r gweithlu sydd ar gael iddyn nhw a fyddai ganddyn nhw mo'r amser i adael y fferm i fynd i grwpiau trafod, ymweld â phrosiectau arddangos, ac ati. Roedd hyd yn oed y ffermydd mwyaf llwyddiannus yn awgrymu bod dod o hyd i amser i wneud unrhyw beth heblaw'r arfer o gynnal y fferm yn anodd iawn. Bernir felly fod gweithio gyda ffermwyr ar eu safleoedd eu hunain yn ffordd bwysig i roi sylw i'r materion capasiti hyn a'u hannog i ystyried syniadau newydd.

Un pwynt pwysig i'w nodi yn hyn o beth yw bod arbenigedd y ffermwyr yn aml yn llawer iawn mwy ar yr ochr cynhyrchu / hwsmonaeth anifeiliaid yn hytrach nag mewn agweddau busnes 'pur', megis marchnata a brandio cynnyrch. Yn benodol, byddai'r ymatebwyr yn aml yn siarad am wella iechyd y fuches a lefelau ffrwythlondeb, yn hytrach nag ystyried materion busnes mwy cyffredinol. Er nad oes syndod yn hyn, mae'n bwysig myfyrio ar yr hyn y mae ffermwyr yn ei ddeall wrth y term sgiliau busnes, a'r ffordd orau i'w helpu o ran y mathau o ddatblygu sgiliau sydd ar gael gan y gwasanaethau estyn.

Yn yr un modd roedd yn amlwg nad brandio arbennig oedd yr ateb gorau bob amser, yn enwedig i ffermwyr a oedd yn gweithio drwy uwchfarchnadoedd, gan eu bod yn sôn ei bod yn fwyfwy anodd cadw premiymau o'r fath yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Roedd hyd yn oed y rhai a oedd yn rhan o fentrau cydweithredol a grwpiau cynhyrchu llwyddiannus yn colli diddordeb mewn ceisio ychwanegu gwerth ar ran prynwyr yr uwchfarchnadoedd. Lle'r oedd brandiau arbennig yn gweithio oedd mewn cyd-destunau mwy lleol lle byddai'r ffermwyr yn gwerthu'n uniongyrchol drwy gynlluniau blychau. Mae'n ymddangos bod y model manwerthu hwn yn ddwysach o ran llafur, nad oedd yn apelio at y rhai mewn mannau anghysbell wrth gwrs, ond roedd yn sicr yn broffidiol iawn i'r rhai oedd wedi datblygu'r model busnes hwn. Prif bwyntiau llwyddiant yn hyn o beth oedd cael gwared ar y dyn yn y canol, er mwyn cadw mwy o rym a mwy o gyfran economaidd o'r cynhyrchion oedd yn cael eu gwerthu, a chadw cysylltiadau cryf â'r cwsmeriaid. Roedd yn amlwg hefyd y

gallai'r cynhyrchwyr hyn gadw eu prisiau'n isel, hyd yn oed wrth werthu â 'brand arbennig' a bernid mai dyna oedd yn creu'r effaith fwyaf ar eu llwyddiant.

O ran datblygu'r opsiynau manwerthu hyn, roedd yn amlwg bod lleoliad ffisegol yn cael ei danlinellu fel ffactor pwysig wrth bennu gallu'r ymatebwyr i arbrofi â gwahanol fodelau. Y rhai yn agos at gymunedau preswyl neu yn y lleoliadau gorau i dwristiaid oedd yn fwyaf addas i ddatblygu cynlluniau o'r fath. Er hynny, roedd yn glir bod meddwl agored a pharodrwydd i addasu yn ffactorau pwysig iawn. Er hynny, mae'n bwysig sôn am y ffaith bod llawer o ffermwyr ar fryniau anghysbell yn aml o dan gyfyngiad, neu o leiaf yn credu eu bod o dan gyfyngiad:

> *Gyda'r fferm tir uchel …allwn ni ddim arallgyfeirio, allwn ni ddim tyfu moron, allwn ni ddim tyfu tatws, rydyn ni'n gwneud yr un peth a phan gewch chi flwyddyn wael mae'n rhaid ichi dderbyn y peth …ac wedyn pan gewch chi flwyddyn dda rydych chi'n meddwl eich bod yn gwneud rhywbeth yn iawn ac mae'r flwyddyn wedyn yn un wael …… felly dyna sut mae hi. Rhaid ichi beidio â newid. (LIFE 1)*

> *Wel, rydyn ni'n parhau yr un fath …Fedrwn ni ddim newid sut rydyn ni'n ffermio yma, y naill ffordd na'r llall. Mae hi mor serth...ac allwn ni ddim tyfu dim byd a dweud y gwir, allwn ni, dim ond glaswellt. Allwn ni ddim anfon defaid gwahanol i fyny'r mynydd, rhaid cael defaid Cymreig... (LIFE 2)*

Un maes a oedd yn cael sylw penodol oedd datblygu darpariaeth ynni adnewyddadwy ar raddfa ganolog. Roedd yn ymddangos bod y math hwn o ddatblygiad yn apelio'n arbennig at ffermwyr, nid yn unig oherwydd yr elw ariannol uchel ond am ei fod yn rhywbeth a fyddai'n helpu i redeg y ffarm, gan eu hamddiffyn rhag cynnydd yng nghostau tanwydd yn y dyfodol. Ond yn yr un modd am nad oedd yn amharu ar eu hawydd i ffermio, gan mai arwynebedd bach yn unig o'r daliad a fyddai'n cael ei ddefnyddio heb fod angen amser llafur ychwanegol na chostau parhaus yn ôl pob golwg. Roedd y brwdfrydedd yn arbennig o amlwg o gofio bod ffermwyr wedi bod yn araf i arallgyfeirio yn y gorffennol. Ond pan fydd yna gyfle i fuddsoddi i wella dulliau rhedeg y fferm, a hwnnw'n un sydd â chymhorthdal ac 'ar gael ar gynnig arbennig' ar hyn o bryd mae yna gryn ddiddordeb. Gwelwyd patrwm tebyg o ran yr ymateb i grantiau am fuddsoddiadau cyfalaf eraill, megis siediau.

Yr hyn sy'n hynod ynghylch y diddordeb hwn mewn ynni adnewyddadwy yw bod y buddsoddiad yn un mawr (chwarter miliwn o bunnoedd ar gyfartaledd), ac er bod gwarant o elw, sy'n golygu ei fod yn apelio'n fawr, mae'n dangos bod ffermwyr yn fodlon buddsoddi cryn dipyn os oes cyfle proffidiol ar gael. Yn benodol, roedd yr angen i fachu cyfle nad oedd pobl eraill yn manteisio arno o bosibl yn arbennig o amlwg yn yr enghraifft hon, sy'n awgrymu bod rhai agweddau ar y busnes yn cael eu dylanwadu'n fawr gan ffactorau cymdeithasol ehangach. Nid pwysau cymdeithasol i gydymffurfio yw hyn, ond effaith cenfigen a chystadleurwydd, a drafodir ymhellach yn adran 7.

**Crynodeb: Gwael iawn oedd y sgiliau busnes yn nhermau rheolaeth ariannol a chynlluniau busnes. Roedd yn glir hefyd nad oedd llawer o'r ymatebwyr yn dilyn y strategaethau mwyaf proffidiol am eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ffermio uwchlaw opsiynau eraill. Er hynny, gwelwyd bod yr ymatebwyr wedi dod i ganolbwyntio'n fwy ar fusnes oherwydd pwysau caledi economaidd cynyddol. Yn yr un modd, roedd yn amlwg eu bod yn fodlon gwneud buddsoddiadau arwyddocaol a oedd yn addas at eu strategaeth fusnes gyffredinol, er nad yw'n glir pa mor dda y bydden nhw'n rheoli'r dyledion hyn. Bernid bod y cyfle i gael syniadau newydd a chyngor, yn unswydd ar gyfer eu busnesau fferm, yn gyfraniad o bwys tuag at wella sgiliau busnes, gan ddangos mor bwysig yw gwasanaethau estyn megis model blaenorol ADAS.**

## Agweddau at y Taliad Sengl

**Mae'r adran hon yn amlinellu teimladau'r ymatebwyr am gael y Taliad Sengl, ac i ba raddau yr oedden nhw'n dibynnu ar yr arian hwn.**

Mae'n hanfodol deall i ba raddau y mae ffermwyr yn dibynnu ar y Taliad Sengl (SFP) er mwyn cynllunio at newidiadau ac addasiadau yn y dyfodol mewn mesurau Datblygu Gwledig yng nghyd-destun diwygio'r CAP. Yn ogystal â deall hyd a lled lefelau dibyniaeth, o ran ystadegau busnes, mae hefyd yn bwysig deall sut mae ffermwyr yn teimlo ynghylch derbyn y taliadau hyn ac a ydyn nhw'n fodlon addasu.

### Agweddau

Dywedodd cyfran uchel o'r ffermwyr y byddai'n well ganddyn nhw beidio â chael cymorthdaliadau yn yr ystyr ideolegol, am eu bod yn teimlo'n lletchwith ac yn rhwystredig am fod rhaid dibynnu ar y llywodraeth, a'u bod yn ymwybodol iawn o agweddau'r cyhoedd at gymorthdaliadau. Ond yn ymarferol roedden nhw'n teimlo y byddai'n amhosibl cynnal eu busnesau, a chynhyrchu bwyd am bris rhesymol heb gymorth parhaus y llywodraeth. Roedd eu hamddiffyniad o'r SFP bob amser yn dibynnu ar brisiau bwyd, a bod yr SFP i bob pwrpas yn ffordd o roi cymhorthdal i gynhyrchu bwyd. I lawer, rodd y ddadl hon yn gysylltiedig wedyn â phwer yr uwchfarchnadoedd dros brisiau bwyd.

> *Byddai'n well gen i fod heb daliadau ond allwn ni ddim a dyna hi … I fod yn onest dwi ddim yn gwybod, dyna fy, dwi wedi meddwl lot am y peth a dwi ddim yn hoffi derbyn y taliad sengl ond goroesi yw hi, dyna'r drafferth … (LIFE 1)*

> *Wel byddai'n braf ymdopi heb gymorthdaliadau, petaen ni'n gallu byw...Dych chi'n gwybod pan fyddwch chi allan rywle a byddwch chi'n siarad a bydd pobl yn dweud, 'mae'r ffermwyr i gyd yn cael cymhorthdal, maen nhw'n iawn'. Dyw hi ddim yn neis clywed hynny, ydy hi? Ond nhw yw'r bobl sy ddim yn fodlon talu mwy am y cig... (LIFE 2)*

> *Gallan nhw atal y cymorthdaliadau o'm rhan i, efallai y byddai'r archfarchnadoedd yn dechrau ein talu ni. Dyna'r cyfan, beth rydyn ni'n ei gael yw cymhorthdal ar fwyd, does dim ots gen i sut edrychwch chi ar y peth. Mae'r archfarchnadoedd yma, maen nhw'n gwybod ein bod yn cael y taliad grant sengl, o maen nhw'n iawn, mae rhywun yn gofalu amdanyn nhw, fe gadwn ni'r pris mor isel ag y gallwn ei wthio …Mae'r cyhoedd yn cael eu trethu, rydyn ni'n cael swm penodol o'r dreth yn ôl fel bod pris eu bwyd yn cael ei gadw'n isel. Ac fel y gwyddoch chi, dwi ddim yn siwr mai dyna'r ffordd iawn i'w gwneud hi. Rwy'n credu bod angen inni wybod faint yw cost pethau. (WRO 43)*

Fel y gwelir yn y dyfyniad olaf, roedd llawer yn teimlo y byddai'n llawer gwell cael prisiau marchnad tecach am eu cynhyrchion a bod heb yr SFP, ond yn yr un modd roedd yn glir bod yna ymdeimlad o anobaith ac amhosibilrwydd ynglyn â'r syniad o newid o'r fath, am na fyddai'r uwchfarchnadoedd byth yn caniatáu hynny, ac na fyddai'n ymarferol i'r defnyddwyr dalu mwy.

> *CYF: Petaech chi'n gallu cael gwell prisiau am y cig oen ydych chi'n credu y byddai'n well gennych chi gael eich talu am eich cynnyrch eb gael cymhorthdal neu, chi'n gwybod, beth yw'ch barn chi am gymorthdaliadau?*

> *YMAT: Wel rydych chi'n gofyn cwestiwn sy ddim yn realistig ydy e? Dydy e ddim am ddigwydd, ydy e? Nawr, mae coes cig oen yn siop y cigydd yn costio hyn a hyn o arian, wel mae arnon ni angen dwywaith hynny, dyw e ddim yn mynd i ddigwydd ydy e? Mae'n amhosibl iddyn nhw. (WRO 146)*

Er hynny, roedd nifer cyfartal a oedd yn uchel eu cloch am y gwyn ac yn teimlo y gallai ac y dylai rhywbeth gael ei wneud:

> *A dweud y gwir mae prisiau bwyd wedi mynd yn anghyson iawn, a sut rydyn ni'n meddwl am brisiau bwyd. Mae yna deimlad mar o ryw ddymuno gwneud rhywbeth am bobl mewn gwledydd eraill sy'n cael cyflog chwerthinllyd o isel i gynhyrchu pethau sydd i ni yn gyffredin, wyddoch chi, coffi a phethau felly. Ond i wneud yr un fath yn eich gwlad chi am rywbeth sydd yr un mor gyffredin, llaeth dyweder...o na, dyw hynny ddim yn deg …(WRO 21)*

> *Mae'r archfarchnadoedd yn cael penderfynu talu faint fynnon am laeth, mae'r llaethdai yn cael cymryd cyfran sydd yn eu barn nhw yn deg o'r pris hwnnw, ac mae'r ffermwr sy'n ei gynhyrchu yn gweld yn ei gontract etc. na chaiff e ddim gwneud dim am y pris…A dyw hynny ddim yn iawn. Nawr, sut mae mynd ati heb fod yn llawdrwm ac ailgyflwyno'r Bwrdd Marchnata Llaeth, roedden nhw, wn i ddim pam … roedden nhw'n ei weld fel monopoli, ond roedd yn rhoi gwarant o bris cyson am laeth hylif, gwnaeth y bwrdd lawer o bethau gwych iawn. Roedd yn gwarantu diwydiant ffermio ffyniannus, achos bod pobl yn gwybod pa incwm fyddai ganddyn nhw ac roedden nhw'n gallu cynllunio ar sail hynny, ac addasu'r hyn y gallen nhw, gallen nhw gynllunio i ehangu, buddsoddi yn eu ffermydd, popeth arall. A nawr, na, chewch chi ddim gwneud hynny. Ac fe chwalon nhw'r bwrdd am eu bod nhw'n dweud mai monopoli oedd e. Wel, ie, a monopoli dielw. Roedd y Bwrdd Marchnata Llaeth yn edrych ar bethau, yn pennu pris teg am gost cynhyrchu llaeth, a dyna'r safon drwyddi draw, ac roedd pawb yn cyrraedd y safon. Doedd neb yn cwyno'n arbennig am faint o laeth oedd, ac a deud y gwir doedd hynny ddim yn wahanol iawn i faint sydd yna nawr. (WRO 21)*

> *Mae'n rhaid cael newid, newid araf, achos allwch chi ddim dweud y flwyddyn nesa 'reit mae'n rhaid i'r cwsmer dalu'r pris llawn', allwch chi ddim gwneud. Rhaid iddo weithio, mae'n fwy o beth grwp, byddai rhaid i'r manwerthwr bwyd gydweithio â'r llywodraeth ac amaethyddiaeth ar gae chwarae gwastad. Mae gafael yr archfarchnadoedd dros y llywodraeth yn bygwth y diwydiant cyfan, mae gormod o ffermwyr yn mynd allan o fusnes. Felly mae'n rhaid i'r llywodraeth fod ychydig yn fwy annibynnol ar yr archfarchnadoedd a bod fel y dyfarnwr rhwng y ddau grwp, achos ar ddiwedd y dydd rydyn ni i gyd yn ceisio sicrhau bod digon o fwyd yn y dyfodol … (WRO 13)*

Heblaw'r rhwystredigaeth hon â'r uwchfarchnadoedd, roedd yn glir hefyd fod llawer o sinigiaeth ynghylch yr SFP a thegwch y taliadau. Roedd yn amlwg bod llawer o ffermydd naill ai yn cael dim taliadau o gwbl, neu yn cael taliadau isel iawn oherwydd amgylchiadau hanesyddol. Felly, dadleuwyd nad oedd yr SFP yn deg o ran ei ddosbarthiad. Felly, ar y cyd â'r amheuon ehangach am y taliad, roedd yn amlwg bod rhai ffermwyr o'r farn y byddai'n well peidio â chael taliad o'r fath.

> *Beth dwi'n dweud wrtho [mab y ffermwr] drwy'r amser yw, mae e'n dweud o bydd y taliad sengl yn dod. Dwedes i fod hynny'n gorfod bod yn rhywbeth ychwanegol, rhaid i'r fferm fod yn broffidiol heb y taliad sengl a dwi ddim yn rhy siwr bod taliad sengl wedi bod yn syniad da … Y ffermydd mawr fydd yn cael yr hufen a nhw sy wedi bod yn cael yr hufen gan gynnwys ninnau i ryw raddau …dyw hi ddim yn helpu ffermwyr bach…maen nhw wedi methu gwneud hynny. Ac all neb wadu hynny. (WRO 110)*

Pwynt arall a godwyd yn y trafodaethau hyn oedd bod rhai ffermwyr yn teimlo rhwystredigaeth bod y llywodraeth i bob pwrpas yn rheoli eu tir oherwydd cymorthdaliadau (amaeth-amgylcheddol yn ogystal â'r SFP) a'r holl reoliadau perthynol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth ehangach bod ffermwyr yn aml yn annibynnol iawn ac yn hoff o wneud eu penderfyniadau eu hunain ar reoli eu tir.

**Lefelau Dibyniaeth**

Heblaw eu hargraffiadau o'r SFP, gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddweud faint o'i incwm yn gyffredinol oedd yn deillio o'r taliadau hyn, a fydden nhw'n gallu gwneud elw hebddyn nhw, ac a oedd ganddyn nhw gynllun i'w galluogi i addasu at ddiwygiadau'r CAP yn y dyfodol, a allai effeithio ar yr SFP. Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, dywedodd nifer o'r ymatebwyr a barodd syndod y bydden nhw'n iawn heb y cymorthdaliadau ac y byddai'n well ganddyn nhw beidio â dibynnu ar y llywodraeth. Awgrymodd tua hanner yr ymatebwyr y gallen nhw addasu er mwyn ymdopi heb yr SFP, er bod hynny'n amheus o gofio'r ystadegau ar yr SFP yn Arolwg Busnes Ffermydd 2010.

Yn benodol, mae Arolwg Busnes Ffermydd 2010 yn dangos bod yr SFP, fel cyfran o incwm eu busnes fferm, yn 62% yn achos ffermydd llaeth; 85% yn achos porwyr yr ALFf a 72% yn achos porwyr y tu allan i'r ALFf.

Yn 2009 roedd yr ystadegau'n waeth byth, gan ddangos bod yr SFP yn achos porwyr yr ALFf yn 113%; hynny yw roedd yr incwm a oedd yn deillio o'r SFP yn fyw na'r swm yr oedd y fferm yn ei wneud yn y pen draw ar ffurf cyfanswm elw busnes y fferm. Er hynny, mae hyn wedi gostwng bellach o gofio'r cynnydd ym mhrisiau stoc, er nad yw'r ffermydd llaeth mor broffidiol ar hyn o bryd oherwydd costau cynyddol a gwasgaf ar brisiau llaeth.

I ymhelaethu ar sut yn union roedd yr ymatebwyr yn bwriadu addasu, i rai roedd yna deimlad clir y gallen nhw oroesi pe baen nhw'n torri agweddau mwyaf costus eu busnesau, yn enwedig meysydd oedd yn dibynnu'n fwy ar danwydd. Er enghraifft, nodwyd bod angen mwy o fewnbwn i fagu gwartheg na defaid:

> *Meddyliwch petai yna lai o Daliad Sengl byddai'n mynd nôl mewn llawer o ffyrdd i system lai dwys. Mae hynny'n debyg i'r rhan fwya o'n gwaith ni yma gyda'r defaid sy'n gallu cael ei wneud fel hyn. Gwartheg sy'n creu llawer o'r gwaith tractor a phopeth. Mae'n debyg mai felly y byddwn i'n gweld pethau'n mynd. Llai dwys mae'n debyg ac ymdopi heb wartheg. (WRO 11)*

Roedd yn amlwg hefyd fod rhai busnesau bach yn dibynnu'n llai a dweud y gwir ar gymorthdaliadau na busnesau mawr, gan eu bod eisoes yn cael llai o gymorthdaliadau ac yn llawer mwy cydnaws â'r farchnad. Hefyd, roedd nifer o'r busnesau hyn yn rhedeg rhyw fath o fenter newydd, fel gwneud caws ar y safle, dosbarthu cynnyrch drwy gynlluniau blychau yn lleol, neu fagu ystod o stoc, a oedd eto yn eu gwneud yn fwy gwydn.

Fel y nodwyd uchod, roedd yn amlwg hefyd fod gan nifer o ffermydd SFP gael oherwydd amgylchiadau hanesyddol a'u bod wedi addasu er mwyn goroesi.

Y ffactor sy'n uno'r holl ffermydd sydd â chynllun addasu, neu a oedd eisoes wedi datblygu strategaethau, oedd eu bod wedi dod i gysylltiad â rhyw fath o ddylanwad allanol o'r tu hwnt i'r fferm. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd wedi rhedeg busnesau gwahanol cyn dechrau ffermio, y rhai oedd wedi cael eu haddysg mewn man arall, neu a oedd ag aelodau o'r teulu a ddaeth â syniadau yn ôl, a'r rhai a oedd yn syml yn fwy allblyg yn eu hagwedd ac felly wedi dod ar draws syniadau newydd. Yn yr ystyr hon, nid agweddau ffisegol y fferm oedd yn bwysig ond yn hytrach capasiti dynol a pharodrwydd i addasu.

O ystyried y data ehangach sydd ar gael (ELC 2011), mae'n ymddangos bod potensial ar gyfer rhagor o ymchwil ar fusnesau bach yn benodol, fel grwp diddorol. Mae hyn yn arbennig o wir, o gofio eu bod yn cael eu gweld yn draddodiadol fel dim mwy na 'ffermwyr

hobi', er ei bod yn amlwg yn yr astudiaeth hon bod rhai o'r busnesau mwyaf hyblyg gwydn yn fach (iawn). Yn yr un modd mae'n eglur bod llawer o'r mentrau bach (iawn) hyn yn llawer mwy ymwybodol o'r amgylchedd a chydnaws â'r amgylchedd yn eu harferion.

Ymhellach maen nhw'n uned bwysig i'w hystyried am mai ffermydd 'bach iawn' yw'r gyfran fwyaf yn genedlaethol, o ran nifer y busnesau fferm (ond nid o ran arwynebedd). Yn yr un modd, nid yw'r Arolwg Busnesau Fferm yn cynnwys busnesau sy'n llai na hanner amser, sef 35% o ffermydd Cymru, na'r rhai i dan drothwy penodol o ran eu maint (yn Lloegr mae hanner y 120,000 o ffermydd heb eu cynnwys). Er nad ydyn nhw'n cyfrannu arwynebedd tir mawr ac er nad ydyn nhw felly yn cydymffurfio â'r norm tybiedig ar gyfer amaeth-fusnes, mae'n eglur bod yna arwyddion cynyddol bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r math hwn o fusnes.

Heblaw'r arwyddion addawol hyn o wydnwch yn wyneb newid yn y dyfodol, roedd nifer uchel o hyd o ymatebwyr a deimlai na fydden nhw'n goroesi heb yr SFP. Roedd lawer yn awyddus i ofyn beth roeddwn i'n ei wybod am y newidiadau a oedd yn yr arfaeth, gan gyfaddef bod ganddyn nhw lefelau uchel o bryder ac ansicrwydd ynghylch hyn. Yn aml roedd gan yr ymatebwyr hyn awgrym clir o faint yn union o arian yr oedden nhw'n ei wneud mewn cymorthdaliadau, hyd yn oed os oedd eu gwaith cyfrifyddu ehangach yn y busnes yn gryf iawn.

Cyfran fach yn unig o'r ymatebwyr a oedd fel petaen nhw'n rhoi eu pen yn y tywod, heb syniad clir o faint roedden nhw'n dibynnu ar gymorthdaliadau, neu beth wnaen nhw i wneud iawn am y colledion. Yr ymatebwyr hyn oedd y lleiaf hyblyg, ac roedd yn ymddangos eu bod yn gwneud penderfyniadau ar sail eu harferion, gan wneud yr hyn yr oedden nhw wastad wedi'i wneud.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y bydden nhw yn ymddeol petai'r SFP yn dod i ben, ond roedd yn fwy cyffredin naill ai ceisio addasu neu awgrymu y bydden nhw'n parhau beth bynnag.

Ar sail arolwg yr Arsyllfa yn 2010 awgrymodd 30% y bydden nhw'n newid eu math o ffermio; dywedodd 52% na fydden nhw'n newid; byddai 23% yn ehangu, fyddai 65% ddim; byddai 33% yn arallgyfeirio, fyddai 58% ddim; byddai 27% yn rhoi'r gorau i ffermio, fyddai 62% ddim.

Yn gyffredinol, mae'r data hwn yn awgrymu nad yw'r ffermwyr yn awyddus i newid nac addasu eu gweithgareddau ffermio. O gymharu canfyddiadau'r cyfweliadau ag ymatebion 2010 roedd yna lawer o gysondeb yn ymatebion yr unigolion, sy'n awgrymu eu bod heb newid eu meddwl. Ond, mae'n amlwg o sampl 2011 bod yna lefel uwch o hyblygrwydd nag yn arolwg 2010. Gallai hynny fod yn wir oherwydd y grwpiau astudiaeth achos y cyfwelwyd a nhw, a dylid cofio nad oes bwriad i'r astudiaeth hon roi data sy'n arwyddocaol yn ystadegol.

Un pwynt arall i'w nodi yma yw bod llawer o ffermydd eisoes yn gweithredu ar incwm isel iawn, ac y bydd gostyngiad yn yr SFP yn cynyddu'r perygl hwn. Fel y dangosodd arolwg 2010, roedd gan 23% o'r ffermydd bach Incwm Aelwyd Gros o £10,000 neu lai, cyn treth. Mae addasu at newid yn anos hefyd am nad mater syml yw gwerthu a rhoi'r gorau i ffermio. Felly mae angen rhoi mwy o sylw i effaith newid yr SFP ar y grwp sy'n fwyaf agored i niwed.

**Crynodeb: er bod yr Arolwg Busnesau Fferm yn dangos darlun echrydus o ddibynnu ar y Taliad Sengl, yn yr astudiaeth hon soniodd hanner yr ymatebwyr eu bod yn ystyried sut i addasu. Yn hyn o beth roedd busnesau bach arbenigol yn grwp arbennig o ddiddorol i'w hystyried ymhellach (gweler hefyd ELC 2011). Yn yr un modd, er bod llawer o'r ymatebwyr yn eglur yn dibynnu ar yr SFP, dadleuwyd y byddai'n well ganddyn nhw gael gwell prisiau marchnad am eu cynnyrch, gan eu bod yn anghysurus yn derbyn cymorthdaliadau. Serch hynny, bernid ei bod yn annhebyg iawn y ceid newid o'r fath, o gofio rôl rymus yr uwchfarchnadoedd, er bod yna alw cryf ar i'r llywodraeth herio hyn.**

## Argraffiadau o Risg

**Mae'r adran hon yn amlinellu i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn gweld risgiau mewn perthynas â diogelwch ariannol, yn enwedig mewn cysylltiad â'r newidiadau sydd wedi'u darogan yn y Taliad Sengl, a risgiau eraill megis iechyd anifeiliaid a chlefydau.**

Bernid bod yr argraff o risg yn faes pwysig i'w ystyried am y gall fod yn ffurfiannol mewn penderfyniadau, ac am ei bod yn esbonio pam y byddai ffermwyr yn cynllunio ac yn addasu eu busnes mewn rhai ffyrdd ac nid mewn eraill. Gofynnwyd y cwestiynau am risg mewn modd penagored, i ganiatáu i'r ymatebwyr sôn am ba faterion bynnag oedd yn peri pryder iddyn nhw. Roedd yn amlwg felly fod y materion a godwyd yn gyfyngedig i gyllid ac iechyd anifeiliaid.

Yn yr enghraifft gyntaf roedd yn amlwg bod bron y cyfan o'r ymatebwyr, ac eithrio'r rhai nad oedden nhw'n dibynnu ar yr SFP ar hyn o bryd, wedi mynegi peth pryder am y newidiadau sydd yn yr arfaeth i lefelau'r taliadau. Er hynny, ac er gwaethaf y gwahanol gynlluniau addasu a amlinellwyd, yn aml ceid yr agwedd bod rhaid derbyn pethau ac 'aros i weld', neu yn syml peidio â chael eich llethu gan ansicrwydd y sefyllfa. Nid yw hyn yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn anwybyddu'r angen i addasu, ond eu bod yn ceisio peidio â dioddef gormod o straen ynghylch y dyfodol. Wrth esbonio, soniodd llawer fod lefelau uchel o ansicrwydd bob amser wedi bod yn gysylltiedig â ffermio ac nad oedd pwynt poeni'n ormodol, yn arbennig ynghylch materion nad oedd ganddyn nhw reolaeth unionyrchol drostyn nhw.

Gwelir yr agwedd hon bod rhaid derbyn y sefyllfa yn y dyfyniadau a ganlyn, lle mae'r ymatebwyr yn aml yn dweud bod ganddyn nhw gynllun at y dyfodol, ond y byddan nhw'n aros yn hyblyg heb fynd i ormod o banig.

> *Byddai'n rhaid ichi werthu cymaint â … fel stoc neu rywbeth ynte?... gallech chi wastad wneud rhywbeth oni allech? Byddwn, byddwn i'n dal ati a gwneud i rywbeth bara …a dechrau eto neu rywbeth pan fyddai pethau'n well neu rywbeth. (WRO 179)*

> *Fe allai pethau newid yn ariannol, ond does dim pwynt becso am bethau allwch chi ddim effeithio arnyn nhw. Mae dyn yn troi gwneud ei fusnes mor gryf ag y bo modd. Y peth da petaech chi'n mynd i mewn i Glastir, mae'n debyg, o leiaf mae gennych chi rywfaint o incwm dan warant wedyn. Dydych chi ddim yn dibynnu ar y farchnad wedyn. Dyna ochr dda y taliad amgylcheddol; os gwnewch chi bethau'n iawn yna mae'r taliad gennych chi. (WRO 39)*

Roedd yn amlwg nad oedd rhai yn eglur beth gallen nhw ei wneud i addasu, ond unwaith eto roedd yr ymdeimlad bod rhaid peidio â phoeni gormod yn amlwg:

> *Wel mi rydyn ni'n meddwl amdano [diwygio'r CAP] oherwydd mae llawer o bethau a dweud y gwir, dwi'n darllen yn y papurau ffermio am y CAP ac ati ond dyna rywbeth arall eto sy tu allan i'ch rheolaeth chi a dweud y gwir a rhaid ichi gymryd beth bynnag maen nhw'n roi a dweud y gwir dyna'r peth… (WRO 17)*

> *Mae e'n peri pryder on'd yw e ond os daw e mi ddaw e. Rydych chi'n mynd ychydig yn henach ac yn clywed yr holl bethau yn y papurau ac wedyn pan mae'n dod yn y pen draw dyw e ddim byd i beth glywsoch chi dros y blynyddoedd. Felly pan mae'n dod …gweld beth sy'n digwydd ie achos alla i ddim gwneud dim am y peth. (WRO 18)*

Un man lle'r oedd ymdeimlad llawer cliriach o bryder oedd o ran y cynnydd cyfredol ym mhrisiau mewnbynnau, sy'n awgrymu bod yr ymatebwyr yn canolbwyntio'n llawer mwy ar faterion a galwadau'r presennol, yn hytrach nag edrych ar newidiadau yn y dyfodol yn y polisïau a'r taliadau.

Pryder arall, lle dangosodd yr ymatebwyr lefelau uwch o lawer o ymgysylltu, oedd risg clefydau anifeiliaid. Er enghraifft, soniodd nifer o'r ymatebwyr eu bod wedi penderfynu cadw buchesi caeedig ar sail iechyd anifeiliaid:

> *YMAT: Dwi'n newid i'r ffaith heddiw gyda phopeth sy'n mynd ymlaen mewn amaethyddiaeth dwi'n credu bod angen inni fod yn fwy caeedig, dwi'n ddiadell gaeedig o ran y defaid, wel dwi'n ystyried gwneud yr un fath gyda'r gwartheg yma lle roeddwn i'n arfer prynu anifeiliaid i lenwi bylchau …ond rydych chi wastad, dydyn chi ddim yn gwybod beth rydych chi'n ei brynu i mewn.*
>
> *CYF: Ie, rydych chi'n meddwl o ran clefydau?*
>
> *YMAT: O ran clefyd, ie, felly dwi'n meddwl mynd ati i fridio anifeiliaid i lenwi bylchau fy hunan a dilyn cynlluniau iechyd buches a pethau felly lle rydych chi'n cael eich achredu... Felly mae'n, dwi'n meddwl y bydd rhaid yn y dyfodol i fwy a mwy o bobl edrych ar hyn gyda'r problemau sydd gennyn ni yn y diwydiant yn arbennig gyda gwartheg am nad yw'r llywodraeth am wneud dim am y peth achos bod gennyn nhw mo'r asgwrn cefn i wneud dim am y peth ac felly mae'n rhaid i ni … (WRO 59)*

Yn aml roedd yna ymdeimlad nad penderfyniad busnes yn unig oedd hyn, ond un a oedd yn bendant yn cael ei lywio gan eu rôl fel ffermwyr. Gan hynny, awgrymir bod prif arbenigedd yr ymatebwyr, a'u gallu i addasu a newid, yn gysylltiedig yn fwyaf aml â'u stoc ac agweddau ymarferol ar hwsmonaeth, yn hytrach nag addasu eu busnesau mewn meysydd eraill; sef pwynt sy'n cael ei amlinellu hefyd yn adran 5. Cydnabyddir hefyd fod y lefelau uchel o sylw yn y cyfryngau i'r diciâu yn y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar y lefelau pryder cyhoeddus ynglyn â'r clefyd, a bod llawer o ffermwyr yn teimlo bod angen cyfleu eu pryderon a'u hanfodlonrwydd ar ymateb y llywodraeth.

Er hynny, ac er gwaethaf lefel uwch o ymgysylltu â'r pryderon hyn, roedd yn amlwg yn yr un modd fod gan yr ymatebwyr agwedd ddigon hamddenol at y risgiau hyn:

> *Beth rwy'n ddweud yw nad oedd dim modd inni rag-weld hynny'n digwydd, dim modd inni weld y BSE yn digwydd. Ac yn sicr bydd y pethau yma'n dal i ddigwydd yn y diwydiant amaeth o achos ei natur. Felly sut mae dyn i amddiffyn ei hunan a dyna beth sy yng nghefn fy meddwl i pan oeddwn i'n codi'r tai yma ac mae'n dda gen i ddweud y bydd rhywfaint o incwm yn fan yna. Fe ddylech chi gael rhyw fath o incwm o ryw gyfeiriad arall. (WRO 110)*

**Crynodeb: Roedd pryderon ariannol ac iechyd anifeiliaid yn amlwg fel y prif bryderon i'r ymatebwyr. Er hynny, ac er gwaethaf pryderon clir yn y meysydd hyn roedd yn amlwg bod gan lawer yr agwedd bod rhaid derbyn pethau gan geisio osgoi poeni'n ormodol am y dyfodol. Yn hytrach, roedden nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw addasu at faterion wrth iddyn nhw godi. Gellid esbonio hyn fel safbwynt y maen nhw wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r helyntion parhaus sy'n cael eu cysylltu â ffermio**.

# ADRAN 7: GWNEUD PENDERFYNIADAU

## Ffynonellau Gwybodaeth

**Yn yr adran hon ystyrir y ffynonellau gwybodaeth allweddol y bu'r ymatebwyr yn ymgysylltu â nhw i fwydo'u penderfyniadau. Ystyrir yn benodol ddefnyddio grwpiau trafod, deunyddiau ysgrifenedig a phrosiectau arddangos.**

O gofio ffocws yr astudiaeth hon ar ymddygiad ffermwyr a'u prosesau penderfynu, un mater allweddol i'w ystyried yn y cyfweliadau oedd y cwestiwn o ble roedden nhw'n cael yr wybodaeth, sut roedd yn cael ei deall wedyn, a pha ffynonellau oedd yn fwyaf hwylus ac yn uchaf eu parch. Hefyd, edrychwyd hefyd ar gwestiwn dylanwadau a phwysau eraill er mwyn ystyried sut y byddai'r agweddau hyn yn effeithio ar dderbyn a phrosesu gwybodaeth, er bod hyn yn cael rhagor o sylw yn yr is-adran nesaf.

Er mwyn cyrchu'r wybodaeth hon gofynnwyd i'r ffermwyr ddweud i ddechrau sut clywson nhw am gynlluniau amaeth-amgylcheddol, wedyn edrychwyd ar broses ymgysylltu â chynlluniau gan gyfeirio'n benodol at ddylanwad a rôl swyddogion prosiect, ymgynghorwyr, swyddogion undeb, cyfeillion a'r teulu. Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud sut roedden nhw wedi dod i'w dealltwriaeth o gadwraeth. O ran busnes, gofynnwyd a oedden nhw'n perthyn i unrhyw grwpiau trafod, grwpiau cynhyrchwyr neu grwpiau prynwyr, a sut roedd y fforymau hyn yn effeithio ar eu strategaethau busnes. Gofynnwyd hefyd a oedden nhw wedi gofyn am gyfarwyddyd neu gymorth ynglyn â'u busnes, er enghraifft, a oedden nhw'n defnyddio cyfrifwyr neu ymgynghorwyr eraill.

Roedd cymorth a chyngor yr undeb yn bwysig i'r mwyafrif. Roedd nifer fawr yn frwd ynghylch cefnogaeth a chyfarwyddyd drwy Gyswllt Ffermio ac yn benodol y grwpiau trafod sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwnnw. Bernid bod y rhain yn fforymau pwysig ar gyfer trafod syniadau gyda ffermwyr eraill, ond hefyd o ran gwahodd siaradwyr arbenigol ar faterion sy'n amrywio o iechyd anifeiliaid i senarios diwygio'r CAP. Cafodd grwpiau eraill i gynhyrchwyr a phrynwyr eu canmol yn yr un modd am yr un rhesymau. Roedd o un rhan o dair o'r ymatebwyr yn perthyn i'r math hwn o grwp.

Ategir y sylwadau cefnogol hyn ymhellach gan ffigurau o arolwg yr Arsyllfa yn 2010 lle'r oedd 54% o'r ffermwyr wedi gofyn am gyngor dwy Gyswllt Ffermio, grwpiau trafod, neu amrywiaeth o ymgynghorwyr. O'r gwahanol ffynonellau hyn, dywedodd 55% o'r ffermwyr fod yr undebau yn 'dda' neu'n 'dda iawn', a dywedodd 40% o'r ffermwyr fod Cyswllt Ffermio yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Yn ogystal â chlywed syniadau newydd, un o'r ymarferion pwysicaf a oedd yn cael ei gynnal yn y grwpiau trafod oedd cymharu costau a chyfrifon blynyddol. Er mai ymarfer personol iawn yw hwn, amlinellodd cyfran uchel o'r ymatebwyr eu bod wedi ymgymryd â'r ymarfer a chael ei fod yn ddefnyddiol iawn. Yn benodol, roedd manteision y math hwn o ymarfer i'w gweld ar ffurf cyfle i adolygu'r cyfrifon yn iawn a hynny mewn ffordd yr oedd yn ymddangos bod rhai ffermwyr heb ei dilyn o'r blaen (nodwyd canlyniadau tebyg gan y CCRI yn 2009); ond am eu bod hefyd yn cynnwys elfen gystadleuol (dychwelir at y pwynt hwn isod).

Dylid nodi hefyd fod deinameg gymdeithasol y grwpiau hyn yn cael ei gweld fel rhan fawr o'r gwasanaeth. Ond fel y gwelir yn y dyfyniad isod, yn aml mae'r elen gymdeithasol yn fwy na pheth braf ond yn anghenraid o ddifrif i bobl sy'n gweithio mewn mannau anghysbell ac anodd iawn.

> *Fe aethon ni am ychydig wythnosau on'd do i Agrisgop… daeth hynny i fod yn yr ardal yma oherwydd clwy'r traed a'r genau, achos allai'r ffermwyr, yn ystod y traed a'r genau ddim dod at ei gilydd ac roedd llawer o ffermwyr...Roedd pobl yn isel iawn*

*yma am nad oedden nhw'n mynd i'r farchnad i gael cwyno, sef beth sy'n digwydd yn aml a byddwch yn cwyno am bopeth a mynd adre'n teimlo'n well, ond doedd hynny ddim yn digwydd nag oedd oherwydd clwy'r traed a'r genau a chaen ni ddim mynd i unman a dechreuon ni fynd i'r grwp Agrisgop yma ac roedd hi'n dda. Roedden ni'n mwynhau. (WRO 118)*

Gwelwyd bod yr elfen gymdeithasol hon yn flaenoriaeth bwysig i lawer, ac i'r rhai yn y mannau mwyaf anghysbell, bernid bod pwysigrwydd eu cymdogion a'r cymorth ffisegol roedden nhw'n ei gynnig yn gyfraniad hanfodol i'r fferm. Felly, dadleuir na ddylai'r ddeinameg gymdeithasol yn y gwahanol grwpiau trafod gael ei hanwybyddu, ond ei gweld fel bloc adeiladu o bwys wrth sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol, gan roi cyfle gwahanol i ffermwyr gydadweithio a chyfnewid syniadau.

Mater pwysig arall i dynnu sylw ato o ran cydadwaith cymdeithasol mewn grwpiau oedd y ffordd yr oedden nhw'n galluogi'r ymatebwyr i ennill hyder a chysylltiadau busnes. Er enghraifft, soniodd y rhai a oedd yn rhan o grwp Cig Oen Mynyddoedd Cambria sut roedd y grwp wedi creu cyfleoedd iddyn nhw oedd yn fwy na dim ond cynyddu gwerth eu stoc, neu wneud mwy o elw, ond hefyd fod gam ar y blaen i bobl eraill a bod yn fwy ymwybodol o'r newidiadau a'r heriau sy'n dod.

*…mae wedi bod yn brofiad da ac mae bod yn gadeirydd a mynd i wahanol gyfarfodydd wedi bod yn ddifyr ac ie o bosibl siarad â phobl na fydden nhw'n gwrando arnoch chi mewn gwirionedd …tasech chi ddim yn cael y cyfle hwnnw … (CMI 2)*

Yn benodol, tanlinellodd yr ymatebwyr ei bod yn ddefnyddiol bod yn aelod o gynllun peilot Glastir:

*… mae'n debyg bod hynny wedi helpu'r busnes ... jyst cael syniad gyda'r Glastir, dyddiau cynnar y Glastir, dyma nhw'n gofyn i rai ohonon ni ddod i mewn a bod yn* guinea pigs *a faint o bwyntiau ac a fyddai hi'n bosib felly do fe gawson ni olwg ar Glastir yn llawer cynt na'r rhan fwya o bobl a dweud y gwir…Ie, dim ond o gymryd rhan mae gennych chi well dealltwriaeth o'r ffordd mae'r llywodraeth am fynd â phethau. (CMI 2)*

Y tu hwnt i'r grwpiau ffurfiol hyn dadleuwyd mai cydadweithio yn y farchnad oedd prif ffynhonnell gwybodaeth yr ymatebwyr, gan eu galluogi i fyfyrio ar eu harferion eu hunain ac ystyried syniadau newydd.

Er hynny, ac er gwaethaf y brwdfrydedd amlwg dros y cyfnewidfeydd hyn a'r cyfleoedd i gael gwybodaeth, cafwyd negeseuon cymysg ynghylch i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn dilyn tueddiadau neu'n cadw at gyngor a phwysau cymdeithasol. Mae'n werth nodi bod cyfran arwyddocaol o'r ymatebwyr yn honni eu bod yn awyddus i wneud fel y mynnen nhw, ac nid cael eu darbwyllo gan neb arall, gan wneud yr hyn oedd yn addas i'w fferm nhw a'u busnes nhw. Roedd yn ymddangos bod rhai o'r ymatebwyr hyn am gael eu nabod fel pobl wahanol, ac roedden nhw yn aml yn eithaf arloesol a mentrus yn eu busnes, sef pwynt yr ymhelaethir arno isod.

Y naill ffordd neu'r llall, roedd brwdfrydedd i ymgysylltu â syniadau newydd a chanfod pa gyfleoedd oedd ar gael yn amlwg ar draws cyfran fawr o'r ymatebwyr, hyd yn oed os nad oedden nhw wedi newid eu harferion busnes a ffermio o ganlyniad i hynny. Ar rai o'r ffermydd mwyaf arloesol a blaengar, soniodd yr ymatebwyr eu bod wedi darllen am wahanol dechnegau, er mwyn dysgu am systemau mwy cynaliadwy a systemau a llai o fewnbwn, gan ymateb i bryderon am wydnwch eu busnesau yn y dyfodol. Roedd yr ymchwil hon yn aml yn cael ei gwneud yn breifat, gan ddefnyddio gwybodaeth oddi ar y rhyngrwyd, ond bernir bod y gallu i drafod syniadau gyda chyd-ffermwyr yn hanfodol hefyd.

Er hynny, ar ôl awgrymu bod darllen am syniadau newydd yn bwysig i rai ffermwyr blaengar sydd â chymhellion amgylcheddol, mae'n bwysig ychwanegu bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn dweud bod gwaith papur a gormod o daflenni polisi yn broblem aruthrol, fel y nodwyd yn gynharach. Gan hynny, awgrymir y bydd pobl yn dod o hyd i amser i ddarllen ac astudio pethau y maen nhw o'r farn eu bod o bwys i'w busnes, ac sy'n apelio at eu blaenoriaethau a'u hymdeimlad o hunaniaeth fel ffermwr, ond eu bod yn llai awyddus i ddarllen y rheoliadau a'r polisïau diweddaraf. Mae'n hollbwysig bod llawer yn dadlau eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i amser i ddarllen taflenni, sef pwynt nad oes modd ei wrthod o gofio eu horiau gwaith (sef rhywbeth yr oedd yn aml yn gorfod cael ei ddatrys er mwyn cynnal cyfweliadau). Ond, bernid bod cylchgronau fel 'Gwlad' a ffynonellau tebyg o wybodaeth a all gael ei throsglwyddo'n gyflym yn fuddiol iawn ac yn bwysig iawn. Mae'n werth nodi bod arolwg yr Arsyllfa (2010) wedi gweld bod 66% o'r ffermwyr o'r farn bod Gwlad naill ai yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Pwynt arall am ffynonellau gwybodaeth oedd yr awgrym gan rai o'r ymatebwyr y gallai rhaglenni teledu fod yn ffordd dda i gyfle syniadau am gadwraeth a blaenoriaethau amgylcheddol. Yn benodol, dadleuwyd y byddai gwybodaeth ar ffurf felly yn fwy difyr, ac yn gosod llai o bwysau na llyfrynnau a chyfarfodydd.

Wrth fyfyrio ar effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu eraill, roedd yn amlwg nad oedd grwp Mynyddoedd Cambria'n frwd iawn ynglyn â'r ymarfer archwilio carbon a gynhaliwyd gyda nhw, ac yn yr un modd roedd cyfarfodydd cyhoeddus a dulliau delweddu heb apelio hefyd.

> *CYF: Beth yw'ch barn chi am y dull ecosystem felly sy'n cael ei ddatblygu nawr a'r mapiau, y mapiau* polyscape *mae'r grwp ym Mhrifysgol Bangor wedi bod yn eu gwneud, sut gall ffermwyr ddechrau cymryd rhan yn hynny yn eich barn chi …*

> *YMAT: Beth fyddai ddim yn gweithio mae'n debyg yw cyfarfodydd, y cyfarfod gawson ni lawr yn Aberystwyth, llawer o hyn'na, llawer ohono wnes i ddim deall a dwi wedi cymryd rhan ynddo i raddau … felly fyddai llawer o ffermwyr jyst ddim, ddim…mae'n anodd gwybod hefyd at beth y gallai gael ei ddefnyddio yn y dyfodol hefyd pwy fyddai'n ei ddefnyddio ac i ennill beth a dweud y gwir. (CMI 2)*

Yn hyn o beth mae'n bwysig nodi bod y dull 'polyscapes' (Pagella 2011) wedi cael derbyniad da gan rai, a bod y tîm ymchwil sy'n gwneud y gwaith mapio wedi dadleu ei fod yn ffordd effeithiol iawn i ennyn diddordeb ffermwyr. Nid yw'r adroddiad hwn yn bwriadu dadlau yn erbyn yr haeriad hwnnw, ac mae' cydnabod bod dulliau gweledol yn bwysig iawn wrth gyfleu syniadau. Ond yr hyn sy'n amlwg o'r astudiaeth hon yw bod ffermwyr yn ofalus ynghylch sut mae gwybodaeth yn gymwys iddyn nhw, ac a ydy hi yn cael ei chasglu a'i hasesu ar gyfer cynulleidfaoedd eraill a dim mwy (gweler hefyd CCRI / Macaulay 2007). Yn yr un modd, maen nhw'n glir nad ydyn nhw'n cael eu sbarduno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac ymarferion tebyg. Ond mae trafodaethau sy'n digwydd ar eu fferm yn fwy effeithiol.

Wrth fyfyrio ar lwyddiannau prosiect LIFE, mae'n amlwg bod yr agwedd gydadweithiol yn ogystal â'r agwedd weledol yn hollbwysig o ran cyfathrebu effeithiol. Mae hyn yn mynd yn ôl at bwyntiau cynharach am yr angen am brosiectau arddangos.

> *…dyna'r allwedd mewn ffordd …mynd a nhw o fyny yna … mae'n egwyddor debyg os dangoswch chi luniau a hyd yn eod dangos fideo o waith cau traeniau'n digwydd mae hynny'n un peth. Rydych chi'n dangos y gwaith cau traen yn digwydd ac maen nhw'n gallu cerdded o amgylch, gweld o wahanol onglau. Mae'n effaith lawer mwy cadarnhaol. (LIFE PO)*

Wrth ddisgrifio pam roedd agweddau wedi newid tuag at y gwaith cau ffosydd, dywedodd ffermwr a oedd yn cymryd rhan ym mhrosiect LIFE:

> *Mae wedi newid am ein bod ni'n siarad â llawer o ffermwyr. Mae ffermwyr yn chwilfrydig pan ddechreuwch chi wneud rhywbeth … (LIFE 1)*

Ac fel y dywed y swyddog prosiect:

> *Dwi'n gwybod bod eitha tipyn o ffermwyr wedi cael sgwrs â'n rheolwr fferm lawr yn y farchnad a gofyn beth uffern roedd e'n credu ei fod yn ei wneud a phan esboniodd e pam roed de wedi rhoi caniatâd iddo fynd yn ei flaen er ei fod e'n … roedd e'n dal i gadw llygad ac yn ofalus a wnaeth e ddim rhoi ei arian i gyd i mewn un het. A dwi'n credu ei bod hi'r un fath â'r ffermwyr dros y Migneint... (LIFE PO)*

> *Fe gafodd ei effaith yn bendant edrych dros y ffens a gweld beth ddigwyddodd …y rhai a ddaeth i Efyrnwy a'i weld e dair neu bedair blynedd i lawr y lein gafodd hynny ddylanwad cadarnhaol. Achos eu bod nhw'n gallu gweld bod y pyllau'n dechrau diflannu a llenwi â llystyfiant a'i fod yn dod yn dir i bob pwrpas ac nid dwr drwyddi draw a'u bod nhw'n dal yn gallu cerdded ar draws ac roedd popeth yn iawn. A dwi'n meddwl bod hynny wedi cael effaith gadarnhaol hefyd. (LIFE PO)*

Yn yr un modd, roedd yn bwysig bod y ffermwyr yn cael dod i ofyn cwestiynau, yn hytrach na dod o dan bwysau i ymuno â'r cynllun. Ac am eu bod yn gallu siarad â'r ffermwr sy'n denant ar y tir y mae'r prosiect LIFE yn rhedeg arno, yn hytrach na chadwraethwr, roedd hyn yn gwneud y gwahaniaeth i gyd. Fel y dadleuodd y ffermwr:

> *YMAT: Rwy'n credu ei bod yn well yno [yn y farchnad] am fod pobl, mae'n well os bydd pobl yn dod atoch chi i siarad …yn lle eich bod chi'n mynd atyn nhw i drio …*

> *CYF: Felly mae'r ffermwyr hyn sy wedi cymryd rhan, maen nhw'n bobl sy wedi dod atoch chi … [Ydyn]… yn hytrach na mynd atyn nhw a dweud, "mae hon yn ardal dda yr hoffen ni wneud gwaith cau ffosydd ynddi", petaech chi'n gwneud hynny fe welwch chi fod pobl fel "cer o 'ma!"?*

> *YMAT: Gofalus iawn on'd ydyn? Os trowch chi i fyny ar garreg y drws a dweud eich bod chi am gau, wel petaech chi'n troi i fyny yma a dweud, dwi am gau'r draen … byddwn i'n dweud, wel …mae hyn ar dâp felly wna i ddim dweud … Ond na fe ges i fod rhyw dri neu bedwar o bobl sy …Dyw e ddim i gyd achos bod nhw wedi siarad â fi, ond efallai fod hynny wedi helpu i'w perswadio i newid eu meddwl. (LIFE 1)*

Mewn mannau eraill, cafodd pwysigrwydd cadwraethwyr a swyddogion prosiect da ei atgyfnerthu (gan ategu sylwadau a wnaed mewn adrannau blaenoro) ac mae hyn yn dangos faint o wahaniaeth y gall hyn ei wneud i gynlluniau ac i waith amgylcheddol yn ehangach:

> *CYF: Oedd hynny'n rhan bwysig o'r cynllun, cael rhywun i ddod allan?*

> *YMAT: O oedd dwi'n meddwl, y peth yw dwy ddim yn credu y bydden ni wedi mynd i mewn oni bai bod gennyn ni rywun yma chi'n gwybod i'w esbonio fe achos rydych chi'n cael y taflenni ganddyn nhw yn y post heb eu darllen nhw, dim ond eu gosod nhw y naill ochr ond os oes gennych chi rywun i'w ddehongli fe a dweud y cyfan y mae rhaid ichi ei wneud yw hyn a hyn mae hynny'n ei gwneud yn fwy syml, rwy'n credu ei bod yn dda cael rhywun i ddod allan. (WRO 17)*

*…llawer mwy defnyddiol na chael darn o bapur a'r math yna o beth. Egluro ychydig bach yn wahanol on'd ydyn?...eich cynghori chi pa gaeau sy'n gwneud beth … roedden nhw'n egluro ichi beth … wel y gwahanol bwyntiau ynddo, beth oedd ystyr y pwyntiau a pha rai y dylech chi fynd amdanyn nhw ac oedd roedd hynny'n eitha da. (WRO 179)*

**Crynodeb: At ei gilydd, tanlinellwyd mathau gweledol a llafar o gyfathrebu fel y ffynonellau gwybodaeth mwyaf poblogaidd. A'r ffordd orau i gyfleu'r wybodaeth oedd pan fyddai ffermwyr yn chwilio amdani o'u pen a'u pastwn eu hunain yn hytrach na chael eu gwthio i ddangos diddordeb. Gan hynny, dadleuir bod prosiectau arddangos yn arbennig o effeithiol, yn enwedig pan fydd y ffermwyr yn gallu trafod syniadau a dulliau newydd gyda ffermwyr eraill. Yn yr un modd bernid bod grwpiau trafod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth a chymorth.**

## Dylanwadau cymdeithasol

**Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae deinameg gymdeithasol yn effeithio ar benderfyniadau ffermwyr a'u hymgysylltiad â'r amrywiol ffynonellau gwybodaeth a nodwyd uchod.**

Ar ben cyfathrebu effeithiol, perthnasoedd gweithio da, a ffynonellau gwybodaeth priodol, mae hefyd yn amlwg bod deinameg gymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei derbyn a'i phrosesu. Fel yr amlinellwyd uchod, mae cyfran fawr o'r wybodaeth a gafodd y ffermwyr yn dod i law o dan amgylchiadau cymdeithasol iawn: drwy drafod gyda ffrindiau, teulu a chyd-ffermwyr - yn y farchnad, mewn grwpiau trafod arbenigol neu yn y dafarn.

Ar sail astudiaethau blaenorol, awgrymir y gallai effaith rwydweithiol fod yn gydran bwysig ran derbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ac yn fwy diweddar mae'r profiad o osod offer ynni cynaliadwy yn dangos tuedd debyg lle mae cymdogion yn copïo ei gilydd. O gofio'r math hwn o ymddygiad, byddai'n hawdd casglu bod rhyw fath o bwysau cymdeithasol i'w weld ym mhenderfyniadau ffermwyr, fel y dywedodd un ymatebydd:

> *Mae'n amlwg eich bod yn siarad â phobl sy wedi bod yn fwy ymwybodol o beth mae'r sefyllfa'n olygu, ffermwyr eraill sy wedi edrych i mewn i bethau, a mwy na thebyg rydych chi'n ymddwyn yn union fel eich stoc chi, mewn geiriau eraill rydych chi'n cael ei ch arwain fel defaid. (WRO 13)*

Er hynny, mae rhagor o ymchwil yn dangos darlun cymhleth. Yn benodol, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu, yn hytrach na dilyn tueddiadau'n ddi-gwestiwn, neu ymateb i bwysau eu cyd-ffermwyr i gydymffurfio, ei bod yn ymddangos yn amlach nad oedd cydadwaith gymdeithasol ond yn cyflwyno syniadau newydd i ffermwyr, gan roi cyfle iddyn nhw ddysgu o brofiadau pobl eraill. Roedd llawer fel petaen nhw'n glir bod rhaid iddyn nhw wneud eu penderfyniadau eu hunain i gyd-fynd â'u fferm / tir / amgylchiadau nhw ac y byddai'n ffôl gwneud fel arall.

> *CYF: O ran gwneud penderfyniad i gymryd rhan yn y cynllun, ydy hi'n gwneud unrhyw wahaniaeth i chi beth mae'ch cymdogion yn feddwl? Beth mae pobl eraill yn wneud?*
>
> *YMAT: Na.*
>
> *CYF: Na, dych chi'n gwneud beth sy'n eich siwtio chi?*
>
> *YMAT: Na, does neb yn meddwl … na, does bosib. Dyw beth mae'r cymydog yn ei wneud ddim yn effeithio ar benderfyniad dyn. Na. Dwy ddim yn gwneud hynny. (WRO 146)*

Os ydyn nhw'n ymuno â 'thuedd' er enghraifft derbyn grant penodol neu ymuno â chynllun, mae hynny'n digwydd am eu bod yn credu bod hynny'n fargen dda, y maen nhw'n awyddus i'w derbyn, yn hytrach na bod angen cydymffurfio. Yn yr ystyr honno, maen nhw'n awyddus i bwysleisio'u hunaniaeth fel pobl fusnes annibynnol a gwybodus neu graff. Awgrymodd llawer eu bod hyd yn oed yn ceisio bod yn wahanol a mynd yn groes i'r graen neu achub y blaen, gan ofyn i'r cyfwelydd a oedden nhw'n ymddangos yn wahanol i'r lleill, neu a oedden nhw wedi rhoi stori wahanol i'r arfer, ac felly yn sefyll allan rywsut.

Byddai eraill, a oedd yn llai awyddus i fod yn wahanol, yn mabwysiadu syniadau newydd â gofal, gan ddysgu o'r hyn yr oedd pobl eraill wedi'i wneud, ond gan wneud yr hyn a oedd yn ymddangos yn iawn i'w fferm nhw a newid arferion am eu bod yn gweld bod angen pendant:

> *…fel y gwartheg hyn, mae yna dri neu bedwar o ffermwyr yn y grwp a oedd i mewn i'r pethau hyn am efallai deng mlynedd ac roeddwn i'n meddwl o, pam maen nhw'n cadw nhw, chi'n deall beth sy gen i, ond ar ddiwedd y dydd yr elw sy'n talu'r biliau a'r milfeddyg,*

*roedd bil y milfeddyg yn mynd drwy'r to ac roedd ffrwythlondeb y gwartheg i lawr a phob math o broblemau felly a dwi'n meddwl bod angen imi newid rhywbeth yma. Wn i ddim os ydw i'n gwneud y peth iawn wna i ddim cael gwybod am ddwy neu dair blynedd mae'n debyg. (WRO 59)*

Yn aml, y ffermwyr oedd yn gogwyddo'n fwy tuag at gadwraeth a oedd yn eglur yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw a ffermwyr eraill. Ond, roedden nhw'n dadlau eu bod yn teimlo'n gyffyrddus â'u penderfyniadau am fod hynny'n addas i'w busnes:

*... Penderfynodd y gwr a minnau yn fwriadol, o achos maint y fferm, y bydden ni'n ffermio anifeiliaid roedden ni'n hoffi gan geisio gwneud i'r peth dalu mewn rhyw ffordd … mae gennyn ni'r buchod anfasnachol, tebyg i fuchod fferm hobi ac mae pobl yn chwerthin am fy mhen i, ond ddim yn ddiweddar achos mae mwy o ffermwyr 'go iawn' yn eu cadw nhw o ran cadwraeth ...A dwi'n gwneud llawer mwy o'r tair dwi'n gwerthu drwy gynllun blychau na'r cyfan sy'n mynd drwy'r farchnad … O'r gorau, dwi ddim yn edrych fel ffermwr prysur go iawn ac mae pobl yn dweud pethau am hynny, ond os yw e'n talu'r biliau yn ffermio'r tir, yn cadw'r tir yn dda... wedyn dwi'n hapus gyda hynny. (WRO 45)*

*Mae'n anhygoel - roedden ni yn y* Royal Welsh *am wythnos, am ein bod nid ar safle gwartheg yr Ucheldiroedd a faint o 'ffermwyr go iawn' ddaeth i holi am, am eu croesfridio nhw …Nawr maen nhw'n dechrau rhoi ystyriaeth o ddifri i'r bridiau eraill yma. Dydy hynny ddim yn stopio'r stigma. Bydd y stigma yn parhau achos maen nhw, achos maen nhw mor bert maen nhw'n cael eu nabod fel buwch y ffermwr hobi on'd ydyn nhw. (WRO 45)*

*YMAT: Dim ond saith o ffermwyr organig, ffermwyr llaeth organig oedd yng Nghymru pan es i'n organig. Ac ro'n i'n eu nabod nhw i gyd, ond roedden nhw'n eitha, roedden nhw'n hipis, dych chi'n gwybod...nid am yr arian roedden nhw'n ei wneud e ond achos eu bod nhw'n credu ynddo fe. Ac fe wnes i fe, fe wnes i fe achos mod i'n credu ynddo, dim byd i wneud ag arian o gwbl, ond wedyn wrth gwrs yn y flwyddyn dwy fil dyma lawer o bobl yn neidio ar y bandwagon ai'i wneud e o ran yr arian bryd hynny.*

*CYF: Allech chi ddweud, oedd yna unrhyw fath cymdeithasol o...*

*YMAT: Stigma?*

*CYF: Ie… beth oedd barn eich cymdogion chi am hyn ...*

*YMAT: Roedden nhw'n meddwl fy mod i'n hurt, ond wedyn daethon nhw i sylweddoli yn y pen draw fod y peth yn gweithio pan welson nhw'n cnydau ni'n dod i mewn bron cystal â'u cnydau nhw. (WRO 42)*

*Mae cryn dipyn wedi troi'n organig wedyn, mae cymydog, fferm dau gant a hanner o erwau lan y ffordd wedi troi'n organig, yn llwyr, dwi'n credu, am ei fod e wedi gweld y newid yma … mae ffermwyr yn hynod o chwilfrydig, ydyn. Yn enwedig nawr na allan nhw weld sawl tsyrn llaeth sydd ar y stand laeth. Y* dipstick *oedd hi'n arfer bod. Roeddech chi'n arfer gweld os oedd ganddyn nhw ddeg stand, deg tsyrn ond erbyn hyn mae'n fwy anodd achos mae'r tancer llaeth yn dod nawr a gallen nhw fod yn mynd â mil o litrau neu ddeg mi, allwch chi ddim dweud. (WRO 42)*

Yn hyn o beth mae'n amlwg bod stigma a phwysau cymdeithasol i'w gweld ac yn perthyn yn benodol i syniadau ynglyn â bod yn 'ffermwr go iawn'. Ymhellach, cydnabyddir bod anawsterau wedi bod yn

aml ynglyn â derbyn cadwraeth ac arferion organig o ganlyniad i'r stereoteipiau hyn. Er hynny, mae ffermwyr sy'n mabwysiadu'r arferion hyn wedi dangos mesur o ystyfnigrwydd ac mae'n ymddangos eu bod yn ddigon 'croendew' ynghylch yr agweddau cyffredin, gan gymryd cysur yn noethineb eu penderfyniadau. Yn hyn o beth, mae yna debygrwydd â ffermwyr eraill sy'n gogwyddo at fusnes ac sy'n flaengar, sy'n awgrymu bod llawer o ffermwyr yn fodlon bod yn wahanol a mynd yn goes i'r graen.

Mae hefyd yn bwysig nodi mor bersonol yw ffermio, gyda phob daliad yn cynnig heriau a chyfleoedd unigol, sy'n ategu'r rheidrwydd i fod yn unigolyn a gwneud dewisiadau sy'n addas i'ch darn chi o dir.

Er hynny, mae'n glir bod pwysau cymdeithasol yn effeithiol o ran yr argraff o daclusrwydd a golwg gyffredinol y fferm a'r stoc. Efallai fod hyn yn amlycach yn yr ystyr bod ffermwyr yn pwyso a mesur ffermydd pobl eraill, yn hytrach na chyfaddef eu bod yn ymboeni â'r hyn y byddai pobl eraill yn ei feddwl, sydd unwaith eto'n ategu'r ymdeimlad eu bod yn unigolion ystyfnig. Er enghraifft mae'r dyfyniadau a ganlyn yn dangos sut mae ffermwr yn gwrthod yr awgrym ei fod yn poeni am farn pobl eraill amdano, ond yn dangos ei fod yn beirniadu eraill:

> *CYF: Beth am eich cymdogion, unrhyw un arall yn yr ardal yn cymryd rhan mewn cynlluniau?*
>
> *YMAT: Ambell un oes.*
>
> *CYF: Ydy hynny wedi effeithio ar eich penderfyniad am gymryd rhan neu beidio?*
>
> *YMAT: Wel ychydig bach, mae yna un i fyny'r ffordd …nawr mae e wedi ffensio'r cyfan gyda'r afonydd ac ati ac mae'n edrych, i mi mae'n edrych yn salw...*
>
> *[yn nes ymlaen yn yr un cyfweliad:]*
>
> *CYF: Felly i ba raddau y byddai barn pobl eraill am olwg eich fferm yn dylanwadu ar eich dewisiadau chi?*
>
> *YMAT: Ddim llawer, rwy'n gwneud beth rwy i am wneud, does dim ots gen i am farn neb arall. (WRO 43)*

Math arall o 'bwysau' cymdeithasol oedd yn amlwg oedd y ffordd yr oedd ffermwyr yn aml yn dod o dan ddylanwad sïon am bolisi, yn enwedig felly ynglyn â Glastir.

> *I fod yn onest dwi wedi bod yn siarad ag ambell i ffarmwr ac maen nhw wedi jyst dych chi'n gwybod, wedi'i daflu naill ochr. Felly, i fod yn onest wnes i ddim edrych arno lawer, jyst mynd yn ôl eu barn nhw, roedden nhw'n ffermwyr eitha blaengar, roeddwn i'n meddwl eu bod nhw wedi mynd drwyddo. Mae'n debyg y dylwn i fod wedi mynd drwyddo fy hunan a dweud y gwir dwi'n gwybod, ond dyna'r agwedd ato. Dim ond rhyw 3,000 wnaeth ei dderbyn e beth bynnag, ynte? (WRO 43)*
>
> *CYF: Wnaeth hynny effeithio ar eich penderfyniad chi [i ymuno â Glastir]…?*
>
> *YMAT: Wel mae'n rhaid ichi edrych drosoch eich hun a byddwch chi'n gweld beth yw'ch barn chi ynte? Ond mae llawer o ffermwyr wedi dweud na am eu bod nhw'n clywed pobl eraill yn dweud na, felly mae hi jyst …Chi'n gwybod, dwi'n credu bod llawer o ffermwyr wedi clywed amdano ac wedi clywed pobl yn ei feirniadu felly [ie] man a man iddyn nhw ei feirniadu fe hefyd. (WRO 179)*

Ond unwaith eto, er bod llawer yn ofalus oherwydd y sylwadau negyddol ac yn amlwg yn ymwybodol o sylwadau pobl eraill, roedd yna ddadl glir hefyd y bydden nhw'n gwneud yr hyn oedd yn fwyaf addas i'w fferm nhw.

At ei gilydd, er bod mesur o bwysau cymdeithasol yn bodoli, mae'n amlwg bod pwysigrwydd bod yn berson busnes annibynnol yn ddylanwad mwy

uniongyrchol. Wrth fyfyrio ar drafodaethau cynharach ar y fforymau grwp, roedd yn arbennig o amlwg bod llawer o'r ymatebwyr wedi sôn am agwedd gystadleuol yn y grwpiau hyn. Felly, fe allai ymyriadau i wella sgiliau busnes geisio adeiladu ymhellach ar hyn.

> *A dweud y gwir rydyn ni am ddechrau gwneud y costau drwy'r grwp hefyd nawr. Dwi wastad wedi gwneud costau'r llaethdy ers inni ddechrau gwerthu llaeth a dweud y gwir, ac roeddwn i wastad yn hoffi tablau cynghrair fel fy mod i'n gwybod ble dych chi'n gwybod ydw i'n gwneud yn dda neu beidio. Dwi fel arfer yn hoffi bod rywle yn y pump ucha. (WRO 43)*

**Crynodeb: Bernir bod trosglwyddo gwybodaeth drwy rwydwaith cymdeithasol yn ffordd bwysig o gyfathrebu i ffermwyr, gyda chymdogion a chyfoedion yn aml yn mabwysiadu cynlluniau tebyg. Er hynny, dadleuir nad yw ffermwyr yn syml yn cydymffurfio â 'phwysau eu cyfoedion', ond yn ceisio sicrhau eu bod yn gallu sicrhau'r fargen orau sydd ar gael. Ymhellach, maen nhw'n aml yn awyddus i haeru eu bod yn bobl fusnes annibynnol, gan wneud yr hyn sy'n addas i'w fferm nhw yn unig. Mae hefyd yn glir bod llawer yn gystadleuol iawn ac mae hyn yn ffordd bwysig o'u cymell i wella'u busnes.**

## Deinameg y teulu

**Yn yr adran hon ystyrir dylanwad deinameg y teulu yn y busnes ac yn y prosesau penderfynu, gan gyfeirio'n benodol at rôl gwragedd ffermwyr a chwestiwn yr olyniaeth.**

Wrth fyfyrio ar ddeinameg gymdeithasol a dylanwadau ar benderfyniadau, mae pwysigrwydd y teulu yn ffactor sy'n uchel ochr yn ochr â rôl cyd-ffermwyr. Fel yr amlinellwyd ar y dechrau, yn aml roedd holl aelodau'r teulu yn rhan o'r busnes, gydag o leiaf 50% o'r ymatebwyr yn gweithredu fel partneriaeth gwr a gwraig. Cafodd yr ymatebwyr eu cyfweliad fel grwp teuluol yn aml ac roedd deinameg hynny yn amlwg yn y trafodaethau am benderfyniadau. Weithiau roed yn ymddangos bod hyn yn beth da, gan fod gwahanol aelodau o'r teulu'n cynnig syniadau newydd ac yn ychwanegu arloesed at y busnes.

Mae'n ddiddorol mai'r menywod yn aml oedd fwyaf ymwybodol o'r angen i arallgyfeirio ac ystyried materion amgylcheddol. Roedden nhw hefyd am gael rhagor o wybodaeth a chael llai s ar y fferm. Er enghraifft, y menywod yn aml oedd yn awyddus i gyfwelydd ymweld er mwyn iddyn nhw rannu profiadau a chyfrannu at yr adroddiad hwn (cydnabyddir mai menyw oedd y cyfwelydd hefyd, ac y byddai hynny felly yn effeithio ar ddeinameg y sefyllfa). Er hynny, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu ei bod yn bwysig helpu menywod i ddatblygu eu sgiliau busnes, nid dim ond fel ysgrifenyddesau a gweinyddwyr, ond fel partneriaid sydd yn aml yn chwarae rhan gyflawn mewn penderfyniadau busnes (gweler hefyd Gasson 1992). Er enghraifft, amlinellodd un ymatebydd sut roedd yn cymryd rhan mewn grwp i wragedd fferm, a oedd yn llawer mwy effeithiol nag anfon ei gwr i grwpiau tebyg Cyswllt Ffermio:

> *…yr hyn rydyn ni wedi'i weld yw, roedd hi'n ddigon hawdd anfon y gwyr ...ond dydyn nhw ddim yn cymryd nodiadau... Ni sy'n gorfod gwneud y gwaith papur. Ac mae'n llawer haws i ni fynd a chael y wybodaeth. Ac mi rydyn ni'n cymryd nodiadau. Mi ddwedodd un o'r siaradwyr a dweud y gwir, am fod pawb yn eistedd ac roedd e ar fin cychwyn, a dyma bawb yn codi pensil a phapur...a dwedodd e, o, mae hynny'n anarferol. (WRO 21)*

> *A'r gwragedd, dydyn ni ddim mor ffals gyda'n gwybodaeth. Dwi'n meddwl weithiau gyda'r dynion eu bod yn meddwl efallai y byddai'r cymdogion yn ei beirniadu nhw a dweud, er dyna beth gwirion i'w wneud. Ac felly dydyn nhw ddim yn dweud beth maen nhw'n wneud. Ond fe fydden ni'n dweud, o, rydyn ni'n gwneud hyn - o, mae'n anodd iawn gen i wneud hyn. (WRO 21)*

Roedd yn ymddangos bod y gosodiad uchod yn wir ar nifer o adegau pan fyddai menywod yn siarad yn llawer mwy agored am bryderon neu anawsterau ynglyn â busnes y fferm. Er enghraifft, wrth gymharu gosodiad y wraig â gosodiad y gwr ar fanteision grwpiau trafod:

> *YMAT2: Mae ffermio'n bur unig on'd ydy, ac mae'n gwneud les dod at eich gilydd yn llawer mwy achos yn y math yn o beth rydych chi'n ei fwynhau.*

> *YMAT: Ydy…neis gweld bod rhywun arall yn gwneud cawl ohoni. (WRO 43)*

Er hynny, roedd cyfran arwyddocaol o fusnesau oedd yn cael eu rhedeg gan ddynion yn unig, gyda gwragedd oedd fel pe na baen nhw'n cymryd rhan, heblaw ceisio'u cefnogi fel gwraig ty. Roedd ganddyn nhw werthoedd traddodiadol iawn ac yn ymddangos yn bur nerfus yn siarad ar ran eu gwyr. Gan hynny, mae'n bwysig sylweddoli bod ffermio a'r bywyd gwledig perthynol yn dal yn rhanedig iawn o ran y rhywiau ac yn elitaidd. Mae'n bwysig felly sicrhau bod menywod a grwpiau lleiafrifol eraill yn gallu cael eu cynnwys mewn ffermio, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw gyfle da hefyd i gael gwybodaeth ac nad ydyn nhw'n cael eu gwthio i'r ymylon.

> *…a dwi'n fenyw, a dydy hynny ddim yn helpu… Mae'n dal yn broblem. Yn broblem fawr iawn. Mae'n anhygoel. Dwi' nabod sawl menyw sy'n ffermio ac maen nhw'n dal yn meddwl ein bod ychydig yn od. Wn i ddim faint mae'n mynd i gymryd i bethau newid... (WRO 45)*

Yn yr un modd, mae mewnfudwyr yn aml yn cael eu gwthio i'r ymylon yn y gymuned ac mae'n bwysig sicrhau felly nad ydyn nhw'n cael eu cosbi, neu'n methu bwrw ymlaen â'u syniadau busnes dim ond am na allan nhw gyrraedd y rhwydweithiau 'cywir'.

I droi yn ôl at rôl aelodau'r teulu wrth wneud penderfyniadau, dyma rywbeth a ddaeth yn glir iawn o brofiad prosiect LIFE. Yn benodol, amlinellodd swyddogion prosiect a ffermwyr ill dau fod canolbwyntio ar grwpiau ysgol a digwyddiadau addysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn gydran bwysig yn y prosiect. Yn hyn o beth dadleuwyd y byddai'r plant wedyn yn dod adref ac yn siarad â'u rhieni am y digwyddiadau gan gael mwy o effaith na chadwraethwr yn ceisio gwthio' neges.

Yn yr un modd, o ran busnes y fferm, nodwyd rôl y plant eto. Yn benodol, mae'n amlwg bod olyniaeth yn fater o bwys i deuluoedd amaethyddol ac yn ddylanwad aruthrol ar benderfyniadau. Gwelir hyn yn y dyfyniad a ganlyn, lle'r oedd ystyried dymuniadau'r olynwyr yn gosod dyfodol y fferm yn y fantol:

> *Gyda ni, mae'r mab am ffermio. Fel arall fydden ni ddim yn gwneud beth rydyn ni'n ei wneud, bydden ni … bydden ni wedi ymddeol wrth werthu'r dafarn …Fe yw'r un syn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith …ond y cyfan mae eisiau ei wneud yw godro felly, cynhyrchu llaeth yw ei ddiddordeb e mewn ffermio …felly dyna'r llwybr i ni, yw mynd i mewn i laeth pan fo pawb arall yn dod allan. (WRO 16).*

Roedd cwestiwn yr olyniaeth hefyd yn fater allweddol a godwyd yn y trafodaethau ar waith cadwraeth ar y fferm, a chael ei gynnig fel y prif reswm dros sicrhau hyfywedd y tir at y dyfodol.

Un pwynt olaf i'w nodi ar ddeinameg y teulu yw'r gwahanol alwadau gwaith ar aelwyd amaethyddol, gyda'r ffermydd mwyaf yn unig yn gallu cadw aelodau'r teulu mewn cyflogaeth lawn. Ar un rhan o dair o leiaf o'r ffermydd roedd rhaid i'r ymatebwyr weithio mewn dwy swydd, gyda'r oriau'n gwneud cyfanswm o lawer mwy na gwaith amser-llawn arferol. Ategir hyn gan arolwg yr Arsyllfa yn 2010 a ddangosodd fod 41% o aelwydydd fferm incwm o'r tu allan i ffermio yn ogystal ag incwm ffermio, gyda 39% o'r ffermydd bach iawn yn credu mai incwm oddi ar y fferm oedd y ffynhonnell incwm bwysicaf.

Yn aml rodd hyn yn waith a oedd yn gysylltiedig â ffermio er enghraifft contractio, gyrru, codi siediau, tra oedd menywod yn ymwneud ag ystod o weithgareddau ychwanegol a oedd yn cynnwys addysg, manwerthu, arlwyo neu weinyddu. Roedd cyfran fach o'r ffermydd hefyd yn rhedeg B&B neu'n prydlesu tir. Dadleuir yn aml yn y llenyddiaeth fod arallgyfeirio o'r fath yn beth cadarnhaol, ond mae hefyd yn bwysig nodi'r anawsterau sy'n cael eu dioddef wrth weithio oriau mor hir, yn enwedig o gofio'r ymroddiad sy'n angenrheidiol mewn hwsmonaeth anifeiliaid. Er enghraifft, roedd llawer o'r ffermwyr yn dadlau bod yr angen i gymryd gwaith oddi ar y fferm yn cyfaddawdu ar eu gallu i reoli eu stoc yn iawn, a doedden nhw ddim yn credu ei bod yn ddoeth iddyn nhw gael eu hannog i weithio mewn ffordd o'r fath.

> *…dydy hynny ddim yn bolisi da os nad yw incwm ar y fferm yn talu digon …Rhaid bod rhywbeth o'i le ar wlad sy'n teimlo ei bod yn iawn bod ffermwyr yn gorfod gweithio rywle arall … Ond ffermio, mae e, mae e ynoch chi. Dyna'r unig ffordd i'r llywodraeth gael gwneud. Petaen ni'n bobl fusnes go iawn, drwyddi draw fel, wn i ddim… (WRO 45)*
>
> *Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ofalus gyda'r mat yna o beth ar hyn o bryd yn enwedig am fod gennyn*

*ni lawer o ffermydd eitha bach a phobl yn gweithio, mae'n anodd iawn, iawn cadw swydd amser-llawn yn mynd a'r fferm yn mynd …dydych chi ddim yn cael gwneud pethau … Os ydych chi adre drwy'r dydd gyda'r stoc wel mi wna hynny yfory, ond allwch chi ddim a dwi yn y sefyllfa … mae'r lle yma'n rhy fawr i redeg swydd ac mae'n rhy fach i wneud bywoliaeth felly rydych chi rhwng dwy stôl. Mae'n rhaid ichi weithio i ennill bywoliaeth ond rhaid ichi geisio cadw stoc ddechau yma hefyd a cheisio cael y gorau o'ch stoc mae'n rhaid ichi ofalu amdanyn nhw sy'n anodd iawn. (WRO 101)*

**Crynodeb: Ar sail yr ymchwil hon mae'n amlwg nad yw ffermwyr fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain a'u bod yn aml yn pwyso a mesur effaith eu penderfyniadau ar eu teulu hyd yn oed os na fydd aelodau'r teulu yn cymryd rhan uniongyrchol yn y penderfyniad. Mae'n bwysig cymryd hyn i ystyriaeth oherwydd er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau, dylai'r cyfathrebu gael ei anelu at grwp amrywiol, gan gynnwys gwragedd a hyd yn oed blant. Mae hefyd yn bwysig ystyried sut mae'r fferm yn gweithio fel uned deuluol a straen rhedeg menter o'r fath, sydd yn aml yn cynnwys mwy nag un ffynhonnell o gyflogaeth a lle mae galwadau perthnasol yn cael eu gwneud.**

# ADRAN 8: CASGLIADAU

Mae'r adroddiad hwn wedi manylu ar ganfyddiadau ymchwil a wnaed i edrych ar y cwestiynau a ganlyn:

1. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr ynghylch eu busnesau fferm a chymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol?

2. Sut mae creu cymhellion mwy effeithiol i ddenu ffermwyr i gymryd rhan mewn mentrau amaeth-amgylcheddol ac i gyflwyno gwasanaethau ecosystem?

3. Sut mae helpu ffermwyr i redeg busnesau mwy cynaliadwy, a'r rheiny'n gallu gwrthsefyll heriadau'r dyfodol ar ffurf diwygio'r CAP, anwadalrwydd y farchnad, a chynnydd yn y costau mewnbwn?

Bwriad y gwaith yw bwydo mecanweithiau amaeth-amgylcheddol a mecanweithiau eraill y polisi gwledig, sy'n targedu gwaith i gyflwyno nwyddau a gwasanaethau ecosystem, a chyfrannu at wireddu Fframwaith Amgylchedd Naturiol a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru. Bwriedir i'r ymchwil gyfrannu at gynllunio diwygiadau'r CAP a mesurau polisi amaethyddol y dyfodol, i wella gwydnwch a chynaliadwyedd ffermio yng Nghymru.

Yn yr adroddiad, mae'r canfyddiadau hyn wedi'u rhannu'n dair prif adran: ar benderfyniadau amaeth-amgylcheddol, penderfyniadau busnes, a ffactorau ehangach sy'n effeithio ar benderfyniadau yn fwy cyffredinol. Mae pob un o'r rhain wedi'u rhannu yn eu tro yn isadrannau sy'n rhoi sylw i feysydd o ddiddordeb penodol. Ceir crynodeb ar ddiwedd pob is-adran drwy'r adroddiad. Mae'r rhain wedi'u tynnu at ei gilydd yn yr adran derfynol hon i roi casgliadau ehangach, gan wneud cysylltiadau ar draws y gwahanol feysydd a chodi argymhellion allweddol ar gyfer polisïau ac ymyriadau eraill.

**Cwestiwn 1: Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau busnes ac ar benderfyniadau amaeth-amgylcheddol:**

Mae'n fwy effeithiol rhannu ffermwyr fesul segment drwy wahaniaethu rhyngddynt ar sail eu hymwneud â busnes a'u gallu i ymaddasu, yn hytrach na'u rhannu yn ôl mathau penodedig o hunaniaeth, neu yn ôl lefelau eu hymwneud â mentrau amaeth-amgylcheddol. Mae'r newid hwn ers astudiaethau blaenorol ar dderbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael ei awgrymu yng ngoleuni'r dystiolaeth bod y mwyafrif o ffermwyr bellach yn fodlon ystyried cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel ffordd i gynyddu gwydnwch eu busnesau. Mae mesurau amgylcheddol yn cael eu mabwysiadu nod yn unig am resymau ideolegol, ond yn fwyfwy fel strategaeth fusnes.

Mae gwahanol lefelau o ymgysylltiad busnes a hyblygrwydd yn awgrymu nad yw capasiti mor bwysig â pharodrwydd i newid. Dyma bwynt sy'n cael ei ddatblygu ymhellach mewn ymateb i gwestiwn 3.

Gan gadarnhau astudiaethau blaenorol, mae'r astudiaeth hon yn dangos bod derbyniad cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn dal i ddibynnu ar gydbwysedd addas rhwng cymhellion ariannol a'r gyfatebiaeth â'r cynlluniau rheoli presennol. Er hynny, mae'n werth nodi mai ymateb gwael iawn i'r cynllun Glastir a gafwyd ymhlith y ffermwyr y cyfwelwyd â nhw a bod llawer o aelodau Tir Gofal wedi dewis peidio ag ymuno, er eu bod wedi awgrymu yn arolwg yr Arsyllfa yn 2010 y bydden nhw'n ymuno. Gan fod rhai yn dal yn rhan o estyniad Tir Gofal, nid yw'r ffigurau derbyn terfynol ar gael eto. Mae'n werth nodi bod y mwyafrif o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rhai sydd heb gymryd rhan mewn cynllun o'r blaen, yn dangos eu bod yn fodlon ystyried y cynllun, ond wedi penderfynu wedyn yn erbyn ymuno.

Mae'r prif feirniadaethau ar y cynllun Glastir yn cynnwys lefelau isel y taliadau,

argraff bod lefelau'r cyfyngiadau yn uchel, a diffyg ymgysylltu â nodau'r cynllun. Awgrymir hefyd y gallai'r sylw negyddol yn y wasg ar effaith gychwynnol Glastir fod wedi cael effaith negyddol ar yr ymateb i'r cynllun gan nad yw pobl yn dangos diddordeb yn y cynllun mewn modd mor agored, ac y gallen nhw fod wedi cael eu llywio gan yr hyn y mae pobl eraill wedi'i ddweud wrthyn nhw.

**Cwestiwn 2: Cymhellion cynlluniau amaeth-amgylcheddol a gwasanaethau ecosystem:**

Mae angen mynegi nodau ac amcanion Glastir ymhellach er mwyn hybu mwy o gyfranogi. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwaith blaenorol sy'n pwysleisio mor bwysig yw eu dilysrwydd tybiedig wrth dderbyn polisïau.

Yn benodol, mae ffermwyr yn gwrthwynebu'r hyn y maen nhw'n ei weld fel ffocws uwch ar flaenoriaethau cadwraeth ar draul cyflenwad diogel o fwyd. Yn benodol, roedd yna feirniadu hallt ar opsiynau rheoli a oedd yn gofyn am roi'r gorau i gynhyrchu bwyd ar dir, neu a oedd yn lleihau ei gapasiti cynhyrchiol yn ddifrifol. Bernir bod y tensiwn hwn yn deillio o ymdrech ddiweddar i sicrhau gwell cynhyrchedd ochr yn ochr â'r angen i leihau effaith amaethyddiaeth ar yr amgylchedd. Felly mae angen strategaeth amaethyddol fwy cydlynol, a llai o negeseuon cyferbyniol gan y llywodraeth. Yn hyn o beth, bernir bod systemau isel eu mewnbwn, systemau organig a systemau amaeth-ecolegol yn fodelau pwysig i wireddu'r nodau cyfun hyn, gyda llawer o ffermydd yn mabwysiadu elfennau o'r systemau hyn i wella gwydnwch eu busnesau. Mae angen rhagor o gymorth i'r dulliau hyn.

Gan adeiladu ar y pwynt hwn, mae'n amlwg nad yw'r mwyafrif o ffermwyr yn fodlon cyfaddawdu ar allu eu fferm i gynhyrchu bwyd, hyd yn oed i gael enillion ariannol yn y tymor byr, gan eu bod yn awyddus i gadw busnes y fferm i'r to sy'n codi. Cyfran fach iawn yn unig o'r ymatebwyr, a oedd heb ymlyniad â'u hunaniaeth fel ffermwr, a oedd yn fodlon newid defnydd eu daliadau. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â chorff eang o waith ymchwil ar hunaniaeth ffermwyr', yn ogystal ag arfarniadau diweddar o gynlluniau 'Taliadau am Wasanaethau Ecosystem'. Mae gwerthfawrogi'r blaenoriaethau hyn nid yn unig yn bwysig ar gyfer y polisïau amaeth-amgylcheddol presennol, ond bydd hefyd yn hanfodol er mwyn datblygu cynlluniau yn y dyfodol i wireddu gwasanaethau ecosystem.

Er hynny, mae'n amlwg bod llawer o'r ymatebwyr yn cydymdeimlo â blaenoriaethau cadwraeth. Awgrymir felly y gallai cyfleoedd i wneud gwaith cadwraeth, drwy gymorth grantiau bach, fod yn ffordd effeithiol i ennyn diddordeb ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn teimlo'n analluog neu'n anfodlon ymuno â chynlluniau.

Er hynny, mae'n amlwg bod cyfathrebu yn rhwystr mawr sy'n atal y cynlluniau rhag ennyn ymateb llwyddiannus. Yn yr un modd, mae'n amlwg mai gwael iawn yw'r ddealltwriaeth o gysyniad gwasanaethau ecosystem. Dangoswyd bod cyfathrebu clir, drwy brosiectau arddangos effeithiol a trwy gymorth swyddogion prosiect, wedi gwella lefelau ymgysylltu, ond mae angen i'r gwaith hwn barhau. Bernir bod profiadau prosiect astudiaeth achos LIFE a amlinellir yn adran 7, yn benodol, yn berthnasol iawn yn hyn o beth.

Mae'r gwaith hwn yn dangos bod angen mwy na dim ond trefnu bod rhagor o wybodaeth ar gael, gan wella'r modd y mae'n cael ei chyfleu. Yn hyn o beth bernir bod agwedd fwy deallgar a pharchus rhwng cadwraethwyr a ffermwyr yn hanfodol er mwyn datblygu mesurau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol. Er enghraifft, dylai strategaethau ehangach y llywodraeth ar newid ymddygiad, sy'n canolbwyntio ar ennyn diddordeb, annog, ac arwain drwy esiampl, fod yr un mor gymwys yn y sector amaethyddol.

**Cwestiwn 3: Cefnogi busnesau fferm:**

Mae ystadegau ynghylch busnesau fferm yn dangos bod lefel uchel iawn yn agored i ostyngiadau yn y dyfodol yn y Taliad Sengl. Er hynny, yn yr astudiaeth hon, soniodd hanner yr ymatebwyr eu bod wrthi'n ystyried sut i ymaddasu. Cafod dyr awgrymiadau hyn eu seilio i raddau helaeth ar gynyddu effeithlonrwydd a gostwng costau, ond doedd dim strategaethau busnes cadarn i'w gweld. Yn hytrach roedd yn amlwg y byddai'r ymatebwyr yn ceisio addasu wrth i'r newid yn yr amodau ddod yn gliriach.

Er hynny, mae'n amlwg mai cyfrifyddu a rheolaeth ariannol oedd y meysydd gwannaf yn sgiliau busnes yr ymatebwyr. Gan hynny, bydd cymorth yn y meysydd hyn yn bwysig i sicrhau eu bod yn mabwysiadu mesurau yn y dyfodol. I lawer roedd dysgu gan eu cyfoedion a grwpiau cymorth yn helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn.

Mae'n werth nodi ei bod yn well gan y mwyafrif o ffermwyr wella ansawdd ac effeithlonrwydd eu sgiliau ffermio, yn lle arallgyfeirio'u busnesau. Yn groes i rai modelau o ddoethineb cyffredin, efallai nad arallgyfeirio yw'r ateb gorau bob tro. Yn benodol, fe allai ffermydd lle mae'r capasiti dynol yn gyfyngedig, am fod y ffermwyr eisoes yn ceisio gwneud gormod o ran y llafur sydd ar gael, wneud yn well drwy wella craidd eu busnesau. Nid yw hyn yn awgrymu mai strategaeth wael yw amrywiaeth o gynhyrchion, ond y gall amrywiaeth o fentrau fod yn ormod i rai ffermydd ymdopi ag ef. Mae arfarnu capasiti a chryfderau gwahanol aelwydydd ffermio, felly, yn bwysig er mwyn helpu i ddatblygu strategaethau busnes at y dyfodol.

Gwelwyd bod yna ben draw hefyd ar frandio arbennig ac ychwanegu gwerth, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio gydag adwerthwyr yr uwchfarchnadoedd. Gall fod yn fwy effeithiol gwella gwydnwch systemau ffermio drwy wella iechyd y da byw, gostwng costau'r mewnbwn, a chwtogi hyd y cadwyni cyflenwi. Er hynny, gwelwyd bod busnesau bach arbenigol, â chronfa gref o gwsmeriaid lleol, yn arbennig o wydn, ac yn fodel pwysig wrth symud tuag at economïau carbon-isel. Awgrymir gwneud rhagor o ymchwil ar y grwp hwn er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o sut y gall gwydnwch gael ei ddatblygu yn y dyfodol.

I droi yn ôl at gwestiwn cyfathrebu effeithiol, roed yn amlwg mai parodrwydd i newid a chapasiti pobl oedd y prif benderfynyddion ynglyn â hyblygrwydd y busnes. Yn hyn o beth, mae dod ar draws syniadau newydd a dylanwadau allan ôl yn arbennig o effeithiol, a nodwyd dylanwad gwasanaethau ymestyn yn benodol.

O ystyried sut y dylai gwaith cyfathrebu gael ei drefnu, roedd yn amlwg bod cyfran uchel o ffermwyr yn eu gweld eu hunain fel pobl annibynnol a chystadleuol yn eu busnesau. Mae apelio at y priodweddau hyn yn ffordd fuddiol i'w hannog i wella'u busnesau.

Yn yr un modd, dylid nodi bod y mwyafrif o ffermydd yn cael eu rhedeg fel mentrau teuluol. Dylai dulliau cymorth busnes a negeseuon polisi gael eu hanelu at y teulu cyfan, ac yn arbennig at wragedd ffermwyr, yn hytrach nag at un penderfynwr. Yn hyn o beth gwelwyd bod enghreifftiau o brosiect astudiaethau achos LIFE, a oedd yn golygu cyfleu blaenoriaethau amgylcheddol i blant ffermydd, yn arbennig o lwyddiannus; yn ogystal â grwpiau trafod Cyswllt Ffermio i wragedd yn unig.

Byddai'n well gan gyfran uchel o ffermwyr gael gwell prisiau am eu cynnyrch yn lle'r Taliad Sengl, a nododd y rhain ymdeimlad pendant o anghysur ynghylch derbyn cymorthdaliadau. Er hynny, bernid bod grym yr uwchfarchnadoedd yn rhy fawr i unrhyw beth newid. Yn hyn o beth roedd ple yn cael ei wneud ar i'r llywodraeth ymyrryd, gan ystyried y byddai pris marchnad tecach yn fwy effeithiol i sicrhau busnesau fferm cadarn a bwyd da yn y dyfodol. Amlinellwyd hefyd fod mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth o du'r cyhoedd yn hanfodol er mwyn caniatáu newid yn y maes hwn.

**Diweddglo:**

At ei gilydd, mae'n amlwg bod ffermio yn gweld newidiadau radicalaidd a bod y rheiny am barhau am y degawd nesaf o leiaf. Erbyn hyn mae ffermwyr yn llawer mwy ymwybodol bod angen gogwyddo at fusnes, ond mae arnyn nhw angen cymorth parhaus i ddatblygu eu strategaethau busnes. Dysgu ar y fferm a dysgu ymhlith cyfoedion yw rhai o'r technegau mwyaf llwyddiannus yn hyn o beth. Ond yn yr un modd, dylid cydnabod a datblygu sylw i sgiliau ffermwyr a'u diddordeb yn eu rôl fel cynhyrchwyr bwyd. Bernir bod technegau amaethu amgylcheddol-gynaliadwy yn ffordd bwysig i ella gwydnwch cyffredinol busnes y fferm, ond nid yw symudiad mwy dramatig tuag at flaenoriaethau cadwraeth yn debyg o ddigwydd.

## Llyfryddiaeth

Ajzen, I. a Fishbein, M. (1980) Understanding Attitudes and Predicting Social Behaviour. Prentice Hill.

Bruges, M. a Smith, W. (2007) Participatory approaches for sustainable agriculture: A contradiction in terms? Agriculture and Human Values 25: 13-23.

Burton, R. (2004) Reconceptualising the 'behavioural approach' in agricultural studies: a socio-psychological perspective. Journal of Rural Studies 20 359-371

Burton, R. a Wilson, G. (2006) Injecting social psychology theory into conceptualisations of agricultural agency: Towards a post-productivist farmer identity? Journal of Rural Studies 22: 95-115.

Burton, R., Kuczera, C. a Schwarz, G. (2008) Exploring Farmers' Cultural Resistance to Voluntary AES. Sociologia Ruralis 48 (1) 16-37

CCRI (2009) Entry and exit from agri-environmental schemes in Wales. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

CCRI a Sefydliad Macaulay (2007) Understanding and influencing positive behaviour change in farmers and rural land managers. Adroddiad i Defra.

Corbera, E., Kosoy, N., Martinez-Tuna, M., 2007. Equity implications of marketing ecosystem services in protected areas and rural communities: case studies form Meso-America. Global Environmental Change 17 (3-4): 365-380.

Curry, N. a Winter, M. (2000): European Briefing: The Transition to Environmental Agriculture in Europe: Learning Processes and Knowledge Networks. European Planning Studies 8:, 107-121

Defra (2008) Behaviour and motivations of farmers in responding to policy changes in England. EPES 0405-17.

Ecological Land Co-op (2011) Small is Successful.

IAASTD (2008) Agriculture at a Crossroads. International Assessment of Agricultural Knowledge, Science and Technology for Development.

IBERS (2009) Arolwg Busnes Ffermydd. Prifysgol Aberystwyth

IBERS (2010) Arolwg Busnes Ffermydd. Prifysgol Aberystwyth

Foresight (2011) The Future of Food and Farming: Final Project Report. Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth.

Gasson, R. (1973) Goals and values of farmers. Journal of Agricultural Economics 24: 521-537.

Gasson, R. (1992) Farmers' Wives: Their contribution to the farm business. Journal of Agricultural Economics, 43: 74–87

Kosoy, N., Corbera, E., Brown, K. (2008) Participation in Payments for Ecosystem Services: Case Studies from the Lacandon Rainforest, Mexico. Geoforum 39: 2073-83

McAfee, K. a Shapiro, E. (2010) Payments for Ecosystem Services in Mexico: Nature, Neoliberalism, Social Movements and the State. Annals of the Association of American Geographers. 100 (3): 579-599

Neef, A. a Neubert, D. (2011) Stakeholder participation in agricultural research projects: a conceptual framework for reflection and decision making. Agriculture and Human Values 28: 179-194

Pagella, T. (2011) Polyscapes: Adaptive Landscapes. Adroddiad drafft i Weithgor CMI Ecosystem Services.

Potter, C. a Morris, C. (1995) Recruiting the New Conservationists: Farmers' Adoption of Agri-Environment Schemes in the UK. Journal of Rural Studies 11 (1) 51-63

Potter, C. a Lobley, M. (1992) The conservation status and potential of elderly farmers: results from a survey in England and Wales. Journal of Rural Studies 8: 133 -143

Smaje, C. a Rowlatt, C. (2011) Key Policies for Agroecology in the UK. Papur Briffio'r Grwp Seneddol Aml-blaid ar Amaeth-ecoleg.

Swyddfa Archwilio Cymru (2007) Tir Gofal. Archwilydd Cyffredinol Cymru, Caerdydd.

The Institute for Government (2010) Mindspace, influencing behaviour through public policy.

Wilson, G. (1997) Factors Influencing Farmer Participation in the ESA scheme. Journal of Environmental Management 50: 67-93

Wilson, G. a Hart, K. (2000) EU farmers' motivations for participation in voluntary AES. Environment and Planning A 32: 2161-2185

WRO (2006) Asesu Eco-economi'r Gymru Wledig. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

WRO (2007) Arolwg Busnes Cefn Gwlad. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

WRO (2010) Arolwg o Aelwydydd Fferm yng Nghymru. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**ATODIAD 1:** Tabl sy'n dangos derbyniad Glastir o'i gymharu â chymryd rhan mewn cynlluniau blaenorol a'r awgrymiadau o dderbyniad Glastir yn arolwg yr Arsyllfa yn 2010; fe'i trafodir yn adran 5.

| Fferm | Cynllun | Glastir | Glastir 2010 | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| 96 | na | na | tebygol | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 63 | na | na | anhysbys | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 95 | na | na | annhebygol iawn | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 81 | na | na | tebygol | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 82 | na | na | anhysbys | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 1 | na | na | anhysbys | gormod o waith papur / rhy brysur |
| 58 | na | na | tebygol | prysur iawn – ddim am drafod |
| 3 | na | na | rhagor o wybodaeth | wedi hanner ymddeol |
| 85 | na | na | anhysbys | cynllun gwael – diffyg ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru |
| 141 | TG | na | rhagor o wybodaeth | Taliadau gwael a dyluniad y cynllun |
| 9 | TC | ie | tebygol | Am yr arian ac mae'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli |
| 55 | TC | na | tebygol iawn | Taliadau gwael a chyfyngiadau |
| 64 | TG | efallai | tebygol iawn | Estyniad TG |
| 99 | na | na | | Amhriodol – tyddyn gyda cheffylau |
| 46 | na | na | anhysbys | Dim digon o bwyntiau |
| 10 | na | na | rhagor o wybodaeth | Taliadau gwael, cryn ffocws ar gynhyrchu |
| 21 | na | ie | tebygol iawn | Trafferth codi pwyntiau |
| 18 | na | na | rhagor o wybodaeth | Diddordeb ond nid yw'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli |
| 11 | TG | ie | tebygol iawn | Estyniad TG |
| 36 | na | na | annhebygol iawn | afiechyd |
| 13 | ESA ; TG | efallai | tebygol iawn | Estyniad TG; ansicr |
| 17 | TG (5 mlynedd yn ôl) | na | anhysbys | rhy gymhleth |
| 16 | Organig ; TG | ie | rhagor o wybodaeth | ddim yn frwd; yn ymgeisio er mwyn cael grantiau eraill |
| 59 | na | na | rhagor o wybodaeth | dim digon o bwyntiau; cyfyngiadau |
| 39 | TC | efallai | tebygol | Taliadau gwael |
| 42 | Organig ; TG | ie | tebygol iawn | parhau â chadwraeth; ond pryderon am y taliadau |
| 101 | TC | na | annhebygol | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 4 | TC | ie | tebygol iawn | ansicr ynghylch y pwyntiau |
| 43 | na | na | tebygol | Taliadau gwael / cyfyngiadau |
| 69 | Organig ; TG | ie | tebygol iawn | parhau â chadwraeth; ond pryderon am y taliadau |
| 104 | Organig ; TG | ie | rhagor o wybodaeth | Am yr arian ac mae'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli |
| 12 | Organig | na | rhagor o wybodaeth | cynllun gwael - ddim yn cyd-fynd â'r dulliau rheoli |
| 118 | TC wedyr TG | efallai | rhagor o wybodaeth | Estyniad TG |
| 45 | TG | efallai | rhagor o wybodaeth | Ansicr - cynllun a thaliadau gwael |
| 34 | na | na | tebygol iawn | aneglur – ddim yn hoffi newid arferion |
| 84 | TC | na | annhebygol | henaint – rhy orchmynnol |
| 190 | na | na | annhebygol | rhy gyfyngol |
| 139 | na | na | rhagor o wybodaeth | methu ymuno â TG – diffyg ymddiriedaeth mewn cynlluniau |
| 110 | na | na | anhysbys | gormod o waith papur – dim diddordeb |
| 162 | TG | na | tebygol | Taliadau gwael |
| 146 | TG | ie | tebygol | am ymuno â chynllun lefel uwch – am yr arian |
| 179 | TG | ie | tebygol | am ymuno â chynllun lefel uwch – am yr arian |
| 62 | TG | efallai | rhagor o wybodaeth | am ymuno â chynllun lefel uwch – am yr arian |
| 14 | TG; Organig | efallai | rhagor o wybodaeth | Mae'n debyg – ond yn dibynnu ar yr arian |
| 26 | TG; Organig | efallai | rhagor o wybodaeth | Mae'n debyg – ansicr am yr ymroddiad |
| CMI 1 | ESA | ie | na | Am yr arian ac mae'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli – ond beirniadol iawn |
| CMI 2 | ESA; TG | ie | na | Am yr arian ac mae'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli |
| LIFE 1 | Organig ; TG | ie | na | pryderon am y taliadau |
| LIFE 2 | na ond SoDdGA | ie | na | colli Tir Mynydd |
| LIFE 3 | na ond SoDdGA | ie | na | Am yr arian ac mae'n cyd-fynd â'r dulliau rheoli |

**ATODIAD 2:** Crynodeb o bob ymatebydd, gan ddefnyddio'r teipolegau a drafodwyd yn adran 4.

| | |
|---|---|
| 96 | HYBLYG<br>TYDDYN<br>Milfeddyg – amser llawn<br>Cynlluniau ddim yn werth yr ymdrech<br>Beirniadol o Glastir ar sail trafodaethau gyda ffermwyr |
| 63 | CYFYNGEDIG<br>TYDDYN<br>Cynlluniau ddim yn werth yr ymdrech |
| 95 | HYBLYG<br>Ddim am ymuno â Glastir – gormod o ddadstocio<br>Ond yn awgrymu arallgyfeirio fel strategaeth at y dyfodol |
| 81 | CYFYNGEDIG<br>TYDDYN<br>Cynlluniau ddim yn werth yr ymdrech |
| 82 | CYFYNGEDIG<br>TYDDYN<br>Cynlluniau ddim yn werth yr ymdrech |
| 1 | ? Ddim mewn cynlluniau – rhy brysur, llwyth gwaith trwm iawn, straen. |
| 58 | ? Ddim mewn cynlluniau – rhy brysur, llwyth gwaith trwm iawn, straen. |
| 3 | CYFYNGEDIG<br>YN YMDDEOL |
| 85 | BLAENGAR<br>Y ddau yn gweithio'n amser llawn oddi ar y fferm, ac yn rhedeg safle gwersylla yn yr haf.<br>Yn ymwneud â materion amgylcheddol a chadwraeth.<br>Ond yn ansicr sut i'w rhoi ar waith ar y fferm – bach iawn, ar yr arfordir.<br>Teimlo bod arnyn nhw angen yr holl dir sydd ganddyn nhw i'w ffermio.<br>Beirniadu cymorthdaliadau<br>Heb fod yn fodlon iawn ar ymyriadau'r llywodraeth yn y bôn – oherwydd profiadau blaenorol. |
| 141 | BLAENGAR<br>Fferm laeth<br>Heb gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol o'r blaen<br>Ond nid yw'n teimlo ei bod yn ddigon proffidiol ar hyn o bryd.<br>Beirniadu'r cynllun<br>Dim gwybodaeth am yr SFP - rhoi'r gorau iddi o bosibl (data 2010) |
| 9 | BLAENWEITHGAR<br>Ddim yn ffermio ar hyn o bryd, gan brydlesu'r tir a rhedeg B&B.<br>Ymwybodol iawn o fusnes a heb ymlyniad cryf â'r ffordd amaethyddol o fyw.<br>Ond yn ofalus iawn hefyd o'r rheolau ar gadwraeth – nad yw'n eu gweld fel petaen nhw'n gwrthdaro â ffermio.<br>Anodd dweud ai dim ond am yr arian y mae hyn yn bod.<br>Ond mae'n awgrymu ei fod yn rhedeg system anarddwys.<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl. Busnes heb fod yn wydn i'w redeg heb y taliad sengl.<br>Heb y taliad sengl byddai'n gorfod dychwelyd i ffermio yn hytrach na phrydlesu. |
| 55 | BLAENGAR<br>Wedi bod mewn cynlluniau o'r blaen ac wedi bwriadu ymuno â Glastir 2010<br>Ond nid nawr – beirniadol iawn o'r cynllun<br>Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o gymorth i ddechreuwr ifanc<br>Y ferch yn ymwneud â'r fferm – a chanddi ei busnes cneifio ei hun<br>Yn awgrymu arallgyfeirio fel strategaeth at y dyfodol. |
| 64 | CYFYNGEDIG<br>Gwybodus iawn am yr amgylchedd<br>Fferm fach, yn cael ei rhedeg yn draddodiadol iawn heb greu effaith fawr.<br>Yn fwy oherwydd ei hymroddiad amgylcheddol na chyfyngiadau o ran capasiti.<br>Er mai fferm uchel yw hi.<br>Yn arfer rhedeg y fferm yn fwy arddwys<br>Yn hyblyg o ran ei harferion ffermio, ond dan gyfyngiad oherwydd y tir a'i hoed<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl |
| 99 | HYBLYG<br>TYDDYN<br>Tyddyn yw'r tir, a hwnnw'n cael ei defnyddio at fusnes ceffylau.<br>Nid y brif ffynhonnell incwm, felly penderfyniadau ar sail ffordd o fyw yn fwy na busnes. |

| | |
|---|---|
| | Ddim yn rhan o gynlluniau nac yn cael y taliad sengl am eu bod yn anymwybodol o sut y gallai fod yn gymwys. |
| 46 | ANFODLON<br>(bydd yn ymuno â chynlluniau ond yn canolbwyntio’n fwy ar ffermio)<br>Fferm laeth<br>Heb fod mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, wedi ystyried ymuno â Glastir i gael yr arian ond yn methu cael pwyntiau.<br>Heb newid rheolaeth – ond yn ariannol ymwybodol.<br>Gwell ganddo well pris marchnad na’r taliad sengl – ddim yn dibynnu arno.<br>Y mab yn rhan o’r busnes<br>Gogwyddo at gynhyrchu<br>Dim llawer o ogwydd at gadwraeth – er nad yw’r fferm yn rhy arddwys o ran ei golwg. |
| 10 | ANFODLON<br>YN YMDDEOL<br>Roedd yn fferm laeth, bellach buchod sugno at gig eidion yn sgil BSE, ac angen buddsoddi mewn parlwr newydd.<br>Fferm tir uchel anghysbell iawn, yn dibynnu ar gymdogion o ran gwybodaeth.<br>Y ffermwr wadi pasio oed ymddeol a’i wraig yn sâl iawn – amgylchiadau’r teulu yn peri anhawster.<br>Fe fyddai’n ymuno â Glastir i gael yr arian – ond roedd yn gwrthdaro ormod â’i syniad yntau o ffermio.<br>Gogwyddo’n gryf at gynhyrchu.<br>Ond fe wnâi waith amgylcheddol am arian digonol– anfodlon gan ei fod yn gwrthdaro â’i rôl.<br>Ond gan ei fod yn heneiddio mae’n gweld y gallai fod yn iawn.<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl. |
| 21 | BLAENGAR<br>Fferm laeth<br>Ond yn ymwybodol iawn hefyd o gadwraeth ac fe hoffai wneud mwy<br>Y cynlluniau’n peri rhwystredigaeth – gan nad ydyn nhw’n addas i’r fferm nac yn ymddangos yn gall.<br>Yn flaengar ei syniadau ac yn hyblyg mewn busnes<br>Mewn grwpiau, cysylltiadau da.<br>Ond y llwyth gwaith yn peri anawsterau.<br>Gofalus / nerfus ynghylch rheoliadau’r llywodraeth.<br>Trefniant y denantiaeth yn golygu bod rhagor o arallgyfeirio yn anodd. |
| 18 | HYBLYG<br>Ond yn bur anfodlon newid<br>Fferm laeth<br>Heb newid yr arferion rhyw lawer.<br>Yn cael ei arwain yn bendant gan y cyllid.<br>Bodlon gwneud gwaith cadwraeth os byddai’n cyd-fynd â’r busnes.<br>Ond yn cael ei gyfyngu gan y tir – porfeydd o ansawdd dda.<br>Teuluol ei ogwydd.<br>Pur broffidiol – felly yn iawn o bosibl heb y taliad sengl. |
| 11 | BLAENWEITHGAR<br>Fferm tir uchel ond yn cadw ieir hefyd<br>Yn arfer rhedeg B&B pan oedd ei rieni mewn busnes,<br>ond gormod o waith ar hyn o bryd (gyda 3 o blant …)!<br>Hapus newid y busnes ac addasu –<br>Yn cadw cysylltiad â grwpiau a phrynwyr arbenigol<br>Yn mynd i mewn i Glastir ac wedi bod mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol o’r blaen.<br>Ymwybodol o gadwraeth, system anarddwys.<br>Ond yn dal yn ymroddedig i ffermio.<br>Gallai addasu at newid yn y taliad sengl. |
| 36 | CYFYNGEDIG<br>YN YMDDEOL<br>Oherwydd afiechyd<br>Hefyd yn wynebu amgylchiadau anodd yn y busnes –<br>Methu sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau hanfodol.<br>Y taliad sengl heb fod yn rhan annatod o’i incwm am ei fod yn gweithio’n amser-llawn mewn man arall<br>Agwedd bur draddodiadol at gadwraeth a ffermio – eu gweld mewn harmoni<br>Ffermwyr fel ceidwad cefn gwlad |
| 13 | BLAENWEITHGAR<br>Hefyd yn rhedeg safle carafannau<br>Wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol<br>Ansicr am Glastir<br>Beirniadol o’r strategaeth gyfredol – rhy benderfynol o amgylcheddol<br>Ond yn cydymdeimlo â chadwraeth<br>Yn ffermio mewn modd anarddwys |

| | |
|---|---|
| | Ddim yn cytuno â'r taliad sengl<br>Yn credu bod angen gwell pris ar fwyd |
| 17 | HYBLYG<br>Ond pur gyfyngedig<br>Fferm laeth eithaf arddwys<br>Heb newid lawer ar y busnes – ond yn agored i syniadau o ran hwsmonaeth anifeiliaid.<br>Yn ei chael yn anodd iawn o ran llafur<br>Yn cydymdeimlo â chadwraeth ac roedd yn aelod o TG, yn awgrymu bod cynefin da ar y fferm.<br>Ac yn awyddus i ffermio mewn cytgord â'r amgylchedd.<br>Wedi ystyried Glastir – ond penderfynu ei fod yn rhy gymhleth. |
| 16 | BLAENWEITHGAR<br>Fferm gymysg fach, gyda siop fferm a phrosesu ar y safle.<br>Gogwydd pendant at fusnes ac yn hyblyg iawn.<br>Yn arfer rhedeg tafarn<br>Ymwybodol iawn o'r amgylchedd, dulliau anarddwys organig<br>Y mab am ymgymryd â'r busnes – a gafodd ddylanwad pwysig ar y strategaeth fusnes. |
| 59 | HYBLYG<br>Ond heb fod yn awyddus i arallgyfeirio<br>Yn cael ei gyfyngu ychydig gan y capasiti – fferm tir uchel<br>Heb gymaint o ffocws ar fusnes – ond yn dda iawn am ffermio, yn canolbwyntio ar fridio etc.<br>Cysylltiadau da mewn grwp prynwyr.<br>Y wraig yn canolbwyntio'n fwy ar arallgyfeirio – ond rhai tensiynau ynghylch dyfodol y fferm.<br>Ddim mewn unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol, argraff na allai ymuno.<br>Wedi edrych ar Glastir yn lle'r ALFf – ond ddim yn werth yr ymdrech o safbwynt ariannol.<br>Cydymdeimlo â chadwraeth - ond yn cael ei ddigalonni gan y cyfyngiadau a'r rheolau. |
| 39 | HYBLYG<br>Fferm fach ar dir uchel<br>Wedi dod 'nôl o ffermio - felly dewis ar sail ffordd o fyw.<br>Heb wneud llawer o newidiadau,<br>Ond yn teimlo y gallai addasu – ar nad yw'n canolbwyntio'n fawr ar fusnes.<br>Heb boeni gormod am y taliad sengl<br>Roedd yn aelod o TC ac yn gobeithio ymuno â Glastir ond ar hyn o bryd nid yw'n werth yr ymdrech yn ariannol.<br>Hapus i wneud cadwraeth am daliadau addas. |
| 42 | BLAENGAR<br>Wedi troi'n organig am resymau ideolegol.<br>Ymwybodol iawn o gadwraeth<br>Ond yn dal ynghlwm wrth ei hunaniaeth fel ffermwr.<br>Beirniadol o'r cynllun Glastir fel un sy'n anymarferol i rai mewn termau amaethyddol.<br>Ond yn syml ar gyfer eu fferm nhw oherwydd ei statws organig (ydy hynny wedi newid nawr?)<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl<br>Yn awgrymu bod ei fab yn fwy ymwybodol o fusnes |
| 101 | CYFYNGEDIG<br>Pur gyfyngedig oherwydd maint ac amgylchedd y fferm – fferm tir uchel, yn gweithio'n amser-llawn oddi ar y fferm.<br>Yn gontractiwr – felly yn yr ystyr honno yn flaengar ac yn hyblyg.<br>Ond heb newid yr arferion ffermio rhyw lawer.<br>Roed dyn aelod o TC ond nid TG na Glastir am eu bod yn rhy gyfyngol.<br>Yn eglur yn cael anhawster i gydbwyso'i lwyth gwaith ac yn anfodlon ar lefelau'r rheoliadau.<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl. |
| 4 | ANFODLON<br>Fferm anarddwys<br>Eisoes yn cynnal rhywfaint o gynefin felly doedd bod mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ddim yn newid mawr<br>Ac yn fantais yn ariannol.<br>Ymddangos fel petai'n cydymdeimlo â chadwraeth – yn gweld ffermwyr fel stiwardiaid.<br>Ond hefyd yn gweld Glastir fel penderfyniad busnes felly proffidioldeb gaiff y gair olaf.<br>Fferm deuluol – yn gobeithio yr aiff i'w fab.<br>Anodd gweld i ba raddau y mae'n ymddiddori mewn busnes – ond yn aelod o grwp trafod Cyswllt Ffermio. |
| 43 | HYBLYG<br>Fferm laeth draddodiadol<br>Peth cydymdeimlad â chadwraeth a heb fod yn arddwys iawn.<br>Ond yn well ganddo weld dim ymyrraeth o du'r llywodraeth.<br>Ddim mewn cynlluniau, wedi edrych ar Glastir ond penderfynu yn erbyn – anymarferol. |

| | |
|---|---|
| | Beirniadol o bolisi'r llywodraeth.<br>Y ferch yn ymgymryd â'r fferm – dylanwad pwysig ar y penderfyniadau.<br>Byddai'n well ganddo weithredu heb gymorthdaliadau. |
| 69 | HYBLYG<br>Pâr wedi ymddeol ar dyddyn anarddwys<br>Ffordd o fyw yn bwysig<br>Ymwybodol iawn o'r amgylchedd<br>Mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ac yn gwneud cais i'r cynllun Glastir<br>Ond yn beirniadu polisi'r llywodraeth am ei fod yn anghytbwys – anaddas i ffermio.<br>Yn gwerthfawrogi cymorthdaliadau – er nad ydyn nhw'n dibynnu arnyn nhw eu hunain, yn awgrymu bod pobl eraill yn dibynnu arnyn nhw. |
| 104 | BLAENGAR<br>Newydd ymgymryd â'r fferm ar ôl i'r tad farw<br>Mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ac yn organig – fel petai'n hoffi'r system<br>O wedi newid llawer<br>Yn canolbwyntio'n fawr ar gynhyrchu o'r blaen.<br>Fel; petai'n hyblyg ac yn ymwybodol o fusnes.<br>Strategaethau arallgyfeirio ganddo<br>Hapus i ddilyn cymhellion ariannol (er enghraifft ar gyfer PES) – ond yn ymwybodol hefyd o gynaliadwyedd hirdymor y tir.<br>Aneglur i ba raddau y maen nhw'n dibynnu ar y taliad sengl. |
| 12 | BLAENGAR<br>Gwedda oedrannus yn byw ar ei phen ei hun<br>Materion teuluol / rhagolygon at y dyfodol yn effeithio'n fawr arni.<br>Hefyd yn rhedeg helfa saethu a styd ar y fferm, gyda nifer o gyfeiriadau busnes a chysylltiadau da yn flaenorol.<br>Ymwybodol iawn o fusnes – o oes o fusnesau ar y tir.<br>Ond hefyd yn ymwybodol iawn o gadwraeth – organig ac yn arfer bod yn yr ESA<br>Ac eto'n feirniadol iawn o bolisi'r llywodraeth – am ei fod yn anghyson, ac yn afrealistig.<br>Aneglur sut y byddai'n ymdopi heb y taliad sengl. |
| 118 | ANFODLON<br>Fferm fach, yn defnyddio dulliau anarddwys.<br>Hefyd yn gwneud gwaith contractio<br>Ond fel arall heb fod yn flaenweithgar iawn gyda busnes<br>Canolbwyntio cryn dipyn ar y ffordd o fyw.<br>Yn gobeithio gweld y ferch yn ymgymryd â'r fferm.<br>Yn cydymdeimlo ag anghenion yr amgylchedd.<br>Wedi'i amddiffyn ychydig rhag y taliad sengl oherwydd y gwaith contractio. |
| 45 | BLAENGAR<br>Fferm fach, yn defnyddio dulliau anarddwys a bridiau prin.<br>Yn rhedeg cynllun blychau yn lleol.<br>Ymwybodol iawn o gadwraeth.<br>Ond yn feirniadol iawn o'r polisi cadwraeth am ei fod yn anymarferol o safbwynt ffermio.<br>Ymwybodol iawn o fusnes<br>Cysylltiadau gwych<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl |
| 34 | ANFODLON<br>Fferm anarddwys<br>Fawr o awydd newid – anodd ennyn diddordeb yn y dewisiadau o ran penderfynu<br>Ddim mewn unrhyw gynlluniau<br>Gallai tenantiaeth gyfyngu ar ei sefyllfa hefyd<br>Yn dibynnu ar y taliad sengl |
| 84 | BLAENWEITHGAR<br>YN YMDDEOL<br>Wedi gwneud llawer o newidiadau yn y busnes dros y blynyddoedd – hyblyg iawn.<br>Cydymdeimlo â'r amgylchedd, gan gynhyrchu'n anarddwys.<br>Ond ddim yn ymuno â Glastir am ei fod yn rhy gyfyngol ac oherwydd henaint.<br>Y teulu ddim yn cymryd drosodd<br>Gweld y taliad sengl yn hanfodol i'r gymuned amaethyddol ac yn bwysig iddyn nhw.<br>Wedi bod yn weithgar iawn mewn grwpiau ac undebau etc – cysylltiadau da. |
| 190 | BLAENWEITHGAR<br>Fferm laeth arddwys– ond yn cadw'r anifeiliaid ar borfa yn hytrach na phorthiant crynodedig.<br>Ffocws ar arloesi wrth reoli'r tir ac yn y system bori i sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy.<br>Ymwneud â grwpiau trafod llaeth a mentrau cydweithredol i gynhyrchwyr i wella arferion ffermio a |

| | |
|---|---|
| | phroffidioldeb.<br>Yn ymwybodol ac yn cydymdeimlo â chadwraeth a materion amgylcheddol.<br>Ond yn nerfus ynglyn â chynlluniau amaeth-amgylcheddol oherwydd yr argraff o ymyrraeth / gor-reoleiddio gan y llywodraeth. |
| 139 | CYFYNGEDIG<br>Tad a mab, fferm fynydd bach.<br>Eithaf cyfyngedig<br>Heb newid rhyw lawer, ond yn gofidio am ansawdd eu hwyn – canolbwyntio ar hynny.<br>Wedi ystyried cynlluniau amaeth-amgylcheddol ond heb lwyddo i ymuno<br>Ddim yn hoff iawn o Glastir – ddim yn werth yr ymdrech ac wedi clywed llawer o sylw negyddol yn y wasg.<br>Awgrymu y gallen nhw fod yn hyblyg heb y Taliad Sengl? Ddim yn glir – yn bendant am deimlo colled ar ôl Tir Mynydd |
| 110 | BLAENGAR<br>Fferm laeth<br>Gogwydd pendant at fusnes – hefyd yn brynwr ar ran manwerthwyr.<br>Y tad heb fod yn erbyn cadwraeth, ond ymdeimlad y byddair mab yn ei gweld fel llyffethair.<br>Heb fod yn aelod o gynlluniau.<br>Yn ceisio peidio â dibynnu ar y taliad sengl ac yn weddol broffidiol.<br>Gan y tad gysylltiadau da iawn ag undebau etc. |
| 162 | BLAENGAR<br>Busnes teuluol, yn gweithio ochr yn ochr â'i dad.<br>Hefyd yn gyfreithiwr rhan-amser – dylanwad pwysig ar ei syniadau.<br>Blaengar yn eu dull cymysg ac anarddwys.<br>Ac yn eithaf hyblyg / ymwybodol o fusnes.<br>Ond hefyd yn bur agored i niwed o ran busnes<br>Ffocws y llywodraeth yn peri rhwystredigaeth – angen mwy o gefnogaeth i ffermydd bach.<br>Hapus gwneud cadwraeth os yw'n talu / yn gwneud synnwyr. |
| 146 | CYFYNGEDIG<br>Cyfyngiadau o ran capasiti drwy fod yn ffermwr tir uchel.<br>Dim newid mawr yn arferion y busnes.<br>Hapus ymgymryd â chadwraeth a chynlluniau amaeth-amgylcheddol – ac yn ymwybodol o'r amgylchedd i ryw raddau,<br>Ond profiadau gyda chadwraethwyr yn peri rhwystredigaeth.<br>Yn pasio'r busnes ymlaen i'r meibion.<br>Dibynnol iawn ar y taliad sengl. |
| 179 | HYBLYG<br>Gogwydd at fusnes, a chyllid yn pennu'r penderfyniadau.<br>Ond yn bur draddodiadol ei agwedd hefyd.<br>Ddim yn cynllunio ymlaen o reidrwydd – er bod hynny o bosibl yn deillio o faterion capasiti (fferm tir uchel).<br>Wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau – pur arddwys o ran ymagwedd.<br>Ond yn hapus gwneud cadwraeth am resymau busnes.<br>Ond fel arall fydden nhw ddim yn rhoi blaenoriaeth i gadwraeth.<br>Y taliad sengl yn peri pryder, ond dim cynllun clir ynghylch dewisiadau eraill. |
| 62 | BLAENGAR<br>Ymlyniad pendant â'r ffordd amaethyddol o fyw a'i hunaniaeth fel stocmon.<br>Ond hefyd yn hyblyg a blaengar yn ei arferion busnes.<br>Yn rhedeg nifer o fusnesau arallgyfeirio ochr yn ochr â busnes y fferm.<br>Aelod o wahanol grwpiau ac yn awyddus i gadw mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiadau busnes posibl<br>Cadwraeth heb fod yn flaenoriaeth uchel.<br>Ond nid yw ychwaith yn ceisio dwysáu gymaint â phosibl, hapus ymwneud â chynlluniau amaeth-amgylcheddol i sicrhau manteision busnes.<br>Y taliad sengl yn bwysig ond efallai y gallai gael ffordd i ymdopi hebddo?<br>Cynaliadwyedd hirdymor – i'r fferm ac i'r teulu yw'r allwedd i'w benderfyniadau. |
| 14 | HYBLYG<br>Mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol am resymau ariannol<br>Ond yn cydymdeimlo ac yn ymwybodol o faterion amgylcheddol ar y fferm<br>Ansicr am Glastir – oherwydd y taliadau gwael<br>Mae yna B&B ond dim newidiadau eraill<br>heb y taliad sengl byddai'n gwerthu'r fferm |
| 26 | BLAENGAR<br>Mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol a'r cynllun organig am resymau ariannol<br>Ei gweld fel ffordd o arallgyfeirio |

| | |
|---|---|
| | Ond hefyd llawer o bobl eraill mewn cynlluniau organig yn yr ardal<br>Yn hoffi'r system nawr – ac yn addas i'w hoffter o ddulliau anarddwys.<br>Ansicr am y taliad sengl – byddai'n ceisio parhau<br>Ond ymlyniad â'r ffordd amaethyddol o fyw. |
| CMI 1 | BLAENGAR<br>Traddodiadol o ran arferion – ond wedi'i gyfyngu gan yr amgylchedd - fferm tir uchel.<br>Ymwybodol o'r amgylchedd – oherwydd y lleoliad, ac yn hapus i ffermio mewn modd anarddwys.<br>Cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn benderfyniad busnes, ddim yn fodlon rhoi rhagor o dir i gadwraeth.<br>Gan eu bod eisoes dan gyfyngiad.<br>Ymwneud â grwpiau ac yn bwriadu cadw cysylltiadau a pharhau'n wybodus er mwyn arloesi yn y busnes.<br>Hapus buddsoddi yn y fferm a newid arferion.<br>Heb fod mor ddibynnol ar y taliad sengl oherwydd amgylchiadau hanesyddol / busnes wedi addasu. |
| CMI 2 | BLAENWEITHGAR<br>Eithaf traddodiadol o ran arferion herwydd cyfyngiadau ar yr amgylchedd – fferm tir uchel.<br>Ond nifer o strategaethau arallgyfeirio.<br>Ymwneud â grwpiau, cysylltiadau da ac yn fodlon buddsoddi / newid strategaeth fusnes.<br>Ymwybodol o'r amgylchedd ac yn ymroddedig cyhyd ag na fydd yn cyfaddawdu'r fferm.<br>Gogwydd teuluol.<br>Meddwl-agored.<br>Pryderu am newid y taliad sengl – ond strategaethau posibl. |
| LIFE 1 | BLAENWEITHGAR<br>Cysylltiadau da ac yn fodlon buddsoddi yn y fferm.<br>Ond wedi'i gyfyngu gan yr amgylchedd - fferm tir uchel.<br>Ymwybodol o gadwraeth, ac yn hyblyg.<br>Ond anfodlon cyfaddawdu'r fferm.<br>Gogwydd teuluol pendant – y bechgyn yn cymryd drosodd.<br>Methu goroesi heb y taliad sengl. |
| LIFE 2 | CYFYNGEDIG<br>Wedi'i gyfyngu gan yr amgylchedd - fferm tir uchel.<br>Hefyd trefniant y denantiaeth a lleoliad daearyddol anghysbell wedi lleihau eu gallu i newid.<br>Heb fod mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol o'r blaen – anfodlon newid?<br>Ond yn edrych nawr gan fod Tir Mynydd yn dod i ben.<br>Ddim yn rhy anodd iddyn nhw ymuno nawr oherwydd y system anarddwys.<br>Heb ymddiddori rhyw lawer mewn cadwraeth, ond heb fod yn arddwys chwaith.<br>Methu goroesi heb y taliad sengl. |
| LIFE 3 | HYBLYG<br>Wedi'i gyfyngu gan yr amgylchedd - fferm tir uchel.<br>Ond mae ganddo fferm arall ar dir isel – Sir Fôn.<br>Felly rhyw ymdeimlad o allu i addasu.<br>Heb fod mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol o'r blaen o'r blaen gan nad ydyn nhw'n argyhoeddi.<br>Gwybodus iawn am gadwraeth.<br>Glastir yn cyd-fynd â'r dulliau rheoli – a strategaeth fusnes, ond fel arall yn feirniadol iawn.<br>Methu goroesi heb y taliad sengl |

**ATODIAD 3**: Enghraifft o groes-dablu ymatebion yr ymatebwyr a'u nodweddion.

| # | ESU | Math | AES | Glastir | Hoffi ymgysylltu â PES? | Agwedd at yr SFP | Ymateb i gwestiwn yr SFP yn 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 85 | vs | defaid | na | na | | Beirniadu cymorthdaliadau | cario ymlaen |
| 141 | l | llaeth | TG | na | Ie | pwysig | rhoi'r gorau iddi o bosibl |
| 9 | vs | defaid | TC | ie | Ie | Pwysig | ystyried dewisiadau eraill |
| 55 | s | | ie | na | beirniadu cynaliadwyedd AES | Pwysig - ond beirniadol | arallgyfeirio, bod yn fwy effeithlon |
| 64 | vs | | TG | efallai | cydymdeimlo | Pwysig | Gwaith amgylch am fwy o £, anodd newid |
| 99 | s | | na | na | cydymdeimlo | Heb ei gael | cydymffurfio, cwtogi |
| 46 | l | llaeth / eidion | na | na | Na - ffocws cryf ar gynhyrchu | Gwell cael prisiau uwch am laeth | torri costau |
| 10 | s | eidion | na | na | Ie – os digon o arian | Pwysig | rhoi'r gorau iddi |
| 21 | m | llaeth / defaid | na | ie | Na – anymarferol | Hyblyg | / |
| 18 | l | llaeth / defaid | na | na | anaddas i'w dir | iawn efallai? | dim cynllun |
| 11 | m | eidion/ defaid/ ieir | TG | ie | Na | Hyblyg | addasu'r cynhyrchu |
| 36 | vs | eidion | na | na | | Ddim yn dibynnu | yn ymddeol |
| 13 | m | eidion / defaid | ESA ; TG | efallai | Na – beirniadol | Beirniadu cymorthdaliadau | cydymffurfio, ansicr |
| 17 | l | llaeth | TG (5 mlynedd nôl) | na | Na | ? | cydymffurfio, torri costau |

**ATODIAD 4:** Rhestrau'r Cyfweliadau

1. Trosolwg o'r fferm:

   Maint
   Math o dir,
   Math o ffermio
   Dynodiadau cadwraeth
   Perchnogaeth breifat / tenant
   Pori tir comin
   Pwy sy'n rhan o'r busnes – teulu, nifer y gweithwyr

2. Ydych chi mewn unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol?
   - Allech chi esbonio'ch rhesymau dros ymuno?
   - Sut clywsoch chi am y cynllun?
   - Beth roedd y cynllun yn ei olygu - o ran rheoli? A chymorth swyddog prosiect?
   - Allech chi esbonio sut penderfynoch chi ar y gwahanol opsiynau rheoli?
   - Ydy'r cynllun yn cynnwys y fferm gyfan? Oes yna wahaniaethau yn y ffordd rydych chi'n deall y gwahanol rannau o'r fferm? (parthau penodol i'r gweithgareddau?)
   - Pa ganlyniadau cadarnhaol welsoch chi o'r cynllun?
   - Oedd yna fanteision amgylcheddol gweladwy?
   - Ydych chi'n gweld unrhyw wrthdaro rhwng eich rôl fel ffermwr ac amcanion y cynllun?
   - Yn gyffredinol - sut brofiad gawsoch chi yn y cynllun - ydy hyn wedi effeithio ar eich penderfyniad ynghylch cymryd rhan yn y cynllun Glastir?

3. Ydych chi wedi ymuno â Glastir?
   - Allech chi amlinellu'ch profiadau o Glastir hyd yn hyn - Ydych chi wedi clywed amdano; proses gwneud cais, unrhyw gyngor rydych chi wedi'i gael ac yn y blaen...?
   - Beth sydd wedi effeithio ar eich penderfyniad i ymuno?
   - Pa opsiynau rheoli rydych chi wedi'u dewis a pham? (manylwch ar y dewisiadau ar gyfer y gwahanol fathau o gadwraeth)
   - Beth yn eich barn chi yw'r prif bryderon ynglyn â Glastir i'r gymuned amaethyddol ehangach?
   - Pa ffactorau sydd debycaf o effeithio ar eich penderfyniad ar gymryd rhan yn Glastir yn y tymor hirach?
   - Ydych chi'n gweld y cynllun yn wahanol i gynllun Tir Gofal?
   - Ydych chi'n credu bod angen newid i gynllun newydd? Ydych chi'n deall pam mae Llywodraeth Cymru wedi dod â'r cynllun newydd i mewn?

4. Oes ffocws ar 'wasanaethau ecosystem' wedi bod yn amlwg yn eich profiad chi o'r cynllun? (Esboniwch fwy os bydd angen - yn ymwneud â newid hinsawdd a rheoleiddio dwr)
   - Beth yw'ch barn chi am y dull yma? (Soniwch am yr amgylchedd lleol os nad ydyn nhw'n glir)

- Holwch am ffynonellau gwybodaeth sy’n bwydo’u barn ar hyn.
- Fyddai’n well gennych gael taliadau uniongyrchol am waith cadwraeth (er enghraifft gosod pris ar garbon) yn lle costau wedi’u seilio ar incwm sy’n cael ei ildio?
- Fyddech chi’n fodlon gwneud mwy o waith cadwraeth ar y fferm petaech chi’n cael eich talu amdano?
- Ydych chi’n credu y byddai cysylltiadau cliriach rhwng y cyhoedd, fel derbynwyr ‘gwasanaethau ecosystem’, a’r ffermwr fel cynhyrchydd yn helpu... (gyda model y gwasanaeth ecosystem)?

5. I ba raddau rydych chi’n eich gweld eich hun yn berson busnes? (Ydy bod yn ffermwr yn fwy na hynny?)

- Ydych chi wedi cael cyngor / hyfforddiant busnes?
- Ydych chi wedi gwneud newidiadau yn eich ffordd o ffermio?

6. Beth yw’ch cynlluniau ar gyfer dyfodol y fferm?

- Ydych chi’n poeni am ddiwygio’r CAP? Sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi? (Holwch am agweddau ar gymorthdaliadau, y taliad sengl etc.)
- Pryderon / risgiau eraill?